BOROUGH OF LLANELLY PUBLIC LIBRARY

Tel.: 3538.

LENDING LIBRARY

OPEN MON., THURS., FRI. AND SAT. 9.30–7.
TUES. 9.30–6., WED. 9.30–1.

Books are issued for 14 days, being due for return on or before the last date stamped. A fine of 1d. is chargeable from 1 to 7 days overdue, afterwards increasing to 2d. per week plus the cost of any notices.

Renewals may be applied for personally, by post or by telephone. State number, author, title and date due.

Books may be reserved on payment of 2d.

A charge will be levied on readers who soil or damage books, or who fail to protect them from rain. Defects and damage must be reported.

Readers at an address where infectious disease occurs must not return or borrow books; they must notify the Public Health Department.

TO MAKE FULL USE OF THE LIBRARY SERVICE, PLEASE CONSULT THE CATALOGUES AND GUIDES, AND ASK FOR INFORMATION.

K&J 699806

Rf

W944 JEN- FFR

JENKINS, R.T.

Ffrainc a'i phobl.

BOROUGH OF LLANELLY PUBLIC LIBRARY
Tel. : 3538.
LENDING LIBRARY
THIS BOOK IS DUE FOR RETURN ON OR BEFORE
THE LAST DATE STAMPED BELOW.

WITHDRAWN

CHANGE OF ADDRESS MUST BE REPORTED
IMMEDIATELY.

WITHDRAWN

FFRAINC A'I PHOBL

WITHDRAWN
LLANELLY PUBLIC LIBRARY.
THIS BOOK MUST NOT BE TORN, WRITTEN UPON, OR MARKED IN ANY WAY, AND READERS WILL BE HELD RESPONSIBLE FOR ANY DAMAGE DONE BY THEM.

Digitized by the Internet Archive
in 2026

https://archive.org/details/ffraincaiphobl0000rtje

LLANELLY PUBLIC LIBRARY.

THIS BOOK MUST NOT BE TORN, WRITTEN UPON, OR MARKED IN ANY WAY; AND READERS WILL BE HELD RESPONSIBLE FOR ANY DAMAGE DONE BY THEM.

"YN FFRAINC"
---- Ymylon y Mynydd-dir (dros 1500tr)
Nodir y "Tri Bryn" â +
AMIENS
Seine
PARIS
Chartres
ORLEANS
Loire
Sens
Auxerre
Yonne
Seine
DIJON
Avallon
Citeaux
Nevers
Saône
Autun
Chalon
Cluni
Moulins
Mâcon
Geneva
LYON
Rhône
CLERMONT
Limoges
Chalus
Allier
Loire
Périgueux
Brive
Vienne
Beaulieu
Dordogne
Rocamadour
Valence
Garonne
Cahors
Lot
Le Puy
Drôme
Durance
Orange
Moissac
Agen
Montauban
Albi
NIMES
AVIGNON
Tarn
Auch
Adour
Montpellier
Arles
TOULOUSE
Béziers
Tarbes
Carcassonne
Narbonne
Lourdes
St Bertrand

FFRAINC A'I PHOBL

GAN

R. T. JENKINS

Oct. 1930

LLANELLY PUBLIC LIBRARY.

THIS BOOK MUST NOT BE TORN, WRITTEN UPON, OR MARKED IN ANY WAY, AND READERS WILL BE HELD RESPONSIBLE FOR ANY DAMAGE DONE BY THEM.

WRECSAM
HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR
1930

ECL 996.1/60

MADE AND PRINTED IN GREAT BRITAIN

LLANELLY PUBLIC LIBRARY.
THIS BOOK MUST NOT BE TAKEN
WRITTEN UPON OR MARKED IN ANY
WAY, AND BORROWER WILL BE HELD
RESPONSIBLE FOR ANY DAMAGE DONE
BY THEM.

I'm Priod
yn arwydd bychan o ddiolch iddi am
ei chwmni a'i hamynedd.

RHAGYMADRODD

YMDDANGOSODD un o'r penodau a ganlyn yn yr *Efrydydd*, ac amryw ohonynt yn y *Llenor*. Ysgrifennwyd un yn unswydd i'r gyfrol hon, a helaethwyd un arall gymaint fel nad oes ond rhan fechan iawn ohoni heb fod yn newydd. Ceisiais gywiro'r orgraff yn yr hen ysgrifau, a chywiro hefyd ambell wall mewn ffeithiau; ond ni wneuthum unrhyw ymgais i droi'r bennod olaf i'r amser gorffennol lle bo un neu ddau o'r awduron a enwir ynddi wedi marw er pan gyhoeddwyd hi'n ysgrif yn *Llenor* 1922.

Wrth adolygu rhyw stori antur, dywedodd Miss Kate Roberts (fel yr oedd hi y pryd hwnnw) nad oedd y llyfr hwnnw ond "*geography* mewn *jam*." Y mae arnaf ofn y bydd fy nghymdoges ffraeth yn dywedyd am y llyfr hwn nad oes hyd yn oed "jam" ynddo! Nid oes gennyf ond dau esgus dros ei gyhoeddi. Yn gyntaf, pwyswyd yn gryf arnaf i wneuthur hynny. Yn ail, fy mod yn gwir gredu nad oes dyfodol i'r iaith Gymraeg oni fodlona ei phlant i ysgrifennu ynddi nid yn unig farddoniaeth a beirniadaeth, ond hefyd lyfrau'n cynnwys esgyrn sychion gwybodaeth.

R. T. JENKINS.

Rhiwbina, Caerdydd,
Gorffennaf, 1929.

LLANELLY PUBLIC LIBRARY.
THIS BOOK MUST NOT BE TORN,
WRITTEN IN OR MARKED IN ANY
WAY, AND ANY DAMAGE DONE
IT

CYNNWYS

		TUD.
I.	Yn Ffrainc	9
	1. Llwybrau'r Seintiau	9
	2. Dinasoedd Meirwon	16
	3. Y Tri Bryn	40
	4. Ar Lan Afonydd Babilon . . .	61
	5. Godre'r Pyreneau	70
II.	Ffrainc a'i Phobl	91
III.	Yr Adwaith yn Llenyddiaeth Ffrainc yn yr Oes Bresennol	126

Llwybrau'r Seintiau.[1]

I

NID yr un rheswm sy'n cymell pawb ohonom i deithio. Hoff gan rai edrych ar olygfeydd prydferth: digon hoff gennyf innau, o ran hynny, ond nid awn i unman yn unswydd i'w gweled. Byddai'n rhaid i chwi dalu symiau mawrion i mi am fyned i Norway; ac am yr Yswisdir, y cwbl a ddywedaf ydyw bod y wlad honno'n ychwanegu peth diddordeb at y siwrnai oddi yma i'r Eidal. Hoff gan eraill ddarluniau a cherfluniau; gwn am un a aeth yr holl ffordd i Betrograd i weled oriel. Ni welaf i ddim bai arno, ond ni buaswn yn dilyn ei esiampl. Fy newisbeth i yw edrych ar fannau y bu dynion enwog fyw ynddynt, a broydd y digwyddodd ynddynt bethau mawr. Nid oes raid i'r fro fod yn hardd—gorau oll os bydd yn hardd. Nid yr adeilad chwaith y ganed y gŵr mawr ynddo, ond y *cefndir*; nid Coedypry na Thyddewi (er bod Tyddewi ynddo'i hun yn werth myned i'w weled), ond "daear wleb" Llanuwchllyn a rhosydd trist Pebidiog. Byddaf yn credu—efallai mai ffansi yw hyn—bod gweled y cefndir yn gymorth mawr i ail-greu'r gŵr neu'r mudiad.

Yn ei wlad ei hun, wrth gwrs, y mae dyn yn ei theimlo'n hawsaf iddo dreiddio fel hyn i mewn i'r gorffennol; yno y mae'r oesoedd o'r blaen yn agosach ac yn anwylach. Pwy ohonom nad yw wedi darllen ac ail-ddarllen Owen Edwards ar Gartrefi Cymru, a'i ddilyn ar ei "Droion" trwy Ogledd a De, nes inni, am ychydig funudau o leiaf, bron allu meddwl a theimlo fel y meddyliai ac y teimlai Pantycelyn neu Ann Griffiths? Ond i'r Cyfandir, fel rheol, y mae'n

[1] O'r *Efrydydd*, Chwefror, 1926.

LLANELLY PUBLIC LIBRARY.
THIS BOOK MUST NOT BE TORN,
WRITTEN
WAY,
WILL BE HELD
RESPONSIBLE FOR ANY DAMAGE DONE

rhaid inni fyned os ydym am atgyfodi dylanwadau mwyaf amlwg Hanes—mawredd Rhufain a galanastra ei chwymp, ysblander y Dadeni, Protestaniaeth yr Almaen, a chyffro'r Chwyldro Mawr. Ac yno yr aethum innau, i Fwrgwndi, i geisio adnabod yn ei fro ei hun y Diwygiad Mynachaidd a lifodd dros Ewrop gyfan yn y ddeuddegfed ganrif, nes dyfrhau hyd yn oed anialdiroedd Cymru bell. Wrth gwrs, y mae dyn yng ngwlad Bwrgwndi yn gorfod meddwl am lawer peth heblaw mynaich. Caraswn i'r darllenydd ddringo gyda mi i ben Bryn Alesia, lle'r ymladdodd Vercingetorix, " llyw olaf " y Galiaid, ei frwydr olaf dros annibyniaeth ei bobl. Diddorol fuasai inni gyd-rodio yn ninas hardd Dijon a threulio oriau yn ei horielau cyfoethog ; neu ryfeddu at hen ddinasoedd caerog fel Semur, ar ben clogwyn mewn dolen afon ; neu ystyried pyrth a cholofnau a ffenestri lliwiedig llawer hen eglwys ardderchog.[2] Ond heddiw, dilynwn am ychydig ôl traed y seintiau.

I Gymro, nid oes well man i gychwyn ohono na hen ddinas Auxerre, â'i thyrau a'i phinaclau'n coroni'r bryn ar lan afon dawel Yonne. Dyma fangre Garmon Sant, a adawodd ei ôl mor ddwfn ar Bowys bell. Rywfodd, cefais drafferth i ymddiosg o'r syniad mai rhyw Lanarmon fynyddig yng Nghymru oedd gwir gartref y sant, ac y buasai ef, fel finnau, yn teimlo'n ddieithr ar heolydd serth caregog Auxerre. Ond yno, wedi'r cwbl, yr oedd cartref Garmon, ac yno, yn ei hen fynachlog ei hun, y gorwedd. Ysbyty yw'r fynachlog heddiw, ac o'i heglwys fawr y mae'r rhan helaethaf wedi cwympo, ond y mae'r clochdy a'r gangell yn sefyll—bob un o'r ddau, wrth gwrs, yn llawer diweddarach nag oes Garmon. Ond o dan y gangell y mae celloedd hŷn o lawer ; rhydd y ceidwad

[2] Gweler td. 40 *Y Tri Bryn.*

i chwi bwt o gannwyll, a blwch o fatsus, a chewch ymgropian i lawr grisiau toredig, gan ymgrymu'n ofalus rhag taro eich pen, rhwng beddau abadau di-rif, nes cyrraedd y gell gul ac arni'r geiriau " Corff Garmon Sant." Wedi esgyn drachefn i oleuni'r haul, arhoswch ennyd i syllu ar y dyffryn hyfryd oddi tanoch—dyna'r darlun, wedi'r cwbl, a ymrithiai o flaen meddwl y cenhadwr selog, yng ngwynt a glaw ac oerni ac anghysur yr ynys bell farbaraidd.

Daeth Prydeinwyr hefyd i Fwrgwndi. Ym mhentref Pontigny y mae eglwys fawr a fu'n rhan o un o fynachlogydd cyntaf y Cisterciaid—y Mynaich Gwyn. Yno cafodd tri o Archesgobion Caer Gaint noddfa rhag eu gelynion, sef Thomas Becket, Stephen Langton, ac Edmund Rich. Nid hir y bu Becket yno, ac yn is i lawr, yn hen ddinas Sens, y treuliodd y rhan fwyaf o'i alltudiaeth. Dinas dawel, dinas farw bron, ydyw Sens heddiw, a'i heglwys gadeiriol gawraidd (yr hynaf, meddir, o eglwysi " Gothig " Ffrainc) yn ymgodi uwch ei phen, megis yr ymgyfyd eglwys Ely uwch law'r gwastatir glas o'i chwmpas. Yn nhrysordy'r eglwys dangosir i chwi wisgoedd offeiriadol y sant byrbwyll (nid yw'r seintiau, mwy na'r saint, bob amser yn hynod am eu hamynedd) ; a gellwch fyned i weled lleiandy, rhyw filltir allan o'r dref, a fu'n drigfa i'r Archesgob am ddwy flynedd. Ond fel mater o ffaith, y mae'r lleiandy'n newydd, a heblaw hynny, y mae am y ffordd â ffatri fawr, ac nid yw'r dychymyg yn cael chwarae teg yno. Gwell yw aros hyd yr hwyrddydd, ac yna adael i ddylanwadau'r olygfa ddisgyn ar yr ysbryd fel gwlith : y ddinas fechan gryno, ddistaw fel y bedd ; afon lydan lonydd Yonne ; yr ynys ynghanol yr afon, a'r helyg arni, ac eglwys fechan hen, hen ; y dyffryn eang a'r bryniau isel o'i ddeutu ; a'r lloer yn gwenu ar y cwbl. Yno, o bobman, y gallasai'r gŵr erlidiedig aflonydd ddisgwyl y peidiai'r annuwiol

â'u cyffro, ac y byddai gorffwys i'r lluddedig. Ond, fel y gwyddom, fel arall y bu.

Pontigny eto am ennyd. Ynghanol y pentref hir y mae'r eglwys. Ni wn a yw'r pentrefwyr yn hynod yn Ffrainc am fwyta bara, ond yn sicr ni welais erioed gymaint o grasu ; yr oedd bron bob yn ail dŷ'n bopty, ac aroglau tân coed yn ein ffroenau am oriau wedyn. Adeilad cadarn, sobr, plaen—Piwritanaidd yn wir—yw'r eglwys, ymgorfforiad o brotest y Mynaich Gwyn yn erbyn rhwysg yr hen urddau. Heblaw Becket, bu Stephen Langton yno, yn aros i'r brenin Ioan ddyfod ato'i hun ; yno hefyd y ffodd Edmund Rich, mewn anobaith am Loegr dan gamreolaeth Harri'r Trydydd, ac yno y dygwyd ei gorff i'w gladdu. Yn anffodus, y mae'r awdurdodau wedi gweled yn dda grogi dwy hysbyslen fawr yng nghyntedd yr eglwys, ac arnynt eiriau o eiddo'r ddau sant yn canmol Pontigny fel noddfa. Y mae'n amhosibl, wrth eu darllen, beidio â meddwl am y *testimonials* diolchgar a ysgrifennir gan y sawl a waredwyd gan eli hwn-a-hwn neu blastr rhywun arall. A thu ôl i'r brif allor y mae beddrod gorwych Edmund Rich, yn disgleirio o aur a lliwiau, a rhesi o ganhwyllau golau o'i flaen. Anodd peidio â gofyn beth a feddyliasai'r sant ei hun ohono—y bachgen tlawd, gwylaidd, o Abingdon, a ddiystyrodd gyfoeth a gallu'r byd hwn, ac a groeshoeliodd ei gorff o gariad at Grist. Eto, byddwn dyner. Arwyddion o barch a chariad yw'r pethau hyn, wedi'r cwbl, ac efallai nad ein lle ni yw holi "i ba beth y bu'r golled hon ? "

Ymhell draw, ar gyrrau eithaf Bwrgwndi, yn y dyffryn tebycaf a welais i ddyffryn Edeyrnion, y mae Cluni. Ychydig sy'n aros o'r fynachlog fawreddog a fu'n fam i ddiwygiadau crefyddol a mynachaidd yr Oesoedd Canol. Darllenasom am anghenfilod y cynfyd, y mae eu hesgyrn anferth ar chwâl yn Neheudir

America, yn tystio mor fawr oeddynt yn eu bywyd. Felly am Abaty Cluni ; y mae rhan helaeth o'r dref fechan wedi ei hadeiladu â'i meini hi. Y mae un o'i neuaddau yn amgueddfa, un arall yn neuadd drefol ; rhan o'i hadeiladau yn ysgol ddiwydiannol ; tyrau a phyrth, darnau o fur, yn ymgodi ynghanol y tai diweddarach. Ac o'i heglwys anferth—y fwyaf yn y gorllewin yn yr oes honno—nid oes ond dau glochdy uchel wedi eu gadael. Eto, y mae'n eithaf hawdd atgyfodi'r lle o flaen llygaid y dychymyg.

Dyna beth na ellir mewn un modd ei ddywedyd am Cîteaux, mam urdd y Mynaich Gwyn, a roddodd i'r byd y dyn mawr a hynod hwnnw, Bernard Sant. Yr wyf wedi chwerthin llawer wrth gofio ein hymweliad â Cîteaux. Rhybuddiasid ni nad oedd yno ddim o'r hen fynachlog i'w weled, a'n hunig amcan, wrth deithio'r pymtheg milltir o Dijon, oedd gweled y fangre ei hun. Ond yr oedd ein gyriedydd yn ŵr selog—canodd gloch, daeth hen fynach moel mewn sachliain allan, a chyn imi wybod, yr oedd drws wedi cau o'm hôl, a minnau'n un o fintai o bererinion yn cael f'arwain gan yr is-brior i bob cwr o'r lle. Yr oedd pawb ohonom wedi gadael gwraig neu chwaer neu ferch oddi allan, yn y byd drwg hwn, a buont yn disgwyl wrthym am awr gyfan! Teg yw ychwanegu ddarfod i'r hen fynach gysuro pob un ohonynt â thusw o flodau o'r ardd. Gorchwyl blin dros ben oedd yr orymdaith—y mae gennyf ddigon o gydwybod i gofio ei fod yn orchwyl mwy blin i'r is-brior cwrtais nag i neb arall. Nid oes fymryn o fynachlog Bernard yn sefyll ; y peth hynaf yw murddyn o'r bymthegfed ganrif, lle'r oedd wynwyn yn sychu. Y mae corff yr adeiladau'n newydd, yn perthyn i'r 18fed ganrif fan bellaf. Hefyd, y mae'r *cynllun* yn newydd—yn lle'r llan arferol ac ysgwâr o adeiladau o'i gwmpas, y mae mynachlog Cîteaux yn llofftydd mewn un adeilad, fel

tloty. Ymhellach, yr oedd Belgiad siaradus a chwilfrydig yn ein mysg, ac yr oedd yn rhaid esbonio bron bob pytaten yn yr ardd iddo, a dadlau yn ei chylch. Ac eto, yr oedd Cîteaux yno, oddi tan ac o gwmpas y newydd-bethau hyn, ac y mae'n dda gennyf fod wedi gweled y gwastadedd prudd ynghanol y coed, a'r corsdir brwynog a fu unwaith yn llynnoedd, fel y dengys enw'r lle.

Taith ferach o lawer yw ymweled â Fontaine, lle y ganed Bernard. Aiff tram hwylus â chwi tu hwnt i dai Dijon, ac ychydig wedyn wele ddau fryn gweddol uchel, un o bob tu i'r ffordd. Ar y llaw dde y mae Fontaine, bryncyn serth, coediog, ac yng nglesni'r coed doeau cochion pentref bychan a chlochdy coch yr eglwys. Y mae llwybr o'r ffordd fawr, trwy'r gwinwydd, at droed y bryn, ac ar ben y bryn y mae nod ein siwrnai. Wrth gwrs, y mae popeth wedi ei "bererineiddio"—un o dyrau'r tŷ y ganed y sant ynddo wedi ei "adgyweirio" yn newydd sbon; eglwys harddwych wrth ei ochr, a siop yn gwerthu medalau a darluniau. Ond y mae hen eglwys y plwyf yn ddigon diaddurn, ac y mae'n bur sicr fod Bernard ei hun wedi addoli ynddi; ac yn sicrach fyth ei fod wedi syllu ganwaith ar yr olygfa hardd o ben y bryn—dinas Dijon, a'r gwastadedd bras, a'r bryniau hir yn rhedeg tua'r de, y Bryniau Aur, fel y gelwir hwy, oblegid cyfoeth y gwinwydd arnynt. Bachgen nwyfus oedd yntau unwaith, cyn iddo ymgolli gymaint mewn meddyliau am y nefoedd nes cau ei lygaid ar hyfrydwch daear Duw, a gallu rhodio am ddiwrnod cyfan ar lan llyn Geneva heb gymaint a'i weled.

Daw Bernard i'r meddwl yn Vézelay hefyd, lle y mae un o fynachlogydd enwocaf y byd, yn edrych fel eryr o'i nyth uchel ar filltiroedd lawer o wlad brydferth. Bu Bernard yno'n pregethu'r Ail Grwsâd. Ond nid hynny'n unig: â chofio bod Cluni, fel y

dywedais, yn adfeiliedig, syllu ar eglwys anferth Vézelay yw'r ffordd rwyddaf i ddeall paham yr oedd y Mynaich Gwyn mor llym yn eu hadeiladau a'u harferion. Ysblander yw cyweirnod Vézelay : y mae cyntedd yr eglwys ynddo'i hun yn fwy na llawer eglwys fawr, ac y mae corff yr eglwys yn goedwig o golofnau. Y mae'r pyrth a'r colofnau yn fyw o gerfiadau cywrain. Gwelir yno hanesion y Beibl, bucheddau'r seintiau, alegorïau o bob math, ac yn ddigon aml ddireidi noeth—cythreuliaid ac anghenfilod o bob math yn crechwen ac yn ystumio. Yr oedd y mynaich yn gyfoethog, yn byw'n ŵras, yn arglwyddi ar diroedd helaeth, ac yn orthrymwyr ar y dref fechan y tu allan i'w pyrth. Da, wrth gwrs, yw cofio hefyd iddynt fod yn garedigion i addysg a chelfyddyd. Ond taranodd Bernard yn erbyn " gwagedd " o'r fath, a llwyddodd yn rhyfedd. Eto, prin y dodesid ef yn ei fedd cyn i'r urdd Biwritanaidd a sefydlodd ddechrau dirywio yn ei thro, a thystia mwy nag un sylwedydd, fel Gerallt Gymro a Gwallter Map, fod y Mynaich Gwyn wedi cwympo'n gyflymach ac yn îs o lawer na'r hen Fynaich Du y protestient yn eu herbyn. Ac yn hynod iawn, yn Vézelay eto y mae pen draw yr hanes hir yn y golwg, oblegid mewn hen dŷ, ar ochr chwith y stryd gul sy'n arwain i fyny at y fynachlog, y ganed Theodor Beza.

Dinasoedd Meirwon.[1]

Si come ad Arli, ove il Rodano stagna . . .
Fanno i sepolcri tutto il loco varo.
DANTE : Inferno ix.

ERS blynyddoedd bellach yr oeddwn wedi anobeithio gweled Dyffryn Rhôn a'r wlad hud a lledrith sy'n ymestyn o'i genau at ororau Ysbaen. Ond eleni wele gychwyn yn fore o Baris, am rai oriau trwy wlad gynefin : coed Fontainebleau, afon Yonne, pinaclau Sens. Saif y trên yn Laroche, lle y disgynnir os am fyned i Auxerre ac Avallon ac Autun, i fynyddoedd gwyllt Morvan a dolydd tawel Blaenau Loire. Ond ymlaen â ni ; ymhen amser dacw gofgolofn Vercingetorix yn gwgu o ben Bryn Alesia, ac ychydig wedyn y twnel hir sy'n turio o dan y gwahanfur rhwng dyfroedd y Sianel a dyfroedd Môr y Canoldir—yr ydym ar un o briffyrdd y byd. Ymegyr y dyffryn bras oddi tanom, a safwn unwaith eto yn stesion brysur Dijon. Heb fwy na chipio golwg ar dalcen yr Eglwys Gadeiriol a thremio'n ôl ar dŵr uchel Plas y Dugiaid, dyma ni'n brysio trwy wlad y gwin. Dacw Beaune ar y dde, dinas fechan dwt a'i muriau yn ca amdani. Yn Chalon, dyma Afon Saône, afon lydan yn ymlusgo'n ddioglyd yr holl ffordd i Lyon. Mâcon : tuhwnt i'r bryniau isel ar y dde y mae Cluni ; dros y gwastadedd, ar y chwith, y mae Eglwys Brou, y canodd Matthew Arnold amdani. Culha'r dyffryn, ymgyfyd y creigiau o bobtu, amlha tai a ffatrïoedd, ymgollwn mewn twnel hir. Yna, oddi ar bont ar Saône, ymled dinas fawr hardd o dan ein llygaid ; yr ydym yn Lyon.

Gŵyr pawb fod Lyon yn un o drefi enwocaf Hanes. Bu erioed yn groesffordd nodedig o bwysig—yma'r ymuna Saône â Rhôn. Llithra Saône yn araf, wrth droed clogwyn uchel ; rhyngddi â Rhôn y mae math o

[1] O'r *Llenor*, v, 4.

dafod o dir, nes cyrraedd yr aber; yna ymgolla'r afon dywyll lonydd yn nyfroedd gwyllt Rhôn, sy'n las-wyn gan rew ac eira'r Alpau. Ar ben y clogwyn yr oedd yr hen "ddinas" Geltaidd, *Lug-dunum*[2] ac yno hefyd yr ymsefydlodd y Rhufeiniaid. Bu'n Brif-ddinas Gâl; bu Augustus ei hun yno am rai blynydd-oedd, ac yno y ganed mwy nag un Ymherodr. Dewis-odd gwŷr yr Oesoedd Canol ddisgyn o ben y bryn a nythu ar y silff gul rhyngddo â'r afon—yno y mae'r Eglwys Gadeiriol. A'r boblogaeth yn cynyddu, croesodd y trigolion i'r tafod y soniais amdano, ac yno hyd heddiw y mae canolfan masnach a gwleidyddiaeth y ddinas. Ond yn y ganrif ddiwethaf y mae Lyon wedi ymwthio i'r dwyrain, dros Afon Rhôn eto, ac yn ymledu'n gyflym yn y gwastadedd.

Y mae'n ddinas fawr, fyw, hardd, yn wir deilwng o falchter ei thrigolion. Ond, er treulio deuddydd digon pleserus ynddi, nid oedd ein calonnau rywsut yn llosgi ynom. *Gwyddem* o'r gorau am yr Ymerodron a fu ar y bryn, ac am Irenaeus, un o Dadau Eglwys y Gorllewin, a ferthyrwyd yno. *Cofiem* am Babau a Chynghorau a fu'n creu hanes yn Lyon. Yn wir, yr oedd yno ddigon o hen bethau i'w gweled hefyd. Buasai'n anodd dyfod o hyd i eglwys fwy hybarch na St. Martin d'Ainay. Buasai Eglwys Gadeiriol Ioan Fedyddiwr—eglwys "Archesgob Lyon a Vienne, a Phennaeth holl Eglwysi Gâl"—yn drysor amhris-iadwy i ddinas lai; ac y mae Tŷ'r Cantorion yn ei hymyl yn un o atgofion hynotaf y daith. Ond . . . ond . . .

Beth oedd yn bod? Trown i Gymru am yr ateb. Syniad pobl y Gogledd am Gaerdydd ydyw tref newydd sbon, math o gicaion wedi tyfu dros nos.

[2] Yn Gymraeg, *Lleuddin*, neu yn y dull y ceir yr enw yng Nghymru, *Dinlleu*. Erys yr enw yn Dinas Dinlleu yn Arfon.—W.J.G.

Y ffaith hanesyddol oer ydyw mai Caerdydd efallai yw'r dref hynaf yng Nghymru : yn hŷn na Chaernarfon na Dinbych, yn hŷn yn ôl pob tebyg na Chaerfyrddin nag Aberhonddu. Y mae ganddi holl ddodrefn dinas hanesyddol : gwersyll Rhufeinig, castell, cartrefi Brodyr Llwydion a Brodyr Duon, etc. Ond eto, teimlad y werin sy'n iawn ; tref newydd ydyw Caerdydd, ac y mae'n rhaid wrth fath o *ddaeareg* hanesyddol (os caf ddefnyddio'r ffugr) cyn y gall y dychymyg weled oddi tani hen dref y gorffennol. Nid yw *bod* yn hen yn ddigon (o ran hynny, y mae pobman cyn hyned â'i gilydd, onid ydyw ?) ; y mae'n rhaid i dref *deimlo*'n hen cyn y gellir ei charu am ei henaint. Dyna sydd ar Lyon. Ar ben y bryn y mae eglwys newydd anferth Wembleyaidd, ac wrth ei hochr fath o Dŵr Eiffel ; rhwng y ddau, diflanna pob atgof am Augustus ac Irenaeus. Yn y dref ei hun y mae popeth yn hardd ac yn hoyw—yn rhy hoyw o lawer i adael lle i fyfyrdod. Y mae'n werth ychwanegu i mi, er treulio dwyawr i gerdded siopau, fethu'n glir gael darluniau o'r hen eglwysi. Nid oedd ond parciau a phontydd ac ysbytai—ac wrth gwrs yr eglwys echryslon ar ben y bryn—yn werth i ffotograffwyr Lyon arfer eu doniau arnynt.

Rhwng Lyon ac Avignon nid oedd amser i aros ond yn Vienne. Tref Rufeinig eto, a chanddi amryw olion o'r oes Rufeinig, yn enwedig deml fechan hardd Augustus a Livia. Tref dlos yw Vienne, ar lan Rhôn ac ar lethrau bryniau uchel rhamantus. Yma, meddir, y treuliodd Pilat hwyrddydd ei fywyd, ac oddi ar un o'r mynyddoedd draw, medd traddodiad, yr ymdaflodd i ddinistr. Beth bynnag am hynny, bu Vienne yn brifddinas hen deyrnas Bwrgwndi (cyn geni Ffrainc), ac y mae ynddi amryw o hen eglwysi diddorol, Romanaidd a Gothig. Yn ei hystrydoedd

culion troellog y mae'n hawdd atgyfodi'r Oesoedd Canol sydd wedi diflannu o rodfeydd deiliog Lyon.

Rhaid pasio Valence—hen gartref un teulu o Ieirll Penfro—a phrysuro ymlaen i Avignon. Dyma, yn wir, dref hanesyddol. Nid tref farw, oblegid y mae yno ddigon o brysurdeb—peidied y darllenydd â dilyn ein hesiampl gan ddewis gwesty yn y brif heol, onid e ni chaiff fawr o gwsg. Ond er galw yr heol honno'n " Rue de la République " a'r prif ysgwâr yn " Place Georges Clemenceau," y mae Avignon rywsut wedi llwyddo i gadw'n rhyfedd awyrgylch y bedwaredd ganrif ar ddeg, pan oedd y Pabau'n trigo ynddi. Gŵyr pawb mai ei phrif adeilad yw Plas y Pabau—nid " plas " mohono, ond amddiffynfa gawraidd. Ond y mae rhagor na hynny yn Avignon. Y tu ôl i'r Plas a'r Eglwys Gadeiriol ymgyfyd craig uchel, a phrin y gellir dychmygu am odidocach golygfa nag a geir oddi arni. I'r gorllewin, dyma'r afon, erbyn hyn mor llydan nes ymrannu'n ddwy, ac ynys helaeth rhyngddynt. Tuhwnt i'r afon, Villeneuve, " Y Dre Newydd,"—dylid efallai egluro ei bod yn " newydd " ers tua 1300—a'r tŵr uchel a gododd Phylip Hardd i wylio symudiadau'r Pab. Ychydig yn uwch na Villeneuve, dacw bentref St. André ar ben bryn, a'r muriau cedyrn a daflodd Bertrand du Guesclin o'i amgylch yn ystod y Rhyfel Canmlwydd. Wrth ein traed, ymhell oddi tanom, gwelwn bont yn cychwyn croesi'r afon, ond yn torri i lawr ar ei chanol. Pedwar bwa, a dau gapel bychan i'r fforddolion droi i mewn i dalu diolch : dyna'r cwbl sy'n weddill o " Bont " fydenwog Avignon, sydd mor adnabyddus i fabanod Ffrainc ag ydyw " Caer " i Gymro bychan o'r Gogledd, neu " Groes Bambri " i blentyn o Sais. Ond arni hi " y dawnsia'r byd yn grwn " ? Ni chei ddawnsio arni heddiw, ac os mynni groesi i Villeneuve, bydd raid iti ddefnyddio pont grog glonciog, a glanio'r ochr draw

mewn cymylau o lwch gwyn. Ac efallai y dylwn yma rybuddio'r sawl sydd eto heb ymweled â'r wlad honno nad Paradwys mohoni: y mae'r gwres yn arswydus, y llwch yn dallu dyn ymhobman, a gwybed ac ehediaid eraill yn ein cynorthwyo i ddeall yr ymadrodd ysgrythurol sy'n sôn am geiliog y rhedyn fel "baich." Eto, credaf mai yn yr haf, er gwaethaf hyn oll, y dylid myned yno. Dylid gweled y wlad fel y gwêl ei thrigolion hi, ac nid ar ambell foment anghyffredin. A sylwasoch chwi fod darluniau Owen Edwards o Gymru bron bob amser yn sôn am *law*?

Trown ein cefnau ar yr afon a'n hwynebau at Avignon ei hun, a'i murfau cribog o'i hamgylch. Efallai mai ffansi a bair i mi deimlo mai tref Eidalaidd yw Avignon, megis y byddaf yn teimlo yn Beaune a Dijon fy mod yn Fflandrys. Y mae'r cefndir yn Eidalaidd; y mynyddoedd uchel pell yn y dwyrain, y cypreswydd duon a'r morwydd, yr haul tanbaid ar y buarth o flaen Plas y Pab, y toeau o briddfeini melyngoch, a'r clochdai niferus. Onid Rabelais a'i galwodd yn Ddinas y Clychau (*la ville sonnante*)? Y mae "gweled" Avignon yn waith dyddiau lawer. Yn anffodus, ni ellir ymweled â'r Plas ond mewn minteioedd dan law "arweinydd" bondigrybwyll. Y mae'r sefydliad a elwir *la visite* yn un o felltithion Ffrainc, ond nid oes modd ei osgoi—onid wyt yn ddyn pwysicach na'r cyffredin. Credaf, pe bai gan ddyn ewyllys gryfach, a digon o ffydd yn ei ddychymyg, mai gwell fyddai peidio ag "ymweled" o'r fath—nid heb reswm y cyffelyba Mr. Belloc ef yn rhywle i fwrw pupur i mewn i'ch gwin. Ond byddaf i'n myned bob tro, ac yn tyngu bob tro nad af byth ond hynny! Eto, pe bai dyn heb "fyned trwy" 'r Plas, y mae digon i'w weled yn Avignon. Y mae'r eglwysi'n ddiddorol iawn. Un peth sy'n taro dyn ydyw mai Gothig ydynt bron bob un ond yr Eglwys Gadeiriol

(yr adeilad hynaf yn y ddinas). Paham hyn, yng ngwlad yr arddull Romanaidd, lle mae cymaint o gampweithiau'r arddull honno? Yr ateb ydyw mai tref yw Avignon a gafodd gyfnod o ddatblygiad cyflym, unwaith am byth—sef y bedwaredd ganrif ar ddeg—a bod y dull Gothig erbyn hynny wedi ennill y dydd. Fel rheol, nid adeiladid yn y dull Romanaidd ar ôl y ddeuddegfed ganrif. Ond y mae'n rhaid gadael y ddinas brydferth hon gyda dywedyd bod bywyd yn ddifyr ynddi, a bod ganddi siopau llyfrau da.

O hyn allan gwell fydd peidio ag adrodd ein taith o ddydd i ddydd, ond yn hytrach ddosbarthu ychydig ar y mater. Gŵyr y darllenydd yn ddiamau mai un o hynodion gwaelod Dyffryn Rhôn ydyw'r cyfoeth o weddillion Rhufeinig sydd yno. Yma, ymhell cyn i Iŵl Cesar oresgyn gogledd a gorllewin Gâl, yr oedd Rhufain eisoes wedi gweddnewid y wlad. Dyma "*Y Dalaith*" (*Provincia*—Provence), ac yr oedd yn llawn o ddinasoedd heirdd a phrysur—Arles, Orange, Vaison, Nîmes ac eraill. Gwreiddiodd diwylliant Rhufain yn ddwfn yma, ac y mae'n debyg mai dyma'r wlad fwyaf *Lladinaidd* mewn bod, y tu allan i'r Eidal ei hun. Fel yr awgrymwyd eisoes, y mae rhywbeth Eidalaidd yng ngolwg allanol y fro—yn enwedig yn y de, pan ddown ar draws y creigiau llwydwyn ysgythrog a'r rhesi o olewydd arnynt, yn union fel y gwelir hwy yng nghefndir darluniau'r arlunwyr Eidalaidd. Nid yw'r trigolion hwythau'n hollol yr un fath â Ffrancwyr y Gogledd; y maent yn fywiocach ac yn uwch eu cloch. Y mae'r bwyd a roddir o'ch blaen yn wahanol i'r hyn a gewch mewn rhannau eraill o Ffrainc (a dywedyd y gwir, nid yw cystal), ond yn bur debyg i fwyd yr Eidal. Nid Ffrangeg ychwaith oedd iaith y fro yn yr Oesoedd Canol: dyma wlad y Trwbadwriaid, a ganai yn yr iaith

Brofensal. Hyd heddiw y mae'r iaith honno'n fyw ar lafar gwlad, ac ymdrechir ers hanner canrif bellach i'w hadfywio fel iaith lên.

Ond i ddychwelyd at adeiladau a phethau o'r fath; y mae'n amheus a allai ysgolhaig Lladin ffurfio syniad o fywyd Rhufain yn hwylusach yn unlle nag ym Mhrofens. Y mae Rhufain ei hun wedi gweled cymaint o droeon fel nad oes yno (ar wahân, wrth gwrs, i'r ysbrydoliaeth ddigyffelyb a geir ynddi) ond adfeilion siomedig braidd o'r hen fyd paganaidd. Y mae Pompeii yn bell iawn, a'r lle gorau oll, sef Gogledd Affrica, yn bellach fyth. Ond yn nyffryn Rhôn, yn hawdd i'w cyrraedd ac yn hawdd i'w gweled, y mae digonedd o demlau, o bontydd, o chwaraedai, o amchwaraefeydd, o faddonau cyhoeddus, o gofgolofnau, o fwâu buddugoliaeth, o byrth dinesig. I'r sawl a gâr edrych ar arysgrifau, ar lestri pridd neu wydr, ar hen arian bath, ar fân gerfluniau, ac felly ymlaen, y mae'n sicr bod y nefoedd yn dechrau yn rhywle yn ymyl Lyon, ac yn ymestyn oddi yno hyd Nîmes, gydag Arles, efallai, yn gysegr santeiddiolaf, Ni ddisgwylir i mi fanylu ar bethau o'r fath. Ond bydd hir gof gennym am chwaraedy Orange—ei fur melyn clogwynog, yr hanner cylch o eisteddleoedd yn ymgodi'n rhes ar ôl rhes, y ffigysbren dan ei lawn ffrwyth yn tyfu allan o agen ym marmor y llwyfan, a'r pren pomgranadau yn ei ymyl. Ac, er gweled ei darlun filwaith, nid yw'r syndod fymryn llai pan ddêl dyn i olwg y Pont du Gard, y bont ardderchog a fu unwaith yn cario dwfr dros ddyffryn y Gardon, ar ei ffordd i Nîmes bell; y bwâu cedyrn yn ymgodi'n dair rhes, a'r blociau anferth o gerrig nadd yn gorwedd ar ei gilydd, wrth eu pwysau'n unig, ar ôl dwy fil o flynyddoedd,

Eto, nid yr olion yma o'r hen fyd a barodd i mi ddewis y teitl sydd ar flaen fy llith. Yn ddigon

rhyfedd, anaml iawn y gellid galw un o hen drefi Rhufeinig Rhôn yn "ddinas farw." Arles a Vaison ydyw'r ddau eithriad amlwg. Ond y mae Carpentras ac Orange a Vienne yn llawn bywyd : felly hefyd am St. Rémy, tref o farchnadwyr blodau—nid oes yn wir nemor a wnelo hi ag adfeilion prin *Glanum*, sydd filltir neu fwy oddi wrthi. A byddai'n gamgymeriad o'r mwyaf dybryd i chwi synio am Nîmes fel hen dref dawel yn ymgolli mewn breuddwydion am y gorffennol. Dyma ddinas o gan mil o bobl, yn llawn prysurdeb : heolydd newyddion llydain cysgodol, gerddi heirdd (gyda'r harddaf yn Ffrainc), banciau mawrion a siopau gwych. Os am dreulio wythnos o *wyliau*, nid oes le gwell, a dylwn ychwanegu bod glanweithdra'r ddinas yn hynod. Ai Owen Edwards eto sy'n dywedyd yn rhywle fod Protestaniaeth a glanweithdra'n cydfyned â'i gilydd? Wel, gwn am lawer enghraifft i'r gwrthwyneb, ond gallasai'n hawdd ddefnyddio Nîmes (y mae tua chwarter ei phobl yn Brotestaniaid) i brofi ei bwnc. Y mae'n wir fod yma amchwaraefa mewn cyflwr perffaith bron—yr oedd ymladdfa deirw ynddi un prynhawn pan oeddym yno—y mae yma deml Rufeinig fydenwog (y *Maison Carrêe*), pyrth Rhufeinig, tŵr Rhufeinig, baddonau Rhufeinig, a dwy amgueddfa lawn. Ond rywfodd teimlem fod Nîmes fel Lyon—er ei bod yn llawer hyfrytach tref—yn rhy newydd, onid yw dywedyd hynny'n baradocs. Yr unig beth oedd yn *edrych* yn hen oedd talcen yr Eglwys Gadeiriol, gyda rhes ddiddorol o gerfiadau o'r Cread a'r Dilyw. O ran hynny, y *mae* yn ddigon hen, ond buasem wedi ei phasio heb edrych arni ddwywaith yn Rhydychen neu Auxerre neu Dijon. Ond yn Nîmes, yr oedd fel darn o'r cynfyd, a'r Maison Carrée, sydd o leiaf fil o flynyddoedd yn hŷn na hi, yn edrych bron mor newydd â'r Amgueddfa yng Nghaerdydd.

Yn Vaison, tua phymtheng milltir i'r dwyrain o Orange, y gwelsom am y tro cyntaf ddinas farw. Dyma hanes Vaison : bu unwaith yn ddinas Rufeinig, ac er gwaethaf ymosodiadau'r barbariaid parhaodd i fyw hyd y ddeuddegfed ganrif. Yna, dan bwys rhyfeloedd parhaus, penderfynodd yr esgob a'r trigolion adael y fangre ddiamddiffyn ; croesasant yr afon fechan ac adeilasant dref newydd ar y bryn serth gyferbyn â'u hen gartref—yr oedd gan Iarll Toulouse eisoes gastell ar gopa'r bryn. Ganrifoedd wedyn, â'r wlad erbyn hyn wedi heddychu, gadawyd y dref " newydd " yn ei thro, aethpwyd yn ôl i'r hen lecyn, ac adeiladwyd y dref ddi-lun bresennol ar adfeilion y dref Rufeinig. Gwêl y darllenydd erbyn hyn hynodrwydd Vaison ; y naill ochr i'r afon y mae gweddillion Rhufeinig (chwaraedy, etc.), pur helaeth, ynghyd â'r hen Eglwys Gadeiriol ; yr ochr arall, y mae tref yr Oesoedd Canol, wedi marw ar ei thraed. Dringasom ei heolydd culion serth, yn nwyawr boethaf y dydd, a than arweiniad yr hurtyn mwyaf hyd yn oed ymhlith " arweinwyr " cyflogedig Ffrainc ; a chofiaf byth am Vaison fel un o'r tri lle poethaf y bûm ynddynt erioed hyd yn hyn—y ddau arall yw cyntedd allanol Eglwys Bedr yn Rhufain a'r ysgwâr bychan o flaen St. Trophime yn Arles. Ond yr oedd yr hen Eglwys Gadeiriol ar y gwastad yn wir ddiddorol, yn enwedig ei thalcen a'i chlas. Eglurodd yr arweinydd inni mai " Groeg " oedd yr arysgrifau Lladin ar un o furiau'r eglwys, a dug ysgafnder i rai ohonom trwy guddio ei het yn y bedyddfaen rhag i ryw ddyhiryn ei dwyn ymaith tra byddai'r gŵr da yn camesbonio'r eglwys inni.

Ond yn Arles y mae gwlad marwolaeth yn dechrau. Y mae Avignon, fel y dywedais, yn fyw ac yn sionc. Y mae Tarascon yn fyw—tref fechan fudr, â'i chastell gogoneddus yn edrych dros afon Rhôn at gastell

Beaucaire—y naill le fel y llall yn enwog mewn rhamant. Ond am Arles, nid oes amheuaeth. Mynwent ydyw. Y mae wedi llwyddo, rywsut, fel Rhufain, i gael gan ei hadeiladau paganaidd gyd-fod mewn heddwch â'r eglwysi sydd ganddi'n weddill o'r Oesoedd Canol. Peth anghyffredin yw hyn—awgrymais eisoes fod rhyw ieuenctid yng ngwaith gorau'r adeiladwyr clasurol sy'n rhwystro inni sylweddoli ei oedran. Ond yma, yn Arles, y mae'r blaidd a'r oen yn cydorwedd yn ddigon tawel, am mai cyrff meirw ydyw'r ddau. Nid oes yma, fel yn Rhufain, heolydd newydd gwych a phrysur. Nid oes yma ychwaith, fel yn Rhufain, ddarn cyfan o'r ddinas heb ynddo *ddim ond* adfeilion o'r hen ymerodraeth—peth tra gwahanol yw effaith hynny ar y dychymyg. Ond y mae yn Rhufain, dyweder, ar lethr y Monte Aventino, neu yn y rhwydwaith o ystrydoedd culion rhwng y Forum a'r afon, ambell lecyn (yr enghraifft orau a ddaw i'm cof ydyw'r Piazza Bocca della Verità, o flaen Santa Maria in Cosmedin) lle mae Paganiaeth a Christnogaeth megis yn cydfalurio yn un llwch. Y mae'n anodd, heb ymollwng i sentimentaliaeth, adrodd y teimlad a ddaw ar ddyn mewn lle o'r fath, yn enwedig ar brynhawn trymgysglyd neu yn hwyrddydd melyn yr Eidal. Wel, lle felly ydyw Arles *i gyd*.

Adeiladwyd yr hen ddinas Roegaidd enwog ar dipyn o godiad tir gerllaw Afon Rhôn, yn y fan lle mae'r afon, gan mor wastad yw'r tir, yn arafu ac yn ymchwalu. Yn yr hen amser, yr oedd yma gorsydd mawrion, ac yr oedd y bryncyn bychan yn lle cyfleus. Daeth Arles yn borthladd prysur; symudwyd llywodraeth Gâl yno o Trèves pan ddechreuodd y Germaniaid guro ar ystlysau'r Gogledd. Wedi cwymp Rhufain, bu'n brifddinas Teyrnas Arles, ac ynddi y derbyniai Ymerodron yr Oesoedd Canol un o'u pedair

coron (coron Rufain, coron yr Almaen, coron yr Eidal, a choron Arles). Erys rhan helaeth o'i muriau Rhufeinig, ond oddi mewn iddynt y mae'r Oesoedd Canol wedi gorchfygu : nid oes eisiau ond nodi culni a drysni a drygsawr ei hystrydoedd, i sylweddoli bod delfrydau dinesig Arelate'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid wedi eu llwyr anghofio.

Dywedais mai mynwent ydyw Arles. Nid amhriodol gan hynny yw'r ffaith mai mynwent yw un o'i chreiriau hynotaf, sef mynwent enwog Aliscamps (*Elysii Campi*—meysydd Paradwys). Arferai'r hen Rufeiniaid, fel y gŵyr pawb, gladdu eu meirw o boptu i'r ffordd fawr, y tu allan i byrth eu dinasoedd, a dyna fu dechrau'r Aliscamps yn Arles. Wedi dyfod Cristnogaeth, buasai diwedd ar y ddefod hon oni bai ddarfod claddu Trophimus, disgybl Paul, yno ar fin y ffordd yn ôl yr hen arfer, medd traddodiad. Daear santaidd, felly, oedd yr hen gladdfa o hynny allan, ac ymledodd yn fynwent aruthrol o fawr. Dygid y meirw yno o bellteroedd mawr,—yn aml clymid hwy wrth bren i nofio i lawr yr afon i Arles, a gwaith mynaich St. Honorat oedd gofalu am gladdu'r cyfryw. Yno, meddid, y claddwyd marchogion Siarlymaen, ac anfarwolodd Dante'r fynwent yn ei Ddwyfol Gân. Erbyn diwedd yr Oesoedd Canol nid oedd le i sangu yno. Ond daeth tro ar fyd, a gadawyd yr hen fynwent i'r wadd a'r ystlum. Yng nghywreinrwydd y Dadeni, lladratawyd cannoedd o'r hen eirch cerrig Rhufeinig i addurno plastai ac eglwysi a gerddi ymhob gwlad, gan eu bod, fel rheol, wedi eu cerfio'n gywrain,—gellir eu gweld yn Rhufain ac ym Mharis, ac yn ffodus y mae nifer da ohonynt yn amgueddfa Arles ei hun. Am yr eirch *heb* gerfiadau, y mae lle i ofni mai bod yn gafnau dwfr neu yn feinciau fu diwedd llawer ohonynt. Yn y ganrif ddiwethaf, torrwyd llwybr i'r ffordd haearn drwy ganol y fynwent,

ac adeiladwyd gweithfeydd ar rannau eraill ohoni. Ond erys darn o'r hen ffordd Rufeinig, a rhes o eirch o boptu iddi ; adfeilion capel neu eglwys yma ac acw, a chypreswydd duon yn ddwy reng yn cau am y cwbl.

O fewn i furiau'r ddinas y mae adfeilion chwaraedy, gyda dwy golofn farmor hardd a fu'n rhan o'r llwyfan. Dacw rai o golofnau'r hen Forum, wedi hanner eu claddu mewn mur gwesty. Yn nghyntedd un o'r amgueddfeydd, dyma gangell y Llys Barn ; mewn man arall, ddarn o blas Cystenyn Fawr. Enwocach na'r cwbl ydyw'r amchwaraefa ; enghraifft nodedig o'r modd y mae Rhufain a'r Oesoedd Canol yn ymdoddi i'w gilydd yn y ddinas ddieithr hon. Oblegid yng nghynnwrf yr Oesoedd Tywyll, gwelwyd y gellid gwneuthur amddiffynfa gadarn o'r hen amchwaraefa gron : codwyd tri thŵr ysgwar uchel ar ei mur allanol, ac adeiladwyd tref fechan o'i mewn! Erys y tyrau uchel : y mae'r dref, wrth gwrs, wedi ei " glanhau " ymaith gan sêl hynafiaethol (neu efallai gan hyrwyddwyr ymladdfeydd teirw!) : ond y mae hen ddarlun ohoni ar gael—yr oeddwn wedi ei weled mewn rhyw lyfr, a da oedd gennyf allu ei brynu yn Arles ar gefn cerdyn post—yn sicr un o'r cardiau post mwyaf diddorol mewn bod.

Yn ymyl yr amchwaraefa y mae hen Eglwys Fair yn ein hatgoffa o oesoedd bore Cristnogaeth, oblegid ynddi y cynhelid Cynghorau'r Eglwys. Onid yn un ohonynt y clywir gyntaf am esgobion o Brydain? Ond Eglwys Gadeiriol Trophimus sy'n cynrychioli anterth yr Oesoedd Canol yn Arles. Eglwys Romanaidd ydyw (" Romanaidd " ydyw'r arddull a gamenwir ym Mhrydain yn " Normanaidd," gyda'r bwa crwn, o'i gyferbynnu â bwa toredig neu bigfain yr adeilad Gothig) ; nid oes waith Gothig yn y golwg i dorri ar yr ymdeimlad mai *parhad* o fywyd Rhufain oedd yr Oesoedd Canol yma. Y mae porth yr Eglwys

yn enwog trwy'r byd am ei gerfluniau o Efengylwyr ac Apostolion, Doethion y Dwyrain a Dydd y Farn. Diddorol yw cymharu'r cerfio Romanaidd hwn, sy'n drwm dan ddylanwad modelau Rhufain a Chaer Cystenyn, â'r cerfio Gothig a welir ar ei orau yng Ngogledd Ffrainc. Y mae hyd yn oed Ddydd y Farn yn drefnus ac yn daclus yma : gorymdeithia'r cadwedig a'r colledig fel ei gilydd (i gyfeiriadau gwahanol, bid sicr!) yn rhengoedd cyfartal, a phawb yn gwybod ei le. Mor wahanol ydyw'r asbri a'r direidi yn y portread o'r un testun ar Borth Mawr Eglwys Fair ym Mharis!

Ond ni feiddiwn aros i syllu ar y porth ; y mae'r haul yn rhy ffyrnig. Oddi mewn y mae'r hen eglwys yn oer ac yn dywyll : cerddwn i fyny at y gangell, yna trown i'r dde, i fyny grisiau hir, ac allan â ni eto i'r goleuni. Dyma'r clas, y peth harddaf yn Arles, ac un o'r pethau harddaf yn Ffrainc. Ar bedair ochr y llecyn glas, y mae rhes o golofnau dwbl, a'u pennau wedi eu cerfio'n gywrain ryfeddol,—dwy ochr yn Romanaidd, a dwy, fel y mae'n digwydd, yn waith Gothig, ond heb unrhyw wrthdrawiad. Uwchlaw'r rhodfa gysgodol, ymgyfyd clochty hardd. Ym mhobman—ar yr ysgwâr tanbaid, yn yr eglwys dywyll, yng nghysgod colofnau'r clas—distawrwydd y bedd.

O fewn ychydig i'r dwyrain o Arles, ar fryn a fu unwaith yn ynys ynghanol y corsydd, y mae adfeilion mynachlog fawr Montmajour—gyda chlas sydd heb fod ymhell ar ôl clas St. Trophime. Nid ymddengys bod y mynaich yn eu teimlo'u hunain yn ddiogel hyd yn oed yng nghanol y dyfroedd, oblegid nid yn unig codasant dŵr uchel castellog i warchod eu llan, ond cloddiasant ail eglwys yn y graig galed, o dan eu heglwys fawr, a rhyfedd yw ymgropian, wrth olau cannwyll, rhwng colofnau ac o amgylch allorau yng nghrombil y graig.

Ymhellach eto i'r dwyrain—yn y mynyddoedd, erbyn hyn—y mae dinas farw Les Baux. Ar ben clogwyn uchel o garreg galch, â golygfa anghyffredin o eang oddi arno, trigai arglwyddi'r fro hon—hen deulu Grimaldi, sydd erbyn hyn yn teyrnasu ym Monaco ac yn derbyn eu cyfoeth o golledion ffyliaid ym Monte Carlo. Bu Les Baux yn gryn ddinas, ag ystyried culni'r sail yr adeiladwyd hi arni—yn wir, yr hanner naddwyd hi ohoni. Erbyn hyn y mae'n malurio'n llwch gwyn, heb fwy na dyrnaid o bobl yn hel eu tamaid wrth ddarparu bwyd i deithwyr a gwerthu lluniau iddynt. Edrydd pob llyfr teithio fod yma unwaith, yn Oes y Trwbadwriaid, sefydliad pwysig a elwid yn " Llys Cariad " ; yma, meddir, y cynhelid math o eisteddfod, ac y trefnid rheolau barddas a chyfreithiau buchedd digon anghyfraith y Trwbadwr, gan senedd o rianedd pendefigaidd. Blin yw gorfod ychwanegu mai gwaith rhyw Iolo deheuol ydyw'r holl hanes!

Islaw i Arles y mae gwlad hynod iawn. Ar y llaw chwith, i gyfeiriad Marseille, y mae gwastadedd mawr caregog y Crau—hen wely Afon Durance, medd y daearegwyr : heddiw ymuna'r afon honno â Rhôn rhwng Avignon a Tarascon. Ond ar y llaw dde, o Arles i'r môr, y mae delta Afon Rhôn, gwastadedd eang lleidiog y Camargue. Y mae llawer o'r wlad dan ddwfr neu wedi ei gorchuddio gan berthi, yn fangre adar gwylltion o bob math, ac yn gartref pob haint hyd yn ddiweddar iawn. Ond er gwlyped ydyw, dwfr hallt sydd yno, ac y mae'n rhaid rhedeg dwfr croyw i'r trefi bychain o bellter mawr. Diddorol yw gweled y " tyrau dwfr " yma ac acw, a'r trigolion, bawb â'i drol, yn cario barilau o ddwfr ohonynt i'r ffermdai anghysbell. Am y gweddill, porfa ydyw, ac arni y pawr y teirw sy'n difyrru pobl Arles a Nîmes a Béziers brynhawn Sul. Dan heulwen haf, ni ellir

galw y fro yn brudd; chwyth awelon braf y môr drosti, ac y mae'r llynnoedd yn adlewyrchu glesni dwfn y ffurfafen, ond gallaf ddychmygu ei bod yn dra gwahanol yng ngwyntoedd llym y gaeaf. Y mae iddi ei beirdd a'i rhamantwyr; y mae, wrth gwrs, yn baradwys i'r naturiaethwr, ac awgrymiadol iawn ydyw'r tabledi aml ar fin y ffordd, RHYBUDD: GWAHERDDIR HELA.

Ar y traeth y mae tywyn hir yn ymestyn am rai ugeiniau o filltiroedd, ac yn y tywyn gadwyn ddi-dor bron o fôr-lynnoedd. Bu'r llynnoedd yn hafnau unwaith, ond y mae'r tywod wedi cau amdanynt, heb adael ond sianelydd culion i'w cysylltu â'r môr. Dyna drasiedi'r fro—y tir yn ennill ar y môr; dyna paham y mae yno gymaint o ddinasoedd meirwon. Buont unwaith yn borthladdoedd prysur ar briffordd masnach; erbyn hyn y mae ffrwd bywyd wedi cilio ymhell draw. Nid yw'r ffordd haearn fawr o Marseille i Bordeaux yn cyffwrdd â min y môr; esgyn y trên yr holl ffordd trwy Arles i Tarascon cyn croesi Afon Rhôn, yna ar draws i Nîmes, ac nid yw'n cyrraedd y môr nes daw i Cette, ymhell tuhwnt i gwrr gorllewinol eithaf y Camargue. Dibynna'r Camargue ar drugaredd y sefydliad hamddenol hwnnw a elwir yng Nghymru "Y Lein Fach." Chwarae teg i'r Lein Fach, y mae'n dyfod â rhyw ychydig adfywiad gyda hi. Dechreuwyd plannu mewn ambell ran; a gwneir defnydd helaeth o rai o'r môr-lynnoedd basaf i gynyrchu halen. Caeïr y llynnoedd i fyny, a gadewir i'r haul eu sychu; yna cesglir yr halen oddi ar y gwaelod. Gallech feddwl weithiau, yng nghanol Awst, fod y wlad dan eira trwm, a bum beth amser cyn sylweddoli nad gwersyll "y milisia" a welwn oddi ar furiau Aigues-Mortes, ond teisi o halen.

Y mae yma gynifer o ddinasoedd meirwon fel na ellir ond enwi dwy neu dair ohonynt. Dyma bentref

di-lun Saint-Gilles, yn ddigon pell o'r môr. Ond yma, meddir, yr oedd porthladd Groegaidd Heraclea, ganrifoedd cyn Crist. Erbyn dechrau'r Oesoedd Tywyll, yr oedd haul Heraclea eisoes wedi machlud, ond daeth adferiad o gyfeiriad digon rhyfedd. Rhyw ddydd, wrth hela, clwyfodd Wamba, frenin y Gothiaid, ewig a arferai roddi ei llaeth i ancr o'r enw Aegidius (Gilles). Fel yr hydd honno a ffodd am noddfa i gell Cybi Sant, ffodd yr ewig hithau at Gilles, ac fel y bu ar Faelgwn Gwynedd, felly hefyd y bu ar Wamba. Yn ei edifeirwch, rhoes diroedd helaeth i'r ancr i adeiladu mynachlog, a dyna ddechrau abaty enwog Saint Gilles. O'i hamgylch tyfodd tref fawr a phrysur, ac ynddi, meddir, saith o eglwysi plwyf. O'i hafan hi yr hwyliodd mwy nag un crwsâd i wlad Canaan, ac ynddi y sefydlwyd yr Ysbyty Ifan cyntaf yn Ewrop. Bu mwy nag un Pab ar ymweliad â hi, a chymerth Ieirll Toulouse ei henw fel un o'u teitlau. Ond un diwrnod du yn 1208, lladdwyd llysgennad y Pab yno, a dyna ddechrau rhyfel creulon yr Albigeois, a fu'n ddinistr i Ieirll Toulouse ac i annibyniaeth y Deheubarth. Rhwng ei llosgi a'i difetha fwy nag unwaith gan elynion yr Eglwys, a graddol gilio o'r môr oddi wrthi, gwywodd Saint-Gilles, ac nid yw heddiw, fel y dywedais, ond pentref cymharol ddinod. Anaml y gwelir golygfa fwy galarus na'r hyn a fu unwaith yn eglwys fawreddog mynachlog fawr. Cwympodd y gangell a'r côr, ac nid oes heddiw yn eu lle ond anialwch o feini yn y glaswellt. Bu orfod culhau corff yr eglwys, ac y mae hen dalcen Saint-Gilles yn lletach o lawer erbyn hyn na'r "eglwys" ei hun. Ond nid yw'r talcen yntau yn ddianaf; y mae'r rhannau uchaf ohono wedi diflannu, nes dinoethi talcen cul hyll yr eglwys bresennol. Eto, fel y mae, ef yw gogoniant y lle, gyda'i dri phorth hardd clasurol, ar ddull porth Saint-Trophime yn Arles.

Dacw Aigues-Mortes, " Y Dyfroedd Meirwon " ; y mae'r enw'n drist, ond nid hanner mor drist â'r ddinas ei hun. Sefydlwyd hi gan Lewis Sant, yn borthladd iddo i hwylio ohono i'r Crwsâd. Nid oedd gan frenhinoedd Ffrainc y pryd hwnnw lathen o dir yn eiddo iddynt eu hunain ar lan Môr y Canoldir. Prynodd y Sant brenhinol y llecyn hwn gan fynaich Psalmodi (y mae'r fynachlog a'r enw peraidd wedi llwyr ddarfod ers canrifoedd), cloddiodd hafan i'w longau, a chododd dŵr cadarn a hardd i'w wylio. Adeiladodd ei fab Phylip gaerau cedyrn o gwmpas y dref fechan : y maent yno byth, yn un o ryfeddodau Ffrainc, ond y mae'r dref oddi mewn iddynt wedi marw. Nid yw'r muriau ond arch garreg, fel eirch yr Aliscamps yn Arles. Egyr hen filwr coes bren ddrws grisiau i chwi : " Ddo i ddim gyda chi hefo'r goes bren yma, ond canwch y gloch sydd dan y faner acw pan fyddwch chi wedi gwneud y rownd "—ac ymaith ag ef. Yr oedd Sais rhadlon yn y cwmni—Sais y buasai'r Athro Gwynn Jones yn ei alw'n " Sais tordyn," oni buasai am ei radlonrwydd—ac yr oedd y dydd yn boeth, y muriau, wrth gwrs, yn hollol ddigysgod, a heb ganllaw ar yr ochr fewnol; uwchlaw'r cwbl yr oedd yn rhaid eu cerdded bob cam (tua milltir) cyn cyrraedd y gloch. Cerddai'r cyfaill ymlaen dan chwysu, a chanu litani drist : *if I had only known!* Ond er gwaethaf popeth yr oedd yn werth cerdded y muriau. Draw, dacw'r môr anffyddlon a fu unwaith yn golchi traed y caerau hyn. O'n cwmpas, diffeithwch o byllau heli ac o dywod, a llinell hir syth y canal sy'n ymestyn oddi yma i Beaucaire ac yn rhan o gadwyn sy'n cysylltu Rhôn â'r Atlantig yn ymyl Bordeaux. Bu gobaith mawr yr atgyfodai'r ffosydd hyn fywyd y fro farw hon, ond tybiaf mai siomiant fu'r hanes. Wrth ein traed y mae heolydd union Aigues-Mortes : heolydd *union,* oblegid cynlluniwyd

y dref â llinyn mesur, fel trefi Edwart y Cyntaf yng Nghymru yn yr un oes, ond heolydd glaswelltog gweigion, a thai budron slymllyd o boptu iddynt.

Ychydig i'r dwyrain (wedi croesi braich Rhôn ar bont o gychod) y mae Les Saintes Maries de la Mer—efallai mai "Llanddwyfair-y-traeth" a fuasai ym Môn neu Feirion. Ar y môr mawr ei hun y mae Les Saintes Maries, a diwrnod gwyn i un ohonom oedd gweled am y tro cyntaf lâs dwfn Môr y Canoldir, a rhodio ar ei lan. Nid yw'r lle ond pentref bychan budr, er ei fod yn lle ymdrochi pur boblogaidd, a'i unig hynodrwydd ydyw'r eglwys: eglwys uchel gaerog, ac iddi *dri* chôr—yr ail dan y ddaear a'r trydydd ar ben to'r eglwys. Wrth gerdded y paraped sy'n ei choroni, cofiwn am ymosodiadau'r môr-ladron a wnâi fywyd yn enbyd yn y lle hwn unwaith—mor agos atom â 1610, medd Gabriel Hanotaux. Castell ydyw'r eglwys, ac nid yw'n rhyfedd gweled pydew yng nghanol ei phalmant i godi dwfr i'r gwarchaeedig.

Yr ydym yma hefyd yng nghanol chwedloniaeth ddiddorol Cristnogaeth dyffryn Rhôn. Er hyned ydyw Cristnogaeth mewn gwirionedd yn y fro hon, mynn dychymyg y bobl ei gwneuthur yn hŷn. Clywsom yn Arles am Trophimus, cyfaill Paul. Ond yma, awn ymhell tuhwnt i'r gŵr da hwnnw. Oni ŵyr pawb i'r Iddewon, wedi lladd yr Iesu, gymryd Martha a Mair a Lasarus, gyda'u gwasanaethferch ddu Sara, a hefyd Fair Magdalen (os nad yn wir Fair arall hefyd), a'u dodi mewn cwch, heb rwyf na hwyl, at drugaredd y tonnau? Dug y tonnau hwy i'r fan hon, yna glanio ac efengyleiddio'r holl wlad. Aeth Martha, yn drafferthus fel arfer, i Darascon, i waredu'r trigolion o grafangau'r ddraig enwog, y Tarasque, ac yn Eglwys Tarascon y gorwedd heddiw. Nid ydys yn hollol glir beth a ddaeth o'r ddwy Fair ac o Lasarus.

Cred rhai mai yma y claddwyd hwy, ond ddarfod i'r ffyddloniaid, rhag ofn y môr-ladron, symud eu gweddillion i Fwrgwndi bell—Lasarus i Autun a'r Fagdalen i Vezelay. Beth bynnag am hynny, yma y mae corff Sara ddu, ac y mae'r eglwys yn llawn o offrymau iddi. Yn rhinwedd ei lliw, hi yw Santes y Sipiwn, a deuant yma o gryn bellter i'w hanrhydeddu.

Campwaith cyntaf y diweddar hanesydd eglwysig Monsignor Louis Duchesne oedd chwilio i mewn i draddodiadau " apostolaidd " yr Eglwys yn Ffrainc. Gwnaeth alanastra dirfawr yn eu plith, a chyfododd iddo'i hun elynion na faddeuasant byth iddo. Bychan mewn cymhariaeth oedd yr helynt a achosodd ei " Hanes yr Eglwys Fore," er i Rufain roddi hwnnw ar y Rhestr Waharddedig : ei bechod mawr sylfaenol oedd ysgubo ymaith ofergoelion melys hen Eglwys Gâl. Y mae'n wir mai gŵr llym oedd Duchesne, gŵr â mwy o eironi nag o dynerwch ynddo, ond dengys ei hanes mor ddewr y dylai dyn fod cyn ymwthio rhwng gwerin â'i hoff gred.

Y mae gennyf ddinas farw arall i sôn amdani, y ryfeddaf o'r cwbl efallai, sef dinas enwog Carcassonne. Y mae hi'n bell o ddyffryn Rhôn, ac yn perthyn i fro hollol wahanol, gyda thraddodiadau gwahanol—er i ni fod am ennyd o fewn eu cyrraedd pan syllem ar eglwys Saint-Gilles. Yn awr bydd yn rhaid gadael Provence a throi i Languedoc, gwir gartref y Trwbadwriaid yng nghyfnod eu blodau, a chartref y mudiad gwrth-eglwysig enwog a elwir gan yr Eglwys yn " heresi'r Albigeois."

Cychwynnwn o Nîmes, ar draws gwastadedd poeth. Dyma Montpellier, gyda'i hen Brifysgol enwog ; tref yn meddwl cryn lawer ohoni ei hun. Cette wedyn, ar lain cul o dywod rhwng morlyn mawr y Thau a Môr y Canoldir, lle nodedig o hardd. Agde, tref fechan heb ddim i'w weled ynddi ond ei heglwys gaerog *ddu*—yr

ydym ar gwrr gwlad o greigiau folcanaidd. Eto, nodwn yr enw, Agde, hynny yw Agathe—*Agathe Tyche*, "lwc dda," oblegid dyma eto drefedigaeth Roegaidd ym more hanes y byd, pan nad oedd dy deidiau di a minnau, ddarllenydd, yn nemor gwell nag anifeiliaid gwyllt yn y coed. Béziers: dacw ei heglwys gadeiriol ardderchog ar ben y bryn. Ond cofiwn hefyd am y lladdfa arswydus a fu yma yn 1209, pan laddwyd o leiaf ugain mil, yn wŷr, yn wragedd, ac yn blant. "Sut y deallwn ni," meddai'r milwyr Catholig wrth lysgennad y Pab, "pwy sy'n Gatholig a phwy sy'n heretig?" "Ewch chwi ymlaen," meddai'r gŵr eglwysig, "fe edrych yr Arglwydd ar ôl ei eiddo." Narbonne: yr enwocaf o'r cwbl, y ddinas Phoeniciaidd a Rhufeinig a roes ei henw i dalaith gyfan *Gallia Narbonensis*, ac a fu am ganrifoedd yn borthladd o'r pwysicaf—ond heddiw y mae pum milltir dda rhyngddi â'r môr, ac yn ei hamgueddfa yn unig y gwelir olion Rhufain.

Try'r trên ei gefn ar y môr, a dring yn raddol rhwng mynyddoedd duon—"Y Mynydd Du," yn wir, yw enw silff ddeheuol y Cevennes ar y llaw dde, ac ar y chwith ymgyfyd grisiau isaf y Pyreneau. Nid yw'r pigau gwynion yn y golwg, oblegid y mae'r haul wedi cilio, a chymylau yn ymgasglu. Rhwng du'r creigiau a du'r ffurfafen y mae'r wlad yn hynod debyg i'r hen ddarluniau dur yr ymhyfrydai ein tadau ynddynt—Annwfn Dante, neu La Mancha brudd *Don Quixote* fel y gwelæi Gustave Dorê hwynt, neu'r lleoedd geirwon enbyd y teithiai Pererin Bunyan drwyddynt yn yr hen lyfrau plyg mawr. Yn sydyn, dyma lygedyn o haul ar y chwith, ac yn y llygedyn hwnnw res hir o binaclau a thyrau ar ben bryn isel yng nghanol y dyffryn, fel Caersalem yng nghefndir hen ddarluniau Fflandrys, Dyma Carcassonne. Y mae'n ddigon tebyg, yn wir yn sicr, fod ei thrigolion yn cael

aml ddiwrnod o heulwen ddisglair ac awyr las, ac yr wyf wedi meddwl yn aml mor wahanol fuasai'r effaith arnaf pe buaswn wedi gweled y lle ar ddiwrnod felly. Ond trefnodd ffawd i ni, ar ôl pythefnos o wyn a glas a melyn claer Provence, weled y fro ryfedd hon mewn cymylau a niwl, ac yn y distawrwydd llethol sy'n dyfod o flaen ystorm.

Y mae dwy Carcassonne, y "ddinas" a'r "dref." Y "ddinas" yw'r hynaf, ar ben y bryn. Bu yno, mae'n debyg, noddfa Geltaidd, ac wedyn wersyll Rhufeinig. Yna codwyd y muriau'n uwch gan y Wamba hwnnw a welsom yn hela'r ewig yn Saint-Gilles. Ar ei ôl ef daeth adeiladwyr yr Oesoedd Canol, ac erbyn y drydedd ganrif yr oedd y ddinas yn lle cadarn ryfeddol, dan Ieirll Toulouse, ac yn nwylo teulu Trencavel. Ei swydd oedd gwarchod yr adwy rhwng Languedoc â Phrovence, a hefyd rhwng Ffrainc ag Ysbaen, oblegid yn yr oes honno nid y Pyreneau eu hunain oedd y goror, gan fod gan Ieirll Barcelona awdurdod ar Roussillon, y tu yma i'r mynyddoedd. Achos dinistr Carcassonne oedd y rhyfel "crefyddol" o 1208 ymlaen—rhyfel yr Albigeois. Bu gwarchae hir arni gan y "crwsadwyr" dan arweiniad Simon de Montfort (tad y Simon fu mor enwog yn hanes Lloegr, a thaid gwraig Llywelyn y Llyw Olaf). Trwy frad yn unig y cymerwyd hi o'r diwedd—brad na fynnai Simon greulon ei hunan ymostwng iddo nes ei berswadio gan esgobion. Ymhen rhyw ddeng mlynedd ar hugain wedyn, ailgydiodd teulu Trencavel yn y ddinas. Erbyn hyn yr oedd pethau wedi newid. Methasai teulu Montfort ddal eu gafael yn yr ysglyfaeth gyfoethog a roddasai'r Pab iddynt, ac yr oeddynt bellach wedi ei throsglwyddo i frenin Ffrainc. Felly Lewis Sant ei hun, gŵr tirion at bawb ond at heretic-iaid, a ddaeth i lawr i ail-ddarostwng y ddinas gref. Wedi gorchfygu, gwelodd na thyciai rhoddi trydydd

cyfle i'w thrigolion, a gyrrodd hwy allan o'u dinas, bob un, gan ei gadael yn anghyfanedd. Adeiladwyd "tref newydd" iddynt ar lawr y dyffryn—y "dref" bresennol, wrth gwrs, tref ysgwâr a heolydd union, yn ôl ffasiwn yr oes honno a'r oes hon.

Bu'r "ddinas" yn malurio am ganrifoedd, ac yn y ganrif ddiwethaf ni bu ond y dim iddi gael ei llwyr ddiddymu. Ond gwrthryfelodd chwilfrydedd haneswyr a theyrngarwch y brodorion yn erbyn y ddedfryd; perswadiwyd y llywodraeth i atal y dinistr, casglwyd arian, a phenodwyd yr adeiladydd enwog Viollet-le-Duc i atgyweirio'r hen gaer. Gwnaeth ei waith yn hynod effeithiol; ymddengys na wnaeth ond edfryd yn ofalus yn ôl hen ddarluniau, a bod y lle heddiw i bob pwrpas yn union fel yr oedd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Cewch "rodio'n rhydd ar hyd-ddi" heb neb i aflonyddu arnoch: cerdded o amgylch y mur allanol, ymdroi yn y tir glas rhwng y mur allanol a'r mur mewnol, crwydro yn heolydd culion y ddinas ei hun a breuddwydio o fewn ei hen eglwys gadeiriol. I rodio *ar* y muriau a'r tyrau y mae'n rhaid ymostwng i ddefod y wlad a chymryd eich "arwain," ond y mae yno gymaint o arweinwyr fel nad oes raid ieuo'n anghymarus â dieithriaid, ac ni ddylai neb golli'r olygfa o ben y muriau. Os am weled y ddinas yng ngolau'r lleuad, neu ar doriad y wawr, y mae pob rhyddid, ac y mae yn y ddinas westy cysurus (a chostus, meddir) dan ofal gŵr sy'n hynafieithydd gwych, yn adnabod pob maen o'i ddinas enedigol, ac yn un o ffotograffwyr gorau'r byd. Yr unig gwyn sydd gennyf yn ei erbyn ydyw ei fod yn achos dwyn cerbydau modur i mewn i'r hen ddinas. Er bod ynddi rai cannoedd o drigolion, y maent yn bobl ddigon tawel, yn byw ar ddarparu tê a gwerthu cardiau post. Ond am y cerbydau modur, y maent hwy, nid yn unig yn dinistrio harmoni'r lle, ond hefyd yn beryglus.

Os yw'n *rhaid* i ddyn gael ei ladd yn un o ddinasoedd yr Oesoedd Canol, gellid meddwl mai marwolaeth Abimelech a fyddai'n fwyaf cydnaws ; peth anhanes-yddol iawn ydyw i ddyn gael ei daro i lawr gan fodur yn y fath le!

Rhifasom dyrau Carcassonne (ddeuddeg a deugain ohonynt) ac ystyriasom ei rhagfuriau. Difyr oedd sylwi ar feini mawr ysgwâr y Rhufeiniaid yng ngwaelod y muriau ; yna, ar briddfeini cochion Wamba yn rhesi igam-ogam ; yn uwch wedyn, dyna waith seiri'r Oesoedd Canol, ac yn uchaf oll feini newydd a llechi Viollet-le-Duc. Ni chawsom weled y ddinas yng ngolau lleuad, nac ar doriad gwawr ychwaith : daeth dafn neu ddau o law pan oeddym ar ben y muriau, gorfu i ni frysio yn ôl i'r " dref," a thrwy'r nos bu un o'r ystormydd mwyaf dychrynllyd a welais erioed. Erbyn naw o'r gloch y bore, yr oedd y glaw wedi peidio, ond nid oedd pethau'n edrych yn obeithiol iawn, felly aethpwyd i'r " dref " ar neges ddigon rhyddieithol—prynu ymbarelo. A chyfaddef y gwir, nid oeddym wedi breuddwydio gweled mwy o'r " dref " nag oedd i'w weled o ddrws y gwesty. Ond fel mater o ffaith, yr oedd yn lle digon diddorol ; wedi'r cwbl y mae Carcassonne yn dref sir ac yn dref esgob, ac ynddi gryn lawer o fywiogrwydd. Wedi prynu'r ymbarelo, ail-gychwyn i'r " ddinas " (dros yr " Hen Bont " sydd hithau mor hen â'r Oesoedd Canol), i fyfyrio ymhellach, ac yn enwedig i weled yr eglwys—Eglwys Romanaidd gadarn, gyda chroes a changell Gothig neilltuol o hardd, a ffenestri lliw ardderchog. Treuliasom y bore'n hamddenol ac yn hapus, a bu'r glaw yn garedig wrthym, ond wedi i ni " orffen," ail-gychwynnodd, a gadawsom Carcassonne mewn dilyw. Rhywfodd, ni allaf yn fy myw deimlo gofid am hynny—yr oedd y glaw'n ychwanegu at y profiad yn lle tynnu oddi wrtho.

Bellach y mae'n rhaid troi'n ôl. Noson eto yng ngwesty rhagorol "Y Ceffyl Gwyn" yn Nîmes. Cychwyn oddi yno drannoeth: castell Tarascon; stesion Tarascon a'i hystafell fwyta orlawn, a'r teulu Americanaidd gyda mwy o gelfi nag a welais gan undyn byw erioed (cyfrifais saith ar hugain o *suit-cases*!); Plas y Pabau yn Avignon, a thŵr uchel Villeneuve ar ei gyfer; cip ar chwaraedy Orange; adfeilion castell Crussol ar gyfer Valence; Mynydd Pilat a phrydferthwch Vienne;—rhuthro heibio i'r cwbl nes ein cael ein hunain unwaith eto ym merw Lyon ac yng nghyrraedd y Gogledd.

Y Tri Bryn.[1]

Y GWAITH cyntaf a roddwyd imi ar ddechrau fy mywyd fel athro oedd esbonio seithfed llyfr Iwl Cesar ar "Y Rhyfel yng Ngâl." A minnau, fel pob athro ieuanc, yn llawn o sêl ac o syniadau newydd a bywiog, defnyddiwn argraffiad darluniedig o'r llyfr, yn llawn o luniau bychain "ewin bawd," fel y dywed y Sais, o leoedd enwog yn yr hanes. Y mae arnaf ofn nad oedd y lluniau, wedi'r cwbl, yn gwneuthur y wers yn nemor mwy atyniadol; rhywsut nid oedd y Modd Dibynnol ddim haws, na'r Araith Anuniongyrchol fymryn unionach, o'u britho â chip-olygon ar Melun a Bourges, Sens a Sancerre. Ac mi welais hefyd, ymhell ar ôl hynny, fod y Dr. Rice Holmes braidd yn angharedig wrth y llyfr bach—"embellished with pictures with which only one fault could be found, that the greatest number represented places where Caesar had never been." Ond sut bynnag yr oedd hi ar y bechgyn, bu'r llyfr bach yn lled bwysig ym mywyd eu hathro; symbylwyd fi gan y lluniau i grwydro yma a thraw yn Ffrainc, a chan yr hanes ei hun i ymddiddori yng ngwaith ymerodrol Rhufain, ac yn natblygiad Ffrainc a'i diwylliant.

Testun y Seithfed Llyfr, fel y gŵyr y darllenydd yn ddiamau, yw ymdrech fawr y Galiaid yn y flwyddyn 52 C.C., dan arweiniad y cadfridog ieuanc Vercingetorix, i daflu ymaith iau Rhufain—hanes y Llyw Olaf. Ac yng ngyrfa'r tywysog dewr a hoffus hwnnw digwydd fod tri bryn hynod: Bryn Gergovia, lle y ganed ef; Bryn Bibracte, lle y dewiswyd ef yn Dywysog Gâl; a Bryn Alesia, lle machlud ei haul. Bum innau erbyn hyn mor ffodus â dringo pob un o'r tri, a cheisiaf ddywedyd ychydig amdanynt.

[1] Ymddangosodd rhai paragraffau o'r bennod hon yn y *Llenor*, Gaeaf, 1927.

I.

Dechreuwn gyda Gergovia. Mater hollol syml ydyw myned yno. Codi tocyn o Baris i ddinas Clermont yn Auvergne, man cyhoeddi'r Grwsâd Gyntaf, yn 1095. Y mae llawer Clermont yn Ffrainc, megis y mae mwy nag un Bryn Hynod yng Nghymru, ac enw swyddogol y ddinas hon yw Clermont-Ferrand. Priodas ydyw rhwng dwy hen ddinas, Clermont a Montferrand; a chan fod Montferrand fel ambell wraig o uchel dras sy'n anfodlon i foddi ei henw ac yn mynnu bod yn "Davies-Jones," dyfeisiwyd yr enw dwbl hwn ar y ddinas unedig. Ond y mae Clermont ei hun yn dref fawr a blodeuog, ac wedi newid llawer yn nhreigl amser, a Montferrand, i'r gwrthwyneb, yn marw ar ei thraed ers canrifoedd. Felly, y mae busnes a chyfoeth wedi ymadael o Fontferrand i Glermont; ar y llaw arall, gan nad oedd galw am ragor o dai nac am "welliannau" o unrhyw fath ym Montferrand, y mae hi, er yn dlawd ac yn slymllyd, eto'n batrwm perffaith o hen drefi cyfoethog y bymthegfed ganrif. Y mae tram clonciog yn cychwyn o Royat hyfryd ar ben y bryn, yn disgyn y bryn serth hwnnw i lawr i ysgwâr bywiog Clermont, yn croesi'r dref, ac allan i'r dwyrain, heibio i lwch ffatrïoedd di-ramant cwmni enwog Michelin, a lladd-dai, a gweithiau nwy a thrydan, a phethau felly, nes cyrraedd porth Montferrand. Amgylchynir yr hen ddinas hyd heddiw gan ei ffosydd, ond heddiw ei drewi a'i budreddi sy'n debycach o gadw gelyn draw ohoni. Buan y pallodd cywreinrwydd fy nghydymaith, ac aeth bron ar ei hunion, ar y bore Sul poeth hwnnw yn Awst, i eistedd yn yr eglwys ac i anadlu'r arogldarth. Eto, os gelli gau dy ffroenau ac agor dy lygaid, a mentro i lawer cornel amheus dros ben, y mae gwobr yn dy aros: y cyfoeth o hen dai nobl a fu unwaith yn

gartrefi pendefigion—cerfio cywrain ym mhobman ; ar gapan drws a'i ddau ystlysbost, ar lintel ffenestr, ar ganllaw grisiau, ar aml lecyn gwag ar bared tŷ.

Y mae'n hawdd canfod Bryn Gergovia o unrhyw ran o ddinas Clermont. Yn wir, os bydd dyn mewn brys neilltuol, nid yw'n rhaid iddo hyd yn oed ddisgyn yng Nghlermont, oblegid y mae'r trên, ar ei ffordd bell i Nîmes, yn rhedeg gyda godre'r bryn. A hawdd ei adnabod hefyd, gan fod ar ei ben fath o drybedd haearn hyll, sy'n edrych o bell fel gweddillion coelcerth—fel mater o ffaith " cofgolofn " i Vercingetorix ydyw. Ond nid ydym ni mewn brys ; da fydd inni ddringo'r bryn, a chyn hynny sôn ychydig am ei gefndir.

Yr ydym yn nhir Auvergne, gwlad yr *Arverni*, un o hen genhedloedd Gâl ; yn y rhan ddwyreiniol o'r ucheldiroedd sy'n gnewyllyn Ffrainc. I'r daearegwr, y mae'n wlad ag ynddi dair silff. Yr isaf o'r rhain yw gwastadedd eang y Limagne, a fu unwaith, meddir, yn waelod llyn. Uwchben hwnnw ymgyfyd math o fwrdd uchel o garreg galch, â chapan trwchus o wenithfaen neu fasalt. Ni bu bob amser yn fwrdd, oblegid nid yw ond sylfaen hen fynyddoedd a dreuliwyd ac a lefelwyd gan wynt a glaw a rhew ac afonydd. Dyma, meddir, y mynyddoedd hynaf yn Ewrop (y mae gweddillion o'r un teulu yn Llydaw, ac yng Ngwynedd hefyd)—mynyddoedd oedd mor hen nes eu llyfnhau bron i'r bôn cyn geni'r Alpau! Eto, nid dyma'r ffaith hynotaf yn hanes daeareg Auvergne : y mae'n rhaid inni sôn am y drydedd silff. Rhywbryd—o fewn cof dynolryw yn Ffrainc, medd y daearegwyr—craciodd y capan gwenithfaen gan nerth ysgogiadau tanddaearol, ac ymsaethodd ffrydiau o ufel tanllyd i fyny drwy'r agenau, yna ymffurfio'n llosg-fynyddoedd. Yno y mae'r rheini hyd heddiw, yn rhesi hirion ar y silff wenithfaen, yn edrych yn hynod ddieithr, os nad

yn wir yn ddigrif—cyffelyba rhyw Ffrancwr hwy i'r tyrrau tywod y bydd plantos yn eu moldio â'u bwcedi ar lan y môr. Heddiw, y maent yn oer ac yn llonydd, fel cip-olwg ar y lleuad trwy delescop ; ond hyd yn oed heddiw y mae Auvergne yn llawn o ffynhonnau o ddwfr berw, ac y mae enw'r hen dduw Celtaidd Bormo (" Berw ") yn elfen mewn llawer o enwau lleoedd yn y wlad. Dro yn ôl, sinciodd rhywun bwll yn llawr gwastadedd y Limagne, ond cyn treiddio rhyw lawer o dan y wyneb, bu raid ymatal, gan fod y gwres yn annioddefol.

Wele, felly, yn y golygfeydd dieithr a rhamantus a'r ffynhonnau berw, ddau o achosion poblogrwydd Auvergne fel lle i dreulio gwyliau. Gofala cwmnïau darbodus y ffyrdd haearn am ddarparu cyflawnder o gerbydau modur i gyflenwi diffygion ffyrdd haearn mewn gwlad mor fynyddig. Y mae gan bron bob tref fechan yng nghanol y bryniau nid yn unig faddondŷ, â rhesi o ddillad ymdrochi'n sychu'n ddiramant yn yr haul oddi allan iddo, ond hefyd *Casino*, lle y gelli anghofio blas ac aroglau'r brwmstan wrth gyfrif dy golledion. Amgylchynir di amser cinio gan Ffrancwyr diddan blonegog, yn heu eu *paté de foie gras* â phowdrau fferyllol, ac yn dyfrhau eu gwin â dyfroedd Marah, mewn perffaith hyder nad yw bwyta gormod yn unrhyw niwed i ddyn ond iddo gymysgu ei fwyd â halen neu frwmstan o grombil y ddaear. Nid Ffrancwyr yn unig chwaith—y mae trên " union " o Galais i Vichy a Royat bob dydd yn yr haf, ac y mae Prydeiniwr yn teimlo'n bur gartrefol. o leiaf yn nyfrleoedd mwyaf ffasiynol y wlad : gelli am unwaith fod yn hollol dawel y cei dê da, ac wrth stondin bapurau yn Royat clywais lais pwyllog araf yn gofyn mewn Ffrangeg gramadegol gofalus, gan roi ei llawn werth i bob sill, a oedd y *Times* wedi cyrraedd.

Eto, nid â'r pethau hyn y mae a fynnom yma, ond â hanes Auvergne. Er bod gwastadedd y Limagne yn wlad o feysydd gwenith eang a pherllannau cyfoethog, y mae'r ucheldir uwch ei ben yn llwm ac yn oer. Anodd, yn wir, wrth chwysu mewn cerbyd modur ganol haf ar y ffordd fawr rhwng y Mont Dore a St. Nectaire, yw cofio bod y ffordd fawr honno'n uwch na chopa'r Wyddfa! Ond y mae bywyd yn galed iawn yno dan y gaeaf hir a'i rewynt deifiol a'i luwchfeydd o eira. Y mae Auvergne yn wlad o'r neilltu ; fel Ceredigion yng Nghymru, arfer ei thrigolion yw ymfudo ohoni (dywedir fod y naill hanner o weision a morynion Paris yn *Auvergnats*), ond, yn wahanol i Geredigion, anaml y byddant yn dychwelyd iddi. Nid oes, felly, nemor ddim dylanwadau meddyliol o'r tu allan yn treiddio i mewn iddi. Bu hi erioed yn gartref i'r hyn a eilw'r Sais yn *lost causes*, yn noddfa olaf hen bethau. Yno yr oedd yr Arverni, pobl Vercingetorix, yr olaf o genhedloedd Gâl i ildio i Rufain. Yno, yn ddigon rhyfedd, yr oedd encilfa olaf gallu Rhufain ei hun yn wyneb ymosodiadau Gothiaid a Bwrgwndiaid a Ffranciaid—y mae hanes yr ymdrech yn llythyrau difyr Apollinaris Sidonius, Esgob Clermont yn y bumed ganrif. Yn yr Oesoedd Canol, brwydrodd Auvergne yn erbyn brenin Ffrainc a brenin Lloegr fel ei gilydd. Yno yr ymladdodd Catholigion a Phrotestaniaid yn ffyrnicaf o bobman ; yno y bu raid i Richelieu a Lewis Fawr sengi ddiwethaf ar y bendefigaeth—ac eto, yno yr oedd yr hen fywyd ffiwdal yn fwyaf egnïol yn 1789.

Gwlad galed, a phobl galed. Coronir bron bob bryncyn ag adfeilion castell ; ac y mae'r eglwysi hwythau'n nodweddiadol. Muriau trwchus, a ffenestri bychain, i gadw allan wynt oer y gaeaf a haul tanbaid yr haf—a llawer gelyn yn yr hen oesoedd. Bwâu crynion preiffion, a thyrau cedyrn, wedi eu

hadeiladu o fasalt du caled na rydd gyfle i ddawn y cerfiwr. Eto ni fyn yr artist mo'i atal; gellir addurno'r muriau duon y tu allan â phatrymau a chylchau a chroeswaith o gerrig gwynion a chochion, ac yn niddosrwydd yr eglwys oddi mewn, gellir gwneuthur capanau'r colofnau o feini meddalach, a'u cerfio'n gywrain—Y Swper Olaf, Yr Atgyfodiad, Bucheddau'r Seintiau, bwystfilod ac adar o bob math.

Gwlad yn wir yw Auvergne a fu ar hyd ei hanes "yn dra chrefyddol." Yn ei mynyddoedd hi, yr oedd y ffrydiau berw, a'r tân nad oedd eto ond prin wedi diffodd, beunydd yn awgrymu i'r hen Geltiaid mai yno yr oedd cartref eu duwiau. A theimla dyn nad yw'r Eglwys ond megis wedi bedyddio'r duwiau hyn yn seintiau. O ben bwygilydd i'r wlad, o Glermont i Le Puy, y mae delwau "Mair Ddu," a gwympodd, fel Diana'r Effesiaid gynt, o'r nefoedd, yn wrthrych addoliad. Bob Calan Haf, er enghraifft, cludir delw Mair Ddu Besse allan o Eglwys Besse ac i fyny i ucheldiroedd y Mont Dore—o'r hendre i'r hafod—i warchod dros ei ffyddloniaid tra bônt hwythau'n gwylied eu praidd ar y borfa uchel.

Ond mynd i weled Gergovia yr oeddym. Gellir yn hawdd gerdded yno—nid yw ond pedair milltir o Glermont. Ond doeth, ar fore haf, yw cymryd y bws modur sy'n cychwyn o Chwaraedy Clermont. Bydd y bws yn llawn o hen wragedd siaradus mewn capiau gwynion (yn union fel y gwelsom y peth yng Nghaernarfon neu Aberystwyth) yn dychwelyd o farchnad Clermont, wedi gwagu eu basgedi o afalau ac eirin (ardal hynod am ei pherllannau yw hon) a'u llenwi â nwyddau "o'r dre." Un hen nain fywiog yn mynd â'i hŵyr bychan gwelw am wythnos "i'r wlad"—y tad a'r fam yn ei hebrwng, ac yn cofleidio a chynghori fel pe bai'r hogyn yn mynd i America o leiaf, a'r gyriedydd di-amynedd yn utganu fel Gabriel

ar fore'r Farn. Y mae'r plentyn, heb lawer o ffydd, efallai, yn adnoddau'r ffermdy, wedi dyfod â'i holl deganau gydag ef ; yn eu plith y mae cylch mawr, a thipyn o broblem i'r hen wraig ydyw cael lle i hwnnw yn y bws. Wedi llwyddo i'w roi am yddfau'r naill hanner o'i chyd-fforddolion, perswadir hi gan daer weddi pawb i'w wthio dan y seddau. Nid yw troeon yr yrfa ar ben gyda hynny. Mewn un pentref, dyma iâr yn rhedeg dan olwynion y bws. Disgyn y gyriedydd : rhybuddia bawb ohonom â llais awdurdodol, " peidied neb â syflyd! " ac ymaith ag ef, â'r gelain yn ei law, i gyffesu ei fai i berchennog yr iâr, ac efallai i dalu amdani. Ac ar y ffordd adref hefyd, oriau lawer wedyn, bydd inni sefyll o flaen tafarn, a phob arwydd bod gwledd briodas oddi mewn. Erbyn hyn y mae cydwybod y gyriedydd wedi ei llwyr lanhau o farwolaeth yr iâr ; ac i lawr ag ef. Ym mhen hir a hwyr, gwelwn yr achos o'i absenoldeb maith—gellir ei ganfod trwy ffenestr y dafarn yn dawnsio'n hoyw brysur gyda'r gwahoddedigion. Allan ag ef, yn wynebgoch ac yn chwys diferu, yng nghanol " cymeradwyaeth fyddarol " preswylwyr y bws (yr oedd hyd yn oed dwy leian wylaidd yn gwenu), ac ymlaen â ni. Rhyw chwarter milltir y tu yma i Glermont, dyma'r *octroi* (y dollborth—un o felltithion Ffrainc), a swyddog yn dod i mewn i chwilio ein paciau,—y wraig yn cofio'n euog fod ganddi ffrwythau yn ei basged na cheir eu smyglo i mewn i Glermont heb doll. Ond ni fynn y swyddog cwrtais aflonyddu ar estroniaid sy'n pechu'n ddiarwybod, ac agorir y pyrth yn llawn inni.

Yn y cyfamser yr ydym wedi bod ar ben Gergovia. Disgyn, gyda'r nain a'r ŵyr a'r cylch, ym mhentref Romagnat. Ar y llaw dde inni, dacw Mont Rognon, a chastell yn adfeilion ar ei gopa ; ar y chwith, Gergovia. Esgyn llwybr hir i fyny ceunant ; i ddechrau trwy berllannau, yna trwy goed, nes dringo i ben y bwlch,

ac wedyn cerdded yn rhydd i fyny'r bryn. Y mae'r bwlch ei hun, gyda llaw, yn chwarae rhan bwysig yn y Seithfed Llyfr, oblegid ymosododd Cesar arno gan obeithio hudo'r Galiaid i lawr o Gergovia i'w amddiffyn. Ond am y bryn enwocach. Darn ydyw o'r platfform y soniais amdano o'r blaen : darn a rwygwyd ymaith, neu a lithrodd ymaith oddi wrtho. O dan y capan basalt y mae carreg galch, wedi ei threulio'n geunentydd serth ; ond y mae'r capan bron mor wastad â bwrdd, rhyw ddwy filltir a hanner o hyd a milltir o led, tua 2,500 o droedfeddi uwchlaw'r môr, 1,200 uwchlaw'r Limagne oddi tanom. O ben y bryn, gwelwn filltiroedd lawer o wlad. Yma unwaith y bu prif " ddinas " yr Arverni ; oddi yma gellid gweled y gelyn o bell, ac yr oedd ochrau serth y bryn yn ei wneuthur yn encilfa hynod ddiogel. Yn Amgueddfa Clermont y mae llawer crair a gloddiwyd allan yma, ond heddiw nid oes faen ar faen, ac y mae rhan helaeth o'r bwrdd yn dir llafur.

Y mae'r ochr ogleddol (yr ydym newydd ei dringo) yn rhy serth i fyddinoedd, y talcen dwyreiniol yn glogwyn, a'r pen gorllewinol yn disgyn i'r bwlch y soniais amdano. Ond y mae'r ochr ddeheuol yn cwympo'n risiau i'r glyn cul sydd rhyngom â phentir hir syth La Serre—ar big y pentir hwnnw y mae treflan Le Crest, mewn sefyllfa odidog. Y glyn, felly, oedd man ymosod Cesar. Draw ar ein chwith, dacw Orcet, lle yr oedd ei brif wersyll. Yn union oddi tanom (nid allwn ei gweld heb ddisgyn rhyw gymaint) y mae La Roche Blanche—" Y Graig Wen " (nid oes fawr er pan fu ei thrigolion yn byw mewn ogofâu yn y garreg galch, bob un â'i simnai a'i ffenestr), yma yr oedd rhag-wersyll Cesar. Ar y dde, dyna Chanonat, trobwynt y ffug-ymosodiad ar y bwlch. Y maent oll yn hynod ddeniadol i'r golwg, gyda'u muriau gwyngalch a'u toeau o briddlechi cochion.

Ond nid wyf am ofyn i chwi ein dilyn am oriau o'r naill bentref i'r llall, gan gamu dros bob math o aflendid ac arogli pob math o ddrygsawr (a meddwl y buasai'r hogyn bach hwnnw yn llawer iachach ei awyr gartref yng Nghlermont), a gorfod cerdded yn ffyrnig yn y diwedd rhag ofn colli'r "bws olaf." Yn lle hynny, trown ein cefnau ar y glyn, a'n hwynebau i'r gogledd-orllewin, gan edrych dros ben Clermont a phinaclau duon folcanaidd ei Heglwys Gadeiriol, i fyny at binacl llawer uwch, sef pigyn uchel hardd y Puy de Dôme. Ar ei ben y mae adfeilion teml Rufeinig Mercher, a gymerth le uchelfa'r hen dduw Celtaidd Teutates. I'r duw hwnnw, yn ddiamau, y diolchodd Vercingetorix am yr oruchafiaeth fawr a enillodd yma ar un o brif filwyr y byd.

II.

Y mae'r ail fryn—Bibracte—ymhell i'r gogledd o Glermont; ym Mwrgwndi, yng nghanol mynyddoedd coediog tywyll y Morvan. Dyna wlad yr *Aedui* yn oes Cesar. I Gymro, nid ffansi'n unig ydyw tynnu cymhariaeth rhwng broydd Gâl a broydd Cymru. Gallem, er enghraifft, gyffelybu arfordiroedd Provence a Languedoc i Fro Morgannwg neu ddeheubarth Dyfed—broydd dymunol yng ngolwg estron, anodd eu cadw o'i afael, a hawdd ganddynt ddysgu diwyllaint estronol. Naturiol drachefn yw cyffelybu Auvergne i Wynedd; dwy wlad greigiog, hawdd eu hamddiffyn, tyn eu gafael yn eu hen ddiwylliant. Yna, efallai y caem ddywedyd bod yr Aedui yng Ngâl yn debyg i wŷr Powys yng Nghymru. Y mae'n anodd gan wladgarwyr brwd yn y naill wlad a'r llall faddau i'r ddwy genedl hon am ddilyn polisi "canoli." Ond na fyddwn or-galed arnynt. Cofiwn mai *y tu ôl* i'r ddwy wlad y mae'r mur o fynyddoedd, yn lle bod rhyngddynt â'r gelyn. A megis yr oedd Dyffryn

Hafren yn ei gwneuthur hi'n hawdd i'r Saeson dreiddio i berfeddion Powys, felly yr oedd Rhône a Saône yn arwain y gelyn yn esmwyth i mewn i wlad yr Aedui. Hawdd ddigon i'r Arverni, â mur mawr y Cevennes o'u blaenau, herio Rhufain. Ond yr oedd yr Aedui at drugaredd y llengoedd. Nid rhyfedd felly iddynt ymheulo yn ffafr Rhufain ac ymfalchïo yn y teitl "Cyfeillion Rhufain." Iddynt hwy y perthynai Diviciacus, y dysgodd Cicero a Chesar ganddo gymaint o "wybodaeth" amheus ynghylch y Derwyddon. A dilyn ein cymhariaeth ymhellach: yr hyn sy'n cyfateb i'r Berwyn ym Mhowys ydyw'r Morvan ym Mwrgwndi; ac un o fynyddoedd y Morvan, sef Bibracte (y Mont Beuvray y gelwir ef heddiw), oedd safle eu dinas noddfa.

I ni heddiw, y mae'r Beuvray yn llawer mwy anhygyrch na Gergovia. I ddechrau, bydd yn rhaid mynd i ddinas henafol Autun. Y mae mwy nag un ffordd yno. Yr hyfrytaf, yn ddiamau, ydyw gadael priffordd haearn y P.L.M. yn Laroche; yna heibio i Auxerre dlos ac Avallon ramantus ar ael ei cheunentydd coediog, wedyn dringo rhosydd y Morvan drwy Saulieu. Ffordd arall yw mynd ymlaen trwy Dijon i Chagny, hen wersyll yr herwyr Seisnig yn y Rhyfel Canmlwydd, ac yno newid i'r lein groes sy'n rhedeg i Nevers—ond ffordd ddi-ramant trwy wlad o lofeydd yw hon. Gwell i ni gychwyn ym mhen arall y lein, yn Nevers. Yno, yn y ddinas hardd a bywiog ar lan Loire, byddwn eisoes yn awyrgylch y Seithfed Llyfr, oblegid yno y casglodd Cesar ei ystôr cyn cychwyn ar y rhyfelgyrch hwn—y peth cyntaf a wnaeth yr Aedui ar ôl penderfynu wedi'r cwbl ymuno â Vercingetorix, oedd llosgi Nevers. Yn uwch i fyny, dyma ni'n pasio Décize; yno, mewn ynys yn yr afon, y cyfarfu Cesar â senedd yr Aedui ychydig cyn y gwrthryfel. O'r diwedd, dyma ni yn Autun.

Hen ddinas lwyd, dawel, drist, ar lethr bryn, â phinaclau ei Heglwys Gadeiriol yn goron iddi. Fel Clermont, y mae'n gofgolofn o allu Rhufain. Meddyliodd Augustus Ymherodr y dylid diddyfnu'r Celtiaid o'u hen arferion ; gwnaeth i'r Arverni ymadael o Gergovia a byw mewn dinas newydd sbon, *Augustonemetum*, sef Clermont heddiw. Felly hefyd yma ; symudwyd trigolion Bibracte, gryn ugain milltir o ffordd, ac ail-blannwyd hwy yn ninas newydd *Augustodunum*—Autun. Ond ni all hyd yn oed ymherodr Rhufeinig brynu'r dyfodol. Yr oedd Clermont ar fin tramwyfa, ac y mae wedi byw. Ond yr oedd Autun " allan o'r byd," a phan gwympodd Rhufain, cwympodd hithau hefyd. Llosgwyd ac anrheithiwyd hi, dro ar ôl tro, gan Fandaliaid, gan Ffranciaid, gan Normaniaid, gan Saraseniaid hyd yn oed. Symudodd Dugiaid Bwrgwndi eu prif lys allan ohoni, i lawr i Dijon gyfleus ar briffordd masnach, a gadawyd yr hen ddinas i ymgolli yn ei myrdd o atgofion—am ei hysgolion a'i dysgawdwyr enwog, am ei chwaraedai a'i baddondai moethus, am y priffyrdd Rhufeinig yu ymsaethu allan ohoni (i Lyon a'r Eidal ; i Orleans a Boulogne a Phrydain ; i Langres a Metz a'r Almaen) pan oedd hi'n brif dref y dalaith a Rhaglaw Gâl yn byw ynddi. Neu efallai am ddyddiau gwaedlyd anwar y Ffranciaid, ac am yr hen frenhines ddewr fileinig Brunhild, a'i hymdrech dros annibyniaeth Bwrgwndi, a'i diwedd ofnadwy wrth garnau meirch.

Ganrifoedd lawer wedyn, dyma ennyd o heulwen eto ar yr hen ddinas, pan oedd un o'i meibion, Nicolas Rolin, yn Ganghellor Dugiaid Bwrgwndi yng nghyfnod eu hysblander mwyaf. Nid anghofiodd yntau ei dref enedigol, a bu'n hael wrthi â'i arian ac â'i adeiladau gwych. Ond machludodd haul Dugiaid Bwrgwndi yn 1477, a syrthiodd Autun yn ei hôl i'w thrymgwsg. Eto nid oedd Hanes wedi gorffen â hi. Dair canrif

wedyn, dyma gyffyrddiad ysgafn o storm y Chwyldro Mawr. Talleyrand, Esgob Autun, oedd un o brif ddynion y Chwyldro ar ei ddechrau, a bu'r cadno cyfrwys hwnnw mor fedrus nes cadw ei ben ar ei ysgwyddau drwy'r cyffro i gyd, a marw yn ei wely, yn "Dywysog," dan y Frenhiniaeth adferedig. Ac yr oedd gan Autun un o ysgolion y Jesuitiaid. Iddi hi, ryw ddiwrnod, daeth tri brawd bychan o Ynys Corsica, i ddysgu Ffrangeg—fel llawer Cymro bach yn mynd i Amwythig neu Fryste i ddysgu Saesneg. Flynyddoedd wedyn, daeth un ohonynt â'i wraig Josephine i Westy'r Post yn Autun; yno gellwch weled eu hystafell, yn union fel yr oedd. Unwaith eto, ar ei daith o Elba, yn 1815, cafodd Napoleon weled ei hen ysgol—ar ei ffordd i Avallon ac i Auxerre (yno, ar yr ysgwar caregog o flaen yr Eglwys Gadeiriol, yr ymunodd Ney ag ef, gyda'r fyddin a anfonwyd i'w gyfarfod a'i garcharu), ac felly ymlaen i Baris a Waterloo a St. Helena. Mewn lle fel Autun y mae dyn yn teimlo pwysau ofnadwy oesoedd hanes; yno y mae llinell anghyfiaith Vergil, er ei dyfynnu filwaith, yn peidio â bod yn ystrydebol:

sunt lacrimae rerum, et mentem mortalia tangunt.

Heddiw, y mae'r hen ddinas ddistaw wedi crebachu o fewn ei muriau Rhufeinig eang, nes bod gerddi a pherllannau helaeth lle bu unwaith heolydd prysur. Erys dau o'r pyrth Rhufeinig heirdd, ond erbyn hyn y maent bron yn y wlad, y tu allan i'r dref. Cuddiwyd seddau'r amchwaraefa dan dywarchen las; er gweled ar gongl heol yr enw "Y Rhodfa Farmor," y mae'r marmor wedi diflannu. Dyma adfeilion "Teml Ianws"; dacw "Dŵr Minerfa"; i fyny'r bryn, weddillion afluniaidd pyramid a fu efallai'n feddrod rhyw bendefig. O'r Oesoedd Canol, dyma Eglwys Gadeiriol Lasarus; hen eglwys Romanaidd urddasol,

â Phorth Mawr hynod dros ben, a chôr a chlochty Gothig hardd o rodd Nicolas Rolin. Ym mhob un o'r heolydd culion glaswelltog y mae rhyw dŵr cadarn neu dŷ pendefigaidd. Unwaith yn y flwyddyn (ddechrau Medi) y mae ffair fawr ar yr ysgwâr eang anial sydd o flaen ysgol Napoleon, a'r pryd hwnnw, medd y teith-lyfrau, y mae'r ddinas fechan dan ei sang. Ond wedi gwerthu'r cwbl o wartheg gwynion y Morvan, syrth Autun drachefn i flwyddyn o freuddwyd.

Digon bychan o amser oedd tridiau yn Autun, a bu raid dyfod oddi yno heb weled llawer peth y carasem ei weled. Ond yr oedd y daith i'r Beuvray yn anhepgor, ac yn gofyn darn diwrnod go dda. Y mae'n ugain milltir o ffordd, a chafwyd y byddai raid llogi modur y tro hwn, oblegid er bod bws yn rhedeg o Autun i bentref St. Lêger wrth droed y Beuvray, yr oedd hwnnw'n cychwyn am bump o'r gloch y bore! Yn wir, tipyn o brofedigaeth i'r Pwyllgor Ariannol a fu'r wibdaith i Autun. Nid am ddim, hyd yn oed yn Ffrainc, y llogir modur am daith o ddeugain milltir. Nid am ddim y dylid disgwyl cael cysgu dan yr unto â Napoleon Fawr. Ac yr oedd gan yr "Hôtel Saint Louis et de la Poste" syniad dyrchafedig iawn am baratoi pryd o fwyd. Nid oes fawr amheuaeth nad Bwrgwndi, drwyddi draw, yw'r orau o holl daleithau Ffrainc am fwyd a diod. Ac o bobman ym Mwngwndi, nid Dijon nac Auxerre na Beaune, er rhagored ydynt, ond Autun piau'r goron. Y mae'n wir fod teithwyr yn sôn gyda theimladau dwys am goginiaeth Saulieu, ond gan na buom eto yn Saulieu, Autun ydyw'r marc pen llanw yn ein hanes ni. Arfer dyniion siarad yn segur am "fwyta nes methu symud": rhyw ymadrodd barddonol yw hynny gan amlaf. Ond y gwir rhyddieithol ydyw, er inni fwy nag unwaith addunedu i "basio cwrs neu ddau o'r cinio heno, rhag cywilydd," pan ddoi "heno," nid allem ymatal,

a gorchwyl gwirioneddol anodd oedd ymgripio o ystafell fwyta Gwesty'r Post i gadeiriau esmwyth ei *salon*. Wrth gwrs, yr oedd yn rhaid talu am y glythineb hwn—gymaint â phumswllt y pryd. Mi wn o'r gorau y buasai'n costio o bymtheg swllt i sofren yn Llundain; ond nid yw cofio hynny'n unrhyw falm i deimlad trysorydd sydd wedi amcangyfrif yn ôl chweugain y pen y dydd am bopeth ond y trên! Bu raid cynilo o hynny ymlaen, a byrhau ein gwyliau o gryn bedwar diwrnod; pasio drwy Moulins heb droi i weled Paray-le-Monial a Charlieu; rhoi heibio i feddwl am fynd mor bell i'r De â St. Flour; gwaeth na'r cwbl, dod adref unwaith eto heb weled Bourges. Ond wedi'r cwbl, yr oedd Autun a'r Beuvray yn llawn werth y pris.

Cychwyn ar hyd ffordd Château-Chinon; gydag ymyl y ffordd rhed y lein fach, sy'n arwain i'r dref fynyddig honno—gerllaw iddi y cychwyn afon hyfryd Yonne ar ei thaith hir heibio i Clamecy ac Auxerre a Sens, i ymuno ag Afon Seine ym Montereau ychydig uwchlaw Melun. Ymhen ychydig, gadael y lein fach, a throi ar y chwith, heibio i Montholon, cartref St. François de Sales am beth amser, ac o'r diwedd cyrraedd St. Léger-sous-Beuvray, tua 1,200 troedfedd uwchlaw'r môr; pentref mawr a dymunol, o amgylch triongl helaeth o dir glas. Galw yn siop y post; yno gellwch brynu tybaco, a da fydd gan y bostfeistres hefyd werthu cardiau post â lluniau i chwi, er budd "Cymdeithas Cyfeillion y Beuvray"—tebyg y ceisia gennych heblaw hynny brynu ticedi lotri at ryw achos da nad wyf yn awr yn ei gofio. Buasai'r bws yn eich gadael yma, ond yn eich modur ardrethol eich hun gellwch ddringo dwy filltir ymhellach, at wasg y mynydd, at ymyl y ffos lydan ddofn a amgylchynai Gaer Bibracte. Ar y map y mae amlinell y Beuvray yn ddigrif o debyg i fap o Iwerddon. Ond yma, nid

bwrdd llwm agored fel Gergovia sydd o'n blaenau, ond mynydd cribog hardd, yn goed tewion hyd at ei gopa. " Sut yr adnabyddwn ni'r llwybr ? "—oblegid sibrwd y *Guide Bleu* mewn print mân ei bod " yn hawdd iawn colli'r llwybr," ie, ac mai da fydd " gochel rhag gwiberod." Teimlwn yn bur anturiaethus, yn wir, braidd yn " nerfus," oblegid creadur ofnadwy yw gwiber i breswylwyr tref. Ond yn awr gwelir defnyddioldeb Cymdeithas Cyfeillion y Beuvray ; y mae'r Cyfeillion, allan o broffidiau'r cardiau post, wedi dabio paent coch ar y coed o boptu'r llwybr iawn. A heblaw hynny, wele glerigwr, gyda bagad o neiaint a nithod, ar gychwyn i fyny. Gŵyr ef y ffordd yn dda ; nid oes raid i *M'sieu' et 'Dame* ond ei ddilyn ef, a bydd popeth yn iawn.

A felly y bu am gryn amser. Cydsyniai'r Coch a'r Du yn hollol unfryd, nes dyfod at lannerch agored bur helaeth, a cholli golwg am ennyd ar y Coch. Fel hap-chwaraewyr Monte Carlo, bu raid inni ddewis rhwng y ddau liw. Mentrasom ar y du—a chollasom! Na feddylied neb fy mod yn bwrw bod yr Eglwys yn aml yn camarwain dynion, ond hynny a fu y dydd hwnnw. Arweiniodd yr offeiriad llewgalon ni i fyny gorifyny serth, nes dod allan o'r diwedd, mae'n wir, ar ben y grib, ond ymhell iawn o ben y daith, ac at ein hanner mewn prysgwydd. Nid oedd dim i'w wneuthur bellach (yn ffodus, yr oedd y brofedigaeth fechan wedi peri inni lwyr anghofio'r gwiberod) ond dal i wthio ymlaen ac i fyny trwy'r manwydd nes cyrraedd y llecyn lle y mae cofgolofn, ac olion prin dwy gongl stryd, a chapel bychan wedi ei wneuthur o feini hen deml, yn dangos lle y bu Bibracte. Yfory, yn amgueddfa Autun, y cawn weled y profion fod yma unwaith dref boblog o weithwyr haearn ac owmal.

O ben y mynydd edrychwn ar wlad eang y Morvan. Wrth gyfrif y llynnoedd yma ac acw, hawdd yw cofio

mai dyma un o ganolbwyntiau Ffrainc, un o brif gronfeydd ei dyfroedd. Math o ddysgl fâs uchel ydyw'r ardal, a gorlifa'r afonydd dros ymyl y ddysgl, i dri chyfeiriad. Tua'r gogledd, rhed Yonne ac Armançon i Afon Seine a'r Sianel. I'r dwyrain, llifa'r nentydd i lawr i wastadedd Dijon neu dros ymyl y Côte D'Or, i Afon Saône a Môr y Canoldir. Ar y llaw dde, dyna afon Arroux yn rhedeg heibio i Autun i mewn i Afon Loire, ac yn y pen draw, i'r Atlantig. Teimlad rhyfedd yw hwn—sefyll megis ar ben to Ffrainc ; ac y mae'n help inni sylweddoli lle Bwrgwndi yn hanes Ffrainc, sef bod yn groesffordd, yn farchnadfa syniadau a diwylliannau. Y mae gan Gabriel Hanotaux, yn ei lyfr *L'Energie Française*, bennod ddiddorol ar Arnay-le-Duc, un o drefi'r Morvan, yn adrodd fel y gallodd ef, mewn ychydig filltiroedd o gerdded, ymweled â tharddle pob un o'r afonydd a enwais. Odid nad Pumlumon yw'r peth tebycaf yng Nghymru i'r Morvan yn hyn o beth. Hawdd bellach yw gweled sut y daeth yr Aedui yn un o ddwy brif genedl Gâl—masnach oedd asgwrn cefn eu cyfoeth.

Ond y mae'n dechrau nosi, a ninnau, wrth gofio mor anodd oedd gweled y paent coch ar y ffordd i fyny, yn dechrau myfyrio'n anesmwyth ynghylch y ffordd i lawr. Yn ffodus, daeth i ben maleisus un o'r hogiau ofyn i'r offeiriad gyfieithu iddo glamp o arysgrif Ladin ar un o'r cofgolofnau. Ymsythodd y gŵr eglwysig, gwgodd ychydig, pesychodd, a meddai, " Wel . . . h'm, h'm . . . wel . . . " Adwaenwn yr arwyddion yn dda—bûm yn yr un picil fy hunan fwy nag unwaith! Yn llawn tact, tynasom ychydig o'r neilltu ; yn raddol, llithrasom o'r golwg. Gyda chymorth y map bychan yn y llyfr, llywiasom ein hynt i lawr, a heb gymaint ag unwaith golli'r llwybr, daethom o'r diwedd i fin y ffos ac i olwg gysurus y modur.

Ar y Beuvray y derbyniodd Vercingetorix wrogaeth holl lwythau Gâl. Ni wnaeth hynny nemor les iddo : chwyddodd ei fyddin brofiadol a disgybledig â thyrfa ddi-reol : gyrrodd ef, yn erbyn ei farn ei hun, i'r frwydr or-hyderus honno ag Iwl Cesar gerllaw Dijon, a wnaeth iddo gilio'n ôl i Fryn Alesia, yng ngogledd Bwrgwndi, i ymladd am y tro olaf, ac i'w orchfygu. Dilynwn ef yno.

iii.

Y mae'r Mont Auxois—Bryn Alesia—ryw filltir fwy neu lai o stesion Les Laumes ar briffordd y P.L.M., ac felly'n berffaith hawdd mynd ato. Yn wir, fel Gergovia, y mae'n hawdd ei weled o ffenestr y trên wrth fynd heibio iddo. Ar eich ffordd chwyrn i'r Yswisdir, eisteddwch ar y llaw dde i'r cerbyd, a chofiwch edrych allan wrth basio stesion Les Laumes, rhyw ddeugain munud y tu yma i Dijon. Bydd yn hawdd i chwi adnabod Alesia, oblegid y mae ar ei ben gofgolofn anferth i Vercingetorix—â'i gefn atoch, a'i wyneb yn gwgu i gyfeiriad hen ddinas gaerog Flavigny, am mai yn ymyl honno yr oedd gwersyll Cesar. Ond llawer gwell yw cymryd trên araf, a disgyn yn y Laumes. Dywed cyfaill o Gymro wrthyf fod y gwesty bychan gerllaw'r stesion yn rhagorol ym mhob modd ; ac y mae'n lle hwylus iawn am ddeuddydd neu dri o wibdeithio. Nid yn unig cewch chwilota Alesia wrth eich pwysau, ond y mae Flavigny yn agos, â'i hen Abaty (rannau ohono mor hen â'r wythfed ganrif) wedi ei droi'n ffatri melysion. Ym Montbard, ychydig i'r gogledd, yr oedd cartref y naturiaethwr Buffon ; ac yn ei heglwys hi y priodwyd Ann o Fwrgwndi â Dug Bedford, brawd Harri'r Pumed—priodas a fu'n alaeth mawr i Ffrainc. Heb fod ymhell, dyma Abaty Fontenay, un o'r ychydig fynachlogydd sydd hyd heddiw yn gyfan a bron yn

ddigyfnewid er yr Oesoedd Canol. Ac yn y Laumes y mae newid os am fynd i Semur, " y Ddinas Goch," ar graig mewn dolen o afon Armançon ; ac am Avallon. Yma, drachefn, y cychwyn lein fach, a'n dwg heibio i Vitteaux a'i thai coed, a St. Thibault a'i heglwys ddiddorol, i fyny i Arnay-le-Duc a chalon y Morvan. Ie, purion peth fai wythnos o wyliau yn y Laumes.

Eto, nid felly y gwelsom ni Alesia. Clywsom yn Nijon fod gan y P.L.M. " siari "—onid ydyw Mr. Williams Parry wedi gwneuthur hwn bellach yn air Cymraeg safonol?—yn rhedeg taith diwrnod o Ddijon : i fyny Alesia, yna drwy Flavigny i Semur, a chaniatau dwyawr yno cyn troi adref drwy St. Thibault a Vitteaux. Bu'r demtasiwn yn ormod inni—yr oedd cryn lawer o ffrancod i'w cael am bunt yn y flwyddyn honno, ac o ran hynny, yr oedd gallu ymweled â chynifer o leoedd mewn undydd yn ychwanegiad ymarferol at hyd ein gwyliau.

Felly dyna ni'n cychwyn, ar fore cymylog oeraidd, chwech ohonom. Heibio i Talant a Fontaines, a chipolwg eilwaith ar gartref Bernard Sant. Ymhen ychydig, disgyn bron ar ein pennau i gwm cul Val Suzon, hoff le'r Dijonwyr ar hanner diwrnod o wyliau. Ymgodi eto i'r ucheldir : yr ydym ar Waun fawr galchog Langres, y clawdd terfyn rhwng afonydd y Gogledd ac afonydd Môr y Canoldir—mewn gwirionedd, un mur maith, yn cydio'r Jura wrth y Pyreneau, ydyw'r Plateau de Langres, y Morvan, Mynyddoedd Auvergne, a'r Cévennes. Disgyn am bum munud wrth eglwys St. Seine-l'Abbaye, hen fynachlog a fu unwaith yn arglwyddes ar fwy na deugain o bentrefi. Ychydig yn nes ymlaen, cyfeiria'r gyriedydd at nant fechan leidiog, gydag ymyl y ffordd : " dyma Afon Seine," meddai. Ni fyn neb ei gredu, ond dengys y map ei fod yn dywedyd yr union wir.

Chanceaux ; pentref hir o dai gwychion o gerrig nadd. Dringo llethr serth i Frolois, a'r ffordd gul yn troelli mor sydyn nes codi nid ychydig o ofn ynom. Yna, mynegbost, "*aux Laumes.*" Croesi'r ffordd haearn, ychydig islaw'r stesion, a llusgo i fyny'r rhiw hir i bentref Alise. Ni pherthyn imi yma adrodd hanes gweddill y dydd : muriau Flavigny, tyrau cedyrn Semur, Bwlch Sombernon a'r olygfa ardderchog oddi arno ar Wastadedd Dijon a'r Bryniau Aur dan haul y prynhawn. Digon i ni fydd aros ar y bryn y penderfynwyd arno hanes Ffrainc.

Y Mont Auxois yw'r mwyaf gogleddol o fynyddoedd Bwrgwndi. Nid yw ond tua hanner uchder y ddau fryn arall y bûm yn sôn amdanynt, ond y mae ei arwynebedd (o leiaf, ei arwynebedd defnyddiol) ryw gymaint yn fwy. Ei arbenigrwydd ydyw ei fod yn sefyll yn gwbl glir oddi wrth y bryniau cyfagos —y mae afonydd ar dair ochr iddo, a cheunant dwfn ar y bedwaredd. Yn 52 c.c., perthynai i'r *Mandubii*, cenedl o fasnachwyr (y mae'r lle hyd heddiw, fel y nodwyd eisoes, ar ymyl un o'r priffyrdd pwysicaf) dan nawdd yr Aedui. Rhyngddo â'r Morvan, tua'r de, y mae gweunydd yr Auxois, bro hynod am dda corniog—ac nid yw'n amhosibl nad " gwin Auxois " oedd y " gwin osai " y canai'r cywyddwyr Cymreig ei glodydd yn niwedd yr Oesoedd Canol. Hawdd yw canfod rhai o'r rhesymau paham y dewisodd Vercingetorix y bryn hwn i sefyll arno. Byddai'n hawdd iddo gadw llygad ar yr Aedui gwamal ; byddai'n hawdd iddo, ar y bryn helaeth hwn, grynhoi digon o wartheg oddi mewn i'w ffosydd i ddal gwarchae go hir ; ni allai Cesar ail-gydio â'i luoedd yng nghymdogaeth Paris tra byddai Vercingetorix ar Alesia yn cau ei ffordd i'r Gogledd ; ac yr oedd unigedd y bryn yn peri credu y byddai'n hawdd ei amddiffyn. Ymhellach—ac y mae'n bur glir mai gŵr oedd

Vercingetorix oedd yn drwm dan ddylanwad crefydd —yr oedd Alesia'n fynydd cysegredig. Y mae yn wir yn bur debyg nad yw'r Eglwys, wrth anrhydeddu'r wyryf Sainte-Reine, a ferthyrwyd ar y bryn hwn, meddir, rhyw dri chan mlynedd ar ôl y digwyddiadau hyn, wedi gwneuthur dim ond ail-anfarwoli duwies Geltaidd a addolid yma ymhell cyn i Iwl Cesar erioed glywed sôn am wlad Gâl. Ond fel mater o ffaith, unigedd Alesia a fu'n achos cwymp yr hen gaer. Yr oedd yn hawdd i Gesar ei chwbl amgylchynu, ac felly yn y diwedd newynu ei hamddiffynwyr ; ac er i fyddin fawr o wŷr Gâl geisio torri i mewn ar draws y ffosydd Rhufeinig, i waredu eu brodyr, methu a wnaethant.

Er mor alarus yw'r atgofion sydd wedi crynhoi o'i chwmpas, y mae Alesia fel mater o ffaith yn hoywach lle na'r ddau fryn arall. Nid yw'n llwm ac oer fel Gergovia nac yn ddyrysgoed gwyllt fel Bibracte. Ac nid yw bywyd dynol erioed wedi ymadael â'r lle ; er na bu byth ar ôl hynny unrhyw hynodrwydd iddo. Y mae yma heddiw ddau bentref bychan, Alise a Ste. Reine. A chyn eu geni hwy, yr oedd yma dref hanner-Rhufeinig â chanddi gryn lawer o hunanbarch. Yr oedd ganddi demlau a baddonau, delwau pres a marmor, a llawer peth felly. Delir i gloddio ar y llecyn, ac y mae yma ddwy amgueddfa eithaf da, er mai gyda help y modelau yn amgueddfa fawr Saint Germain yn ymyl Paris y mae'n hawddaf deall brwydr 52. Napoleon y Trydydd, wrth weithio ar ei *Hanes Iwl Cesar*, a orchmynnodd gloddio ar y bryn, i brofi mai'r un yw Alise ag Alesia. Nid yw gwladgarwch eto wedi pallu ar y bryn hwn : nid yn unig y mae delw gawraidd Vercingetorix yma, ond hefyd ddelw o Jeanne D'Arc.

Yr oedd y bore cymylog wedi troi'n niwl ac yn gawodydd, er bod prynhawn heulog euraid i'w ddilyn.

Ond rhywfodd nid ymddangosai hynny'n chwithig. Safem yn y gwelltglas gwlyb wrth draed Vercingetorix, gan dremio trwy'r niwl a'r glaw mân ar y rhesi o boplys ar y gwastadedd oddi tanom yn marcio rhediad y priffyrdd. Bron na allem feddwl mai rhengau o filwyr Rhufeinig oeddynt, yn cau o'n hamgylch. Dychmygem weled y tywysog Celtaidd yn ei rwysg, yn neidio ar ei farch ac yn carlamu drwy fwlch yn y gaer i'w daflu ei hun wrth draed Cesar yn aberth dros ei bobl. A meddyliem wedyn am y gell danddaearol honno ger y Farchnadfa yn Rhufain, a'r gŵr mawr rhydd gwlatgar yno'n cael ei roi i farwolaeth. Gwell, onid e, oedd diwedd Llyw Olaf Cymru, dan heulwen ac awelon glannau Irfon?

Ar Lan Afonydd Babilon.[1]

Y MAE gwahaniaeth barn rhwng fy nghyd-deithiwr â minnau ar yr achos gwreiddiol a arweiniodd yn y pen draw i hyn o lith. Y mae hi'n rhoi'r bai ar y *jambon* yn yr *omelette au jambon* a roddwyd o'n blaenau yn nhafarn fechan Chalus, ar adeg ein pererindod i wely angau Rhisiart Lew-Galon. Yr wyf finnau'n *gwybod*—y mae'n rhyfedd mor ddieithriad yr wyf i 'n iawn yn y dadleuon teuluaidd hyn,—yn gwybod, meddaf, mai'r pysgodyn, y *raie au beurre noir*, a fwytasom yng ngwesty drud rhodresgar Limoges, oedd dan wraidd y drwg. "Cath fôr," medd Bodfan, ydyw *raie*, a bu erioed yn gas gennyf gathod. Efallai y bydd yn well gan y darllenydd, fel y bydd ambell bregethwr yn gwneuthur gydag adnod anodd, "gymryd y ddau olygiad," ac am a wn i na byddai hynny'n eithaf rhesymol.

Lle diflas ac anniddorol oedd Limoges, a lle poeth a digysgod yw Chalus. Poethach fyth oedd *junction* Bussiere-Galant, lle y bu raid aros awr a thri chwarter am drên i Pêrigueux. Wrth edrych yn ôl yr wyf yn gweled yn glir nad oeddym mewn hwyl i fwynhau ein diwrnod yn yr hen ddinas enwog honno. Yr oedd y gwesty'n eithaf, yr oedd ystorm wedi clirio nid ychydig o'r gwres llethol, yr oedd yn bosibl cael cwpanaid weddol dda o de; yr oedd yno adfeilion Rhufeinig a thyrau heirdd o'r Oesoedd Canol; ac y mae pawb wedi clywed am Eglwys Gadeiriol ddigymar Saint-Front, ar ddull Eglwys y Ddoethineb Santaidd yng Nghaer Cystennyn, neu Eglwys Farc yn Fenis. Oddi mewn, heb liwiau ac aur San Marco, yr oedd yn welw ac oerllyd, ond oddi allan, wrth edrych arni o'r tu draw i'r afon, yr oedd yn ddarlun anarferol

[1] O'r *Llenor*, VII, 4.

hardd : darn o'r dwyrain wedi ei drawsblannu i ganol gwyrddlesni Ffrainc. Ond er mwynhau'r rhain (a phethau eraill nad oes le i'w henwi) yn rhyw hanner-effro, gyda'r ymennydd yn hytrach na'r galon, yr oedd yn wir dda gennym weled amser y trên yn dyfod o'r diwedd, a ninnau ar ein ffordd i Brive. Ac y mae'n arwydd go awgrymiadol mai dyma a ddywedais wrth lanio yno : " Wel, diolch i'r nefoedd, 'does yma ddim byd i'w *weld* yma! " Eisiau gorffwys oedd arnom.

Y mae gan Brive un o westai enwocaf Ffrainc, ac aethom yno ar ein hunion, costied a gostiai. Heb ofer ymgecru, gadawsom iddynt ein harwain i ystafell fawr hardd, â baddon ynddi, a'i ffenestr yn wynebu'r ardd sy'n un o elfennau enwogrwydd ŷ tŷ. Teimlem ei bod yn gyfiawn i ni fod yn afradlon am unwaith. Ymdrochi mewn dwfr chwilboeth, a mynd i lawr i'r ardd lle'r oedd y cinio wedi ei hulio. Ac un o'r pethau cyntaf ar y rhestr oedd *raie au beurre noir*—anghofiais grybwyll i ni orfod bwyta ohono ym Mhêrigueux hefyd y noson cynt. Sôn am fywyd cath! A chyn i'r cinio bron ddechrau, dyma ystorm ddychrynllyd o fellt a tharanau, a phawb yn rhedeg i mewn am ei fywyd. Rhywfodd, teimlem nad oedd Rhagluniaeth yn gwenu arnom y tro hwn.

Ni bu'n dda arnaf yn oriau'r nos, ac erbyn bore drannoeth yr oedd yn hollol glir nad oedd y rhaglen a dynnwyd allan wythnosau yn gynt, rhwng ceisio rhagflaenu ystrywiau arholwyr y Bwrdd Canol a cheisio deall y ddeunawfed ganrif, yn mynd i weithio y diwrnod hwnnw. Ar y rhaglen yr oedd : " gadael Brive gyda'r trên 8-30, treulio'r bore ym Martel, mynd ymlaen i Rocamadour yn y prynhawn." Ond, ysywaeth, nid oedd ond ystelcian ar hyd heolydd deiliog Brive, a syllu ar ei siopau, a chil-edrych yn hanner marw ar ei heglwys—eglwys eithaf da, o ran

hynny. Ciniawa ar dôst, a dwfr o Vichy. "Efallai y gwna tro mewn modur les i ni." Llogwyd y modur, a chafwyd taith wirioneddol ardderchog: bryniau uchel y Corrèze, aroglau eithin a thân coed, castell hardd Turenne ar fryn cribog, hen dref Collonges, o dywodfaen coch, Beaulieu hyfryd ar lan Dordogne, gyda'i habaty godidog, abaty Cisterciaidd sobr Aubazine â cheunentydd rhamantus o'i amgylch. Teimlem yn well. "Yfory, gellir symud. Gadawn Fartel allan—nid yw'n werth cael yr hatling olaf o'r rhaglen—ac awn gyda'r trên 12-30 i Rocamadour."

Daeth yfory, a minnau'n waeth o lawer. Sôn am alw meddyg i mewn. Ond ni fynnwn hynny, a chytunwyd i chwilio am fferyllydd. Yr oedd yn ddydd Sul, a'r fferyllydd agosaf wedi cau. Ond, yn ôl defod synhwyrol Ffrainc, y mae un fferyllydd ym mhob tref yn agor ei siop ar y Sul, ac y mae hysbysiad yn ffenestri'r lleill pwy sy'n agored am y tro hwnnw. Cafwyd hyd iddo —yn ymyl y stesion: "fferyllydd o'r dosbarth blaenaf," meddai drws ei siop. Holodd fi'n fanwl. Yna, potel: "yfwch lond llwy fwrdd o hwn bob awr." A blwch: "llyncwch un o'r rhain gyda phob pryd." "Ydw' i i fwyta neu beidio?" "Ydych, yn gymedrol—ond peidiwch ag yfed dim llaeth." Nid oeddwn, fel mater o ffaith, wedi bwriadu yfed dim llaeth. Yr oedd yn amlwg bellach nad oedd wiw mynd i Rocamadour, os oedd dyn i yfed ffisig o lwy fwrdd bob awr. Aethpwyd yn ôl i'r gwesty, gyda'r botel a'r blwch. "Elixir" oedd yn y botel. Ar y label yr oedd dwyreiniwr urddasol (gyda barf big a mwstas hynod Ffrengig) yn yfed yr Elixir allan o'r botel, mewn gardd lawn o flodau, o flaen *mosque*. Gwisg syml—twrban a llodrau pen glin yn rhesi coch a gwyn. Cefndir aur y tu ôl i'r *mosque*. Yr oedd peth amheuaeth pa un ai gloddesta ar yr Elixir ai ynteu cyflawni hunanladdiad ar lawnt y capel megis, a

olygid. Sut bynnag, agorwyd y botel : blas " niclas bôn " (*Spanish juice*, yn y Bala) ac aroglau paregoric oedd arno. Ond yr oedd un broblem wedi ei datrys : os oedd yn iawn i ddwyreiniwr pendefigaidd lyncu'r Elixir allan o'r botel mor ddifanars, nid oedd raid i ysgolfeistr distadl fenthyca llwy fwrdd gan y gwesty.

Yna chwiliwyd y blwch. Yr oedd llyfr bychan oddi mewn iddo. Dywedai hwnnw mai tabledi o *Bacillus Bulgaricus* oedd yn y blwch. Ymddengys bod rhyw ddoctor o Rwsia â'i enw'n diweddu mewn -tchkoff, wedi ei daro â'r syniad mai'r ffordd orau i sicrhau anfarwoldeb y corff dynol oedd llyncu " germau." Yn y modd hwn, meddai ef, gellid " newid llysieuaeth yr ymysgaroedd "—*modifier la flore intestinale*, os wyf yn cofio'n iawn. Peth newydd braidd i mi oedd synio am fy nhu mewn fel gardd i'w thrin. Y mae'n wir fod Voltaire wedi ein hannog yn rhywle i " drin ein gerddi " (*cultiver nos jardins*), ond yr oeddwn yn amau braidd ai hynny oedd yn ei feddwl, a chan nad wyf yn hoff o arddio, nid oeddwn yn hoffi'r syniad. Trawodd i'm meddwl y byddai i'r germau Rwsiaidd hyn, efallai, gyfnewid nid yn unig fy " llysieuaeth," ond fy holl natur. Beth pe bawn yn magu natur Slafonaidd ? Gwelwn fy hun yn ysgrifennu ystraeon byrion i'r *Llenor*, yn y dull Rwsiaidd. Un yn diweddu fel hyn, er enghraifft :

> Plannodd Tomos Ifan ei gyllell yng nghalon ei chwaer Catrin ; yna rhuthrodd allan i'r ysgubor ac ymgrogodd. Pan aeth Dafydd Ifan yno, a gweled corff ei fab, taflodd ei hun i'r llyn. Ni wyddai'r hen wraig Mari Ifan i ble 'roedd pawb wedi mynd. Arhosodd wrth y tân am oriau i'w disgwyl, a syrthiodd i gwsg. Cydiodd gwreichionen yn ei ffedog, a llosgwyd yr hen wraig yn lludw, a'r holl dŷ gyda hi. Y noson honno, gorlifodd Afon Twrch ei glannau, ac ysgubodd ymaith bob mymryn o lwch yr Hafod Isa'.

Gwelwn Kate Roberts a Thegla yn rhoi heibio i ysgrifennu mewn gwyleidd-dra di-obaith, a Dewi

Williams yn ymlapio mewn hugan ychwanegol o ddistawrwydd. Gwelwn y *Llenor* yn cael ei werthu wrth y dwsin gan hogiau yn strydoedd Caerdydd. Gwelwn fy hun yn cael fy ngwahodd i gyd-ysgrifennu drama gyda R. G. Berry—drama *gref*, a'r arwr yn yr olygfa olaf yn taflu bomb i ganol y seti tri-a-chwech.

Ond darfu'r breuddwyd hwn. Wedi'r cwbl, fy nheimlad greddfol i pan ddigwydd i mi weled germ ydyw sathru arno ar unwaith cyn iddo wneuthur dim drwg. Teflais y blwch i gornel yr ardd—ys gwn i sut " lysieuaeth " sy'n tyfu yno erbyn hyn ?

Amser cinio—tôst a Vichy fyth, a llwnc o baregoric, Trwy'r prynhawn pendwmpian yn yr ardd, gan gymryd arnaf ddarllen llyfr Jacques Bainville ar Hanes Ffrainc, yr oeddwn wedi ei brynu y bore hwnnw am hanner coron. Synnu'n ddioglyd paham y mae'n rhaid talu deuddeg a chwech amdano yn Saesneg. Dechrau gweled sut y mae prynu llyfr yn Lloegr yn cael edrych arno fel math o wastraff. Llyfr Henri Sée ar y ddeunawfed ganrif yn naw ffranc (1/6) ym Mharis y dydd o'r blaen, ond yn 10/6 yn y cyfieithiad Saesneg . . . Deffro . . . Fy nghicio fy hun i ddarllen pennod eto o Bainville . . . Deffro eto. Llais yn galw : " dowch allan i'r *pâtisserie* i gael tê! " Fel rheol, y mae'r gair " tê " fel utgorn arian, ond na, dim heddiw. Slwmbran drachefn. Gorfod deffro, ymhen amser, gan fod y byrddau cinio hwyr yn cael eu gosod yn yr ardd. " Ydech chi am ginio ? " Nac oeddwn. Atgofiwyd fi yn amyneddgar fy mod i fwyta " yn gymedrol." Ond ni allwn oddef aroglau garlleg a thomato, a golwythi o gig llo. I fyny â mi i'm hystafell, eto yng ngolwg y goleuadau ac yn sŵn y dysglau a'r sgwrsio difyr. Gwelwn fy nghydymaith yn eistedd mewn urddas unig, ac euthum allan â nofel iddi i basio'r amser.

Gwobrwywyd y weithred dda. Erbyn i mi fynd yn fy ôl yr oedd yr awdurdodau wedi cau'r dellt, ac wedi agor y gwely. Yr oedd y demtasiwn yn ormod. Tynnais amdanaf, ac i mewn â mi. Nid i gysgu, wrth gwrs. Rhedai fy meddwl ar " y cinio gadd ei wrthod." Y fath fwyd sâl oedd yn Ffrainc! Rhyw dameidiau gwirion, ac olew ar eu pennau o hyd. Mor hyfryd fuasai eistedd wrth fy mwrdd fy hun gartref : platiaid da o frechdannau, platiaid da o gig oer, potiaid *mawr* o dê! Toddais yn llymaid, fel yr Iddewon gynt ar lan afonydd Babilon. Ac yn y fan, ysbrydolwyd fi i farddoni.

Unwaith yn fy oes y digwyddodd hyn i mi o'r blaen : pan oeddwn tua'r deg oed, os wyf yn cofio'n iawn. Y pryd hwnnw, cenais hanner dwsin o benillion (II.II.II.II. chwedl y Llyfr Emynau) ar " Weledigaeth Eseciel." Rhag i neb fagu gobeithion di-sail, gwell i mi ychwanegu fy mod wedi eu llosgi ers deugain mlynedd bron. Yr un dynged a orfu ar fy " Esboniad ar Lyfr yr Actau "—gwaith anorffenedig, yn null Jâms Hughes, nad aeth ymhellach na'r ail bennod. Nid wyf yn cofio ond y tamaid hwn ohono : " *A hwy* sef yr apostolion ; *a ymadawsant*, neu, a aethant ymaith . . . "

Gwelwch, felly, mai peth hynod anfynych yn fy hanes ydyw prydyddu. Yr ail dro hwn, fel hyn y cyffyrddodd â mi. Wrth feddwl am y dinasoedd enwog yr oeddwn wedi dyfod allan i'w gweled, ac ar y llaw arall am y brechdanau a'r cig oer mewn gwlad lle mae llo yn cael o leiaf ryw gymaint o siawns i dyfu i oed a synnwyr, disgynnodd fy nghof gwamal ar gywydd adnabyddus Horas, sy'n dechrau :

Laudabunt alii claram Rhodon aut Mitylenen, etc.

" Wel, dyma fi ar fy nghefn, a digon o amser o'm blaen—paham na allaf innau gywydda ? " Nid

oeddwn heb ymwybod fy mod mewn ardal lawn o enwau priod soniarus, na chofio gymaint o hwyl a gafodd Milton, er enghraifft, gyda rhai ohonynt :

> Jousted in Aspramont, or Montalban.

Ni wyddwn, ac ni wn ym mhle y mae Aspramont, ond yr oedd Montauban *ar y rhaglen*. A thrachefn :

> Where the great vision of the guarded Mount
> Looks toward Namancos and Bayona's hold.

Nid oedd Bayonne, y mae'n wir, ar y rhaglen, ond yr *oedd* Tarbes, sydd o fewn rhyw deirawr oddi wrthi. Yr oedd yr alwad yn hollol glir.

Wedi myfyrio ychydig, penderfynais ar Fesur Cywydd. Gwyddwn mai dawn brin sydd gennyf, a gwyddwn hefyd, o hir brofiad mewn darllen cywyddau, fod i'r mesur hwnnw un fantais fawr : gellir dywedyd llai ynddo a chymryd mwy o amser ac o le i'w ddywedyd nag mewn unrhyw fesur arall. Cofiais hefyd am y cyngor gwerthfawr y byddaf beunydd yn ei roddi i'r bechgyn acw ynglŷn ag ysgrifennu traethawd : " gwnewch gynlluṇ i ddechrau." Lluniais y cynllun :

A. 1. Caiff Eraill—dynion gwynion, duon, melynion, etc. ; dynion iach, dynion claf, etc. ; cyfoethogion, tlodion, etc., etc.
2. Foli—(*a*) Cyfystyron y gair " moli " — canmol, clodfori, etc.
(*b*) Offerynnau'r moliant—y nabl, y ddectant, y dwlsimer, etc., etc.
3. Agen
4. Montauban } (tua deg llinell am bob un.)
5. Cahors
6. . . . 30. Trefi eraill : yr un modd.

B. Ond,
Gwell gennyf i dan wahanol amgylchiadau
Foli—cyfystyron ac offerynnau fel o'r blaen.
Ac felly ymlaen.

Dyna'r cynllun. Nid oedd yn awr ond canu'r cywydd. Yn y fan hon y dechreuodd pethau fynd o chwith. Yn fy myw ni allwn gynghaneddu. Trwy ryw anffawd, nid oeddwn wedi dyfod â *Cherdd Dafod* gyda mi—o ran hynny, efallai y buasai swyddogion y doll yng Nghalais wedi gafael ynddo fel llyfr Bolseficaidd. Nid oedd dim i'w wneuthur ond rhoi'r bwriad i fyny.

Ail gychwyn; y tro hwn mewn mesur Baled. Cefais gryn arddeliad y tro hwn. Fel hyn :

Caiff dynion eraill ganu clod
Agen ar lan Garonne;
Toulouse, Cahors a Montauban,
A thyrau Carcassonne;
Auch, a Lectoure ar ben ei bryn,
Ac Albi a Narbonne . . .

Y mae'n wir, fel mater o ffaith, nad oeddym yn bwriadu mynd i Narbonne, nac i Carcassonne. Ond yr oeddym *wedi bod* yno ddwy flynedd yn ôl, ac felly teimlwn hi'n hollol gyfreithlon ynof adael i ddynion eraill ganu eu clod. Ar y llaw arall, er cymaint y demtasiwn i weu cwpled arall yn diweddu gyda "Bayonne," yr oedd gennyf gydwybod. Nid oeddym yn mynd i Bayonne y tro hwn, ni buom yno erioed, nid ydym, am a wn i ar hyn o bryd, yn meddwl mynd yno byth. Na : y mae'r sawl a fagwyd ar *Curtis's Outlines of English History* wedi ei ddisgyblu i lynu wrth y gwir noeth.

Ond yr oedd yn bryd troi at hanner arall y gwaith :

domus Albuneae resonantis,
et praeceps Anio, ac Tiburni lucus, et uda
mobilibus pomaria rivis,

medd Horas; ac yr oedd yn rhaid i minnau ddilyn ei esiampl. Ond dyma'r drwg—*nid oes gan y pentref yr wyf i 'n byw ynddo enw o gwbl.* Ei "enw" swyddogol ydyw "The Cardiff Workers' Co-operative Garden Village"—beth yn y byd mawr a wnâi bardd o hynny? Y mae'r enw a roddir arno yn gyffredin, fel chweched gŵr y wraig o Samaria, heb berthyn

iddo'n gyfreithlon—enw ffermdy sydd filltir o leiaf oddi wrtho. Cofiais fod gan y Golygydd gyfeiriad ato yn *Ynys yr Hud*, a gloywais am ennyd, ond yn anffodus cofiais y geiriau :

. . . Morgannwg lon.
Mae yno dŷ rhwng gerddi
Yn ymyl tre Caerdydd.

" Tŷ rhwng gerddi " yn wir! Tro sal : *osgoi anhawster*, onid e ?

Ymddengys i mi gysgu wedyn. Deffrowyd fi gan gerddorfa oedd yn ledio dawns yn yr ardd islaw. Rhywfodd, teimlwn yn sioncach. Gwrandewais yn eithaf hapus am awr neu ragor, a chysgais wedyn. Yn y bore, rhwng yr Elixir a'r hir ddirwest yr oeddwn yn wirioneddol well. Mentrasom gyda'r 12-30 i Rocamadour, i weled bedd Zaccheus y Publican. Erfyniaf arnoch beidio â mynd yno, neu o leiaf, os ewch, llogwch fodur, a gyrrwch yn hamddenol trwy'r pentref. Y mae'r olygfa yn un o'r pethau rhyfeddaf yn y byd—tai ac eglwysi yn crogi fel nythod gwenoliaid ar ochr clogwyn serth. Ond peidiwch ag ymweled â'r eglwysi a'r ogof—y mae pererindota, fel arfer, wedi lladd pob mymryn o'u rhamant.

Drannoeth, bron yn holliach, i Cahors, hen " ddinas yr usurwyr," y mae ei thrigolion yn Uffern Dante. Avignon fechan yw Cahors, lle hyfryd dros ben, a phorth ei heglwys gadeiriol ar ei ben ei hun yn werth o leiaf ugain Rocamadour. Y noson honno bwyteais yn berffaith hapus bastai yn llawn o gaws llyffant ac afu gŵydd. Cawsom wedi'r cwbl weled pobman bron oedd ar y rhaglen. Ond ni chyffyrddodd yr Awen â mi byth wedyn, ac mi gofiaf Montauban o hyn allan nid am ei sifalri a'i thwrneimeint, na hyd yn oed am ei hen bont o briddfeini cochion, a bwâu ei marchnadfa, ond am i mi orfod aros deugain munud wrth y cloc yn y banc yno cyn gallu newid pumpunt.

Godre'r Pyreneau.

Er fy magu yng nghanol mynyddoedd, ac er imi'n ddigon defosiynol ddringo i bennau amryw ohonynt, nid yw "mynydda"—os dyna'r gair am yr hyn a eilw ein cymdogion yn *mountaineering*—erioed wedi apelio ataf. Y dydd o'r blaen, darllenais yn y *Llenor* ysgrif gan un a fu'n dringo rhai o'r Pyreneau : hanes am wyntoedd ystormus, am eira'n lluwchio, am godi yn oriau mân y bore i gychwyn ar y daith. Pob hwyl iddo! Mwynheais ei ysgrif yn fawr—wrth ei darllen o flaen y tân—ac edrychaf ymlaen at ragor o'i waith. Ond amdanaf i, y peth nesaf i ddringo'r Pyreneau a wneuthum i erioed oedd mynd mewn "siari" o Lourdes i Gavarnie, bwyta cinio harti (a drud iawn) yno yn yr Hôtel de Vignemale, ac eistedd ar y lawnt o flaen y gwesty hwnnw am y gweddill o'r prynhawn i aros nes doi'r amser i'r siari gychwyn yn ei hôl. "Ond oni welsoch chwi'r Cirque de Gavarnie?" Do, 'nenw'r annwyl, syllais arno trwy wydr sydd wedi trampio Ffrainc gyda mi am flynyddoedd, ac eto, am ryw reswm, yn ennyn drwgdybiaeth di-dor ym mynwesau publicanod Dover a Folkestone.

Byddaf yn cael llawer o hwyl gyda'r hen wydr. Weithiau, byddaf yn ei wisgo'n lwmp o dan fy nghot uchaf : bloedd fuddugoliaethus y swyddog, "What have you got *there*?" Bryd arall, byddaf yn ei guddio yn fy mag, dan dwr o gadachau poced (neu facynod poced, os mynnwch), a'r swyddog druan yn llyfu ei wefusau gan feddwl ei fod o'r diwedd wedi dod o hyd i helfa sylweddol o *cocaine* neu botel o ddyfroedd lladrad. Os cariaf ef, yn wyneb haul, tybir mai gwydr o'r Almaen ydyw, a holir fi'n fanwl yn ei gylch. Un tro, wedi ei basio trwy'r doll, rhoddais ef i'm cydymaith i'w gario, ac ar ei ffordd i'r trên, disgynnodd llaw y gyfraith arni hithau. Yn ffodus,

y mae ar ferched lawer iawn llai o arswyd pobl y doll nag sydd ar ddynion, a chiliodd y swyddog hwnnw'n bur fuan, â golwg syn-fyfyrgar arno. Yn sgil y gwydr, yr wyf wedi dod â mwy nag un peth trwy'r doll yn ddiddamwain—y maent mor brysur yn ymboeni yn ei gylch ef nes methu gweled dim arall. Ond, fel mater o ffaith, nid wyf yn cofio imi erioed wneuthur rhyw lawer o ddefnydd ohono, at ei bwrpas ei hun, yn Ffrainc, a dyna'r paham yr wyf yma mor awyddus i achub ei ben trwy dystio fy mod mewn gwirionedd wedi sbïo drwyddo unwaith ar afonydd ia y Cirque de Gavarnie. Eithr am fynd gyda'r dyrfa, bob un ar gefn ei ful, o Gavarnie at droed y Cirque, heb sôn am *ddringo*'r Cirque—na wnaf, yn bendant. Y mae mynyddoedd yn bethau digyffelyb fel cefndir darlun, ond croeso calon i'r grug (pe bai grug hefyd ar y Pyreneau noethlwm) a'r adar mân gael byw arnynt mewn perffaith lonyddwch.

Felly, *godre*'r Pyreneau—godre gogleddol, neu Ffrengig, y Pyreneau—fydd dan sylw yn y bennod hon. Soniais o'r blaen (tud. 57) am y mur mawr o fynyddoedd sy'n ymestyn o'r Jura i'r Cevennes. Y mae cwymp serth y mynyddoedd hynny i'r deddwyrain, a'u disgyniad araf i'r gogledd-orllewin. Felly hefyd am yr Alpau. Ond y mae'r Pyreneau, fel Bannau Brycheiniog, yn serth ar yr ochr ogleddol, a rhyngddynt â'r Cnewyllyn Canol (*Massif Central*) y mae gwastadeddau eang Gasconi a Languedoc,[1] hen wlad Aquitania, lle'r ymuna dyfroedd y Pyreneau yn afon fawr—Garonne—ar eu ffordd i'r môr islaw i Bordeaux. Bu'r gwastadedd mawr hwn erioed yn gyrchfa pobloedd, a'i afonydd yn briffyrdd diwylliant.

[1] Yn llythrennol, "iaith *oc*"—y wlad sy'n dywedyd *oc* am "ie." Yng Ngogledd Ffrainc, y gair am "ie" oedd *oïl*, neu, yn Ffrangeg heddiw, *oui*. Dyma'r gwahaniaeth hawddaf i'w gofio rhwng y Brofensal a'r Ffrangeg.

Yng nghysgod y Cnewyllyn Canol, gallodd am ganrifoedd ei gadw ei hun allan o afael brenhinoedd Gogledd Ffrainc—ran ohono trwy ymostwng mewn enw i frenin Lloegr, a oedd yn rhy bell i fod yn deyrn. A thu hwnt i'r mynyddoedd gwynion uchel yr oedd Ysbaen—dros eu bylchau neu heibio i'w deupen y torrai byddinoedd y Mohamedaniaid i mewn i wastadedd Garonne : ar y llaw arall, aml ddigon oedd rhuthr gwŷr y Gogledd i helpu Castile a Navarre ac Aragon yn eu hymdrech â'r Sarasen. " Pobl y ffin," onid e ? Nid rhyfedd iddynt ddatblygu llên flodeuog, llên sy'n gorwedd yn y pen draw dan wreiddiau gwaith Dafydd ap Gwilym. Nid rhyfedd iddynt yn yr Oesoedd Canol fagu rhyw fath o Biwritaniaeth (" heresi'r Albigeois ") a foddwyd mewn gwaed ; nid rhyfedd chwaith i'r Biwritaniaeth honno atgyfodi'n Brotestaniaeth ffyrnig yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ac nid rhyfedd lliaws a chyfoeth a bywyd ystormus eu trefi, a cheinder eu saernïaeth a'u cerflunio.

Y mae pen gorllewinol yr ardal hon—Gasconi a Béarn, y triongl rhwng Bordeaux, Bayonne, a Lourdes —yn fwy hysbys i lawer o'm darllenwyr nag ydyw i mi ; bu llawer Cymro'n chwilio am iechyd anianol yn Pau neu Biarritz, neu am iechyd ysbrydol yn Lourdes ; a mi adwaen gyfeillion ieuainc a fu'n cynnal brawdgarwch dwy deyrnas trwy gicio pêl droed yn yr ardaloedd hyn. Ac ym mhen arall y Pyreneau—Foix a Roussillon—y mae gwlad ddiddorol hanner-Ysbaenaidd nad wyf hyd yn hyn wedi gallu cyrraedd yn nês ati na chaer Carcassonne. Ychydig nodiadau fydd gennyf yma ar rai o ddinasoedd y canolbarth, ar y gwastadedd, ac yn hen Iarllaeth Comminges wrth droed y Pyreneau.

Dinas Toulouse, wrth gwrs, ydyw calon yr ardal hon, a byddai ar lawer cyfrif yn naturiol inni gychwyn ein taith gyda hi. Ond gan ein bod yn dyfod o'r

gogledd, bydd braidd yn fwy hwylus inni ddisgyn ym Montauban i ddechrau ar ein gwaith. Er amled y sôn amdani mewn hanes a chwedl, tref gymharol newydd ac anniddorol yw Montauban heddiw. Ond y mae ffordd haearn fawr y *Midi*, " Lein y De," (Cette - Narbonne - Carcassonne - Toulouse - Montauban - Agen - Bordeaux) yma'n cyfarfod â ffordd haearn " Orleans " (Paris - Orleans - Limoges - Brive - Cahors - Montauban), a dyma'r cyfle inni i ymweled ag Abaty enwog Moissac, ar ein ffordd i Agen.

Lle bychan dymunol ydyw Moissac, a buasai'n dda inni fod wedi trefnu i dreulio noswaith yno yn hytrach nag ym Montauban. Ond fel yr oedd pethau, nid oedd amser i ddim ond yr Eglwys, a thamaid brysiog o fwyd, a fwytawyd, fel mater o ffaith, yng nghlochty'r eglwys ei hun. Y mae mynachlog Moissac, mewn rhyw ffurf arni, mor hen â'r seithfed ganrif, ond bu math o ailenedigaeth arni yn yr unfed ar ddeg, dan ddylanwad Diwygiad Cluni. Yn yr amseroedd enbyd ar ôl dyfod Protestaniaeth i Ffrainc, chwalwyd y rhan fwyaf o'i hadeiladau, ac nid erys bellach ond yr Eglwys a'r clas. Ac y mae'r rhan fwyaf o'r Eglwys hithau yn waith y bymthegfed ganrif—eglwys Gothig eithaf da, o frics cochion : yr ydym mewn gwlad lle y mae carreg dda at adeiladu yn bur brin. Ond yr hyn sy'n tynnu teithwyr i Moissac ydyw'r clas a'r clochty. Anaml y gwelir hyfrytach llecyn na'r clas. O gwmpas y lawnt flodeuog, â choeden fawr ddeiliog yn ei chanol, rhed pedair rhes o golofnau dwbl, yn cynnal pendist y clas. Bwâu Gothig erbyn hyn sy'n pwyso ar y colofnau, ond cadwyd yr hen gapanau cerfiedig Romanaidd o'r ddeuddegfed ganrif. Cytuna pawb fod hwn yn un o'r tri chlas hynotaf yn Ffrainc. Y ddau arall ydyw clas Eglwys Trophimus yn Arles, a chlas yr hen Eglwys Gadeiriol yn Elne, ym mhen dwyreiniol y Pyreneau. Ni welais Elne, ond nid oes

gennyf unrhyw betruster nad yw Moissac yn tra rhagori ar Arles, er cystal yw hwnnw.

Y mae cryn ddadl ymysg hynafiaethwyr ynghylch achau'r cerfluniau hyn. Tybia rhai mai ffrwyth dylanwad Bwrgwndi ar Languedoc ydynt—dylanwad a lifodd i mewn yn sgil lledaeniad Urdd Cluni. Nid oes le i amau pwysigrwydd y dylanwad hwn. Ond y mae'n bur amlwg fod yma hefyd awel o fyd llawer mwy dieithr na Bwrgwndi. Y mae yma bethau nad yw'n hawdd eu priodoli i ddefodau arluniaeth Caer Cystennyn a dreiddiodd trwy'r Eidal i ddwyrain Ffrainc; nac ychwaith i efelychiad uniongyrchol o fodelau Rhufain, er bod digon o'r rheini hefyd yn agos at law yn adfeilion trefi Rhufeinig Dyffryn Garonne. Digon tebyg mai o luniau lliw y llawysgrifau celfydd y copïwyd Gwaredigaeth Pedr o'r Carchar ar gapan y golofn yma, neu'r Briodas yng Nghana Galilea ar y capan acw. Ond yr adar rhyfedd yma, y rhwydwaith cywrain, y patrymau blodeuog? O ble ond o'r tu hwnt i'r Pyreneau, oddi ar y cistiau cedr cerfiedig a'r blychau ifori a'r tapestrïau a gyrchid dros y mynyddoedd o'r Ysbaen? Dyma gelfyddyd Arab-aidd, na adewai ei chrefydd iddi ddynwared wyneb dyn, nes ei gorfodi i arfer ei holl ddawn ar *batrymau*, ar *addurn* yn hytrach na phortread. Maith yw'r ffordd o Fagdad, o'r Cairo, o Gordova hyd yn oed, i'r dref fechan dawel ar aber Tarn; ond pwy na ŵyr mor bell y cerdd dylanwadau? Er enghraifft, oni chlybuwyd atsain o farddoniaeth Dyffryn Garonne ei hun ym Maesaleg bell, a thrwst brwydrau Bord Gron Caerlleon-ar-Wysg hithau draw yn Ynys yr Ia?

Ond heblaw'r clas, dyma'r clochty. Y mae'n amlwg fod hwn erioed wedi bod nid yn unig yn glochty ond yn amddiffynfa; nid oes esboniad arall ar gadernid ei fwâu a'r folltau dan ei do. Ond yn y drydedd ganrif ar ddeg (oes o ryfeloedd " crefyddol "

gwaedlyd yn y fro hon) ni thybiwyd bod hyd yn oed hyn yn ddigon, a chodwyd math o ragfur castellog o'i flaen. Ac mewn canlyniad i hyn, symudwyd y Porth Mawr o ben gorllewinol yr eglwys, ac ail-adeiladwyd ef ar yr ochr ddeheuol. Yno y mae heddiw, a thu hwnt i bob dadl, ef yw'r peth ardderchocaf yn y Deheudir. Yn wir, oni bai am ogoniant pyrth Chartres yn y Gogledd, buasai gan borth Moissac hawl bur gref i'r lle cyntaf yn yr holl wlad, hyd yn oed â chofio am Amiens a Reims ac Eglwys Fair ym Mharis. Ar y tympan uwchben y drysau, wele Grist " yn ei Ogoniant," gyda'r Angylion, a'r Llyfr, a'r Pedwar Anifail, a'r Pedwar Henuriad ar Hugain, fel y gwelodd Ioan y Difinydd hwy, bob un â'i goron ar ei ben a'i ffiol neu ei offeryn cerdd yn ei law. Ar y garreg wastad o dan y tympan, rhes o rosynnau mawrion. Ar y piler rhwng y ddau ddrws, tri chwpwl o lewod, yn groesau uwch bennau ei gilydd. Yn ffrâm o gylch y cwbl, rhesi o batrymau,—dail, rhwydwaith, etc. Ar y muriau o boptu, cyn dyfod at y porth ei hun, Mabinogi Crist (y Cyflwyniad yn y Deml ; y Ffoi i'r Aifft ; y Doethion o'r Dwyrain ; Cyfarchiad Gabriel ; yr Ymweliad ag Elisabeth), a hanes y Gŵr Goludog a Lasarus. Y mae'r peth tu hwnt i allu pin ac inc i'w ddisgrifio ; nid oes ond darlun da a wna unrhyw fath o gyfiawnder ag ef. Yn ei fyd ei hun, y mae'n ogyfuwch â gwaith gorau'r cerflunwyr Athenaidd, a welir er enghraifft yn yr Amgueddfa Brydeinig.

Ond y mae'n rhaid gadael Moissac a mynd ymlaen i Agen. Y tro hwn cawn y fraint o deithio yn y Dosbarth Cyntaf, gan fod y siwrnai'n rhy fer, yn ôl rheolau'r ffordd haearn, i gyfiawnhau i deithwyr Ail Ddosbarth ddefnyddio'r trên cyflym. Syniad eithaf rhesymol Ffrainc yw mai pethau i bobl yn mynd ffordd bell ydyw trenau expres, oni bo dyn yn barod

i dalu am hyn-a-hyn o filltiroedd, neu, weithiau, i godi tocyn o ddosbarth uwch. Er enghraifft, sicr y gwaherddid yno ddefnyddio'r *Paddington Express* i deithio o Gaerdydd i Gasnewydd. Sut bynnag, bu raid inni deithio gyda'r goludog, ar glustogau esmwyth, o Moissac i Agen. Dinas fechan ddymunol dros ben yw Agen. Nid oes, hyd y gwn i, unrhyw hynodrwydd hanesyddol iddi, er cofio hefyd mai ynddi y ganed yr ysgolhaig enwog Scaliger. Ac nid yw ei hadeiladau chwaith yn ddim allan o'r cyffredin : Eglwys Gadeiriol eithaf da ; ambell hen dŷ urddasol. Ond y mae iddi ryw hoywder. Yn un peth, anaml, yn y Deheudir poeth, y gwelir tref mor ddeiliog—coed ym mhobman. Hyfryd eto yw'r bryn gwyrddlas uchel y tu cefn i'r dref ; a theg yw'r olwg (yr olwg gyntaf i ni) ar hen afon enwog Garonne. Eisteddasom am oriau dan y coed ar lan yr afon, mewn diogi dedwydd. A mynnai'r dyn anianol hefyd ei hawliau : lle da yw Agen am deisennau, a llawn yw ei siopau o " eirin Agen." Clywais fy nain rywdro'n gofidio nad oedd wedi rhyngu bodd i'r Brenin Mawr greu eirin heb gerrig ynddynt. Y mae pobl Agen wedi dyfeisio efelychiad go dda. Tynnir y garreg allan, yna gwthir cnawd eirin eraill i mewn i'r gwagle ; a dyna ichwi eiren gymaint ag wy, yn sylwedd bob tamaid ohoni!

Bellach, trown ein hwynebau tua'r De, gan ddilyn lein groes o Agen i Tarbes. Wrth gychwyn yn weddol fore, gallwn achub teirawr yn Auch, er na allwn, ysywaeth, ond cipio golwg o ffenestr y trên ar Eglwys Gadeiriol Lectoure, ar gopa bryn uchel. Yma, gyda llaw, yng ngwaelodion Ffrainc, yr ydym mewn gwlad sydd wedi glynu wrth draddodiad glannau Môr y Canoldir yn hyn o beth—y mae esgob ym mhob tref o faint gweddol. Neu o leiaf yr *oedd* yno esgob, o ran bu cryn newid ar ôl Chwyldro 1789 : er enghraifft, diddymwyd Esgob Agde, nad oedd ganddo lawn

ugain o offeiriaid dan ei ofal! Ac felly y mae Eglwysi Cadeiriol (fel y mae'r darllenydd yn ddiamau yn hen gwyno) yn bethau digon cyffredin. Y mae Auch, er nad yw ond tref o faint Caerfyrddin, yn Archesgobaeth, a'i hanes, meddir, yn mynd yn ôl mor bell â'r bedwaredd ganrif. Dyma'r hen ddinas, o'r diwedd, ar glogwyn serth ar lan afon Gers, a'r stesion ar y gwastad, am yr afon â hi. Wedi rhoi ein bagiau dan glo, allan â ni i'r haul tanbaid a thros yr afon fechan; a dyma olwg ddigon i dorri calon neb. Oblegid, yn llythrennol, *grisiau* ydyw'r "heolydd" i fyny o'r afon i'r ddinas. Yr enw lleol arnynt yw *pousterles*—yr un gair a'r Saesneg *posterns*; hen ddisgynfeydd o ddrysau yn y mur, i lawr i lan y dŵr. Dyma'r *Escalier Monumental*—232 o risiau! Neu'r *Pousterle des Oumettes*—nid yw hwn ond 132 o risiau, ond y rheswm am hynny yw ei fod yn syth fel saeth, yn lle bod yn drugarog igam-ogam fel ei frawd mwy moniwmental. Hanner awr wedi naw yn y bore, a'r haul yn union *ar* y grisiau! Ond sibrwd rheswm: "mae'n rhaid fod yma ryw ffordd i gerbydau fynd i fyny"; chwiliwyd am honno, a chafwyd ei bod yn bosibl rowndio y tu cefn i'r ddinas, ac esgyn yn esmwythach—ac yn y cysgod.

Er hyned yw traddodiadau Eglwys Auch, nid yw'r adeilad presennol yn hŷn na diwedd y bymthegfed ganrif. Gwyddoch felly beth i'w ddisgwyl—rhwysg ac ysblander bore'r Dadeni, A byddai'n anodd iawn cael rhagorach esiampl ohonynt. Y mae'r ffenestri lliw, er enghraifft, yn gampweithiau'r grefft honno yn y cyfnod rhwng symlrwydd yr Oesoedd Canol a diffyg ysbrydoliaeth oes Lewis Fawr. Ond y mae hyd yn oed y ffenestri gwych yn gorfod ildio i'r gwaith derw cerfiedig yn y côr: chwe ugain o seddau i'r archesgob a'i ganoniaid, a phob un ohonynt yn gampwaith. Nid oes ond côr Amiens a ddeil ei

gymharu ag Auch ; y mae St. Bertrand de Comminges (y cawn sôn amdano'n nes ymlaen) yn llawer llai ei faint, ac felly, yn y math hwn o waith, yn llai o orchest, a La Chaise-Dieu yn symlach ac yn sobrach.

Bwriasom gryn amser yn porthi brwdfrydedd yr hen glochydd diddan yn y côr. " Mae gynnon ni gôr heb ei fath, 'does dim dowt am hynny. . . . ydech chi'n mynd i St. Bertrand yn nes ymlaen? . . . wel, mi weles *i* hwnnw, a mi welech chithe sut le sal ydi o . . . Amiens? . . . naddo, fum i ddim yno . . . yden, mae nhw'n *deud* fod hwnnw'n gôr go lew, ond . . . 'roedd yma Broffesor o rywle yn Lloeger . . . rhoswch chi . . . ie, Oxford oedd enw'r lle, yma y llynedd, ac mi 'roedd o 'n deud na welodd o *'rioed . . .*" O'r diwedd, allan â ni i'r haul. Yr oedd yn amser cinio erbyn hyn, a phob creadur byw yn Auch wedi cilio o'r golwg, a llenni ar bob ffenestr. Yr oedd yn rhy boeth inni feddwl am fynd i westy, ac ymlenwi â seigiau breision. Ond wrth edrych dros ymyl canllaw'r ysgwâr o flaen yr eglwys, gwelem wrth droed y grisiau serth dair neu bedair o hen wragedd yn cysgodi, â'u basgedi ffrwythau gyda hwy. Disgyn y grisiau, a phrynu cyflawnder o'r ffrwythau ; yna, i mewn i siop fara am ddwy dorth fechan, ac wedyn chwilio am le cysgodol i eistedd i lawr. Ni raid i ddyn byth chwilio'n hir am hynny mewn tref Ffrengig : yn ein hymyl yr oedd rhodfa ddeiliog ar hyd ochr y llannerch ffair, a bu gwledda a gorffwys ar un o'i meinciau. Wedyn, cychwyn am y trên. Ond yr oedd gan Auch rywbeth eto ynghadw inni. Gan ei bod yn llawer haws disgyn grisiau na'u dringo, yr oeddym am fynd i lawr ar hyd yr Escalier Monumental, sy'n cychwyn wrth dalcen dwyreiniol yr eglwys. Ac wedi mynd heibio i'r eglwys, a chyrraedd y terras y tu ôl i'w chôr, dyma weledigaeth sydyn. " Ie, 'does dim dwywaith—dacw nhw! " Ar y gorwel, llinell hir

o bigau glesion, ag ysnotyn gwyn arnynt yma ac acw. Y Pyreneau, o'r diwedd.

Unwaal boeth gyraglyd o Auch i Tarbes. Pasio stesion o'r enw "Ynys Noa"—gwybod yn dda am gapel Bedyddiol o'r enw Ararat yng Nghymru. Tybed a oes Bedyddwyr yn yr ardaloedd heretica'dd hyn? Cyrraedd Tarbes, yn ddwys annisyr. Yr oeddym am wneuthur Tarbes yn ganolfan am dridiau neu bedwar, felly yr oedd oewis gwesty yn waith pwysig. Mynd i westy ar gyfer y stesion,—gwesty á gair da iddo yn rhestr y *Touring Club de France*—dylai pawb sy'n teithio yn Ffrainc ymuno á hwnnw. Ond yr oedd y gwesty'n fychan, yr ystafelloedd yn boethion, a'r stesion (y mae Tarbes ar y briffordd o Bayonne i Toulouse) yn llawer rhy agos, ag ystyried mor anodd ar y gorau yw cysgu'n gyffordd us ar noswaith o haf yn y De. "Eydd yn rhatach yn y pen draw inni dalu mwy." Aethpwyd i bnf westy'r ddinas, yn ei chanol, ar lecyn uchel agored yng nghongl y prif ysgwar. Yno yr oedd popeth yn iawn: baddon yn yr ystafell braf, cyflawnder o ddwfr poeth, a'r Pyreneau'n un rhes o flaen ein ffenestri—onid yw'n gabledd gymysgu pethau fel hyn!

A hyn, yn wir, yw'r cwbl eydd i'w ddywedyd am Tarbes. Er enwocsd yw, y mae, erbyn hyn, wedi mynd yn dref o ffatrioedd, a'n hatgof pennaf amdani yw'r llwch arswydus—gwyntoedd y Pyreneau yn ei yrru i'ch llygaid yn mhobman. Eto, y mae yno barc hyfryd neilltuol (y *Jardin Massey*), a daeth eyniad swynol iawn i ben rnywun, sef prynu hen glas Abaty St. Sever pan dynnwyd hwnnw i lawr, a'i ail-godi yma yng nghanol gwyrddlesni a blodau'r ardd. Y mae'r bwáu cochlon, a chapanau cerfiedig y colofnau, yn llawer mwy cartrefol yma yn yr awyr agored, ymysg y dail, nag a fyddent mewn amgueddfa farw, á label ar bopeth.

Nid af i sôn am bob un o'r gwibdeithiau yr aethom arnynt o Tarbes. Cyfeiriais eisoes at un ohonynt, y daith trwy Lourdes i Cauterets a Gavarnie. Peidied neb â'm cam-ddeall : mwynheais y daith honno y tu hwnt i geisio ei disgrifio. Ond erys y ffaith mai hen eglwys gaerog y Temlwyr yn Luz a wnaeth imi dalu am le yn y " siari " y dydd hwnnw ; megis unwaith yn Auvergne, pan fuom fodlon i fynd yr holl ffordd o Glermont i La Bourboule a'r Mont Dore, yn unig ac yn unswydd am mai dyma'r ffordd hawddaf a rhataf i weled Eglwys St. Nectaire. *Cael* y pethau eraill am ddim, fel y byddai Ellis Edwards yn dywedyd,—a diolch yn fawr amdanynt.

Gwahanol iawn oedd ein taith i St. Bertrand de Comminges. Gadael y briffordd yn stesion Montréjeau—neu, i roi iddi ei henw llawn, " Montréjeau-Gourdan-Polignan," oblegid arfer Ffrainc, pan fo stesion yn gwasanaethu dau neu dri lle, yw plastro'r ddau neu dri enw'n un arni. Yma yr ydys yn troi i fyny Blaenau Garonne ; ym mhen draw'r cwm hir y mae Luchon, prif dref y Pyreneau yn yr ystyr y mae Chamonix a Zermatt yn brif drefi'r Alpau. Lle i wŷr goludog yw Luchon : gwestai mawrion, lifft i'ch codi hanner y ffordd i fyny ochr y mynydd, i'r uchder anhygoel o bum mil o droedfeddi, " mynyddwyr " gyda'u ffyn a'u rhaffau a'u " geidiau," ac felly ymlaen. Y prynhawn Sul chwilboeth hwnnw, meddai hysbyslenni ymhobman, yr oedd y " tymor Rugby " i agor yn Luchon—efallai i'r darllenydd sylwi, wrth astudio hanes brwydrau troediawg Ffrainc a Chymru, mai o drefi'r Pyreneau (Pamiers, Quillan, Pau, Tarbes, etc.) y daw y rhan fwyaf o'r chwaraewyr Ffrengig. Ond nid i Luchon yr oeddym ni am fynd y dydd hwnnw. Disgynasom yn stesion fechan Labroquère, y nesaf un at Montréjeau, yna ar hyd ffordd gysgodol, dros bont ar Garonne, ac i bentref di-lun Valcabrère, nes

gweled Eglwys St. Bertrand yn ymgodi fel craig ar ben boncyn serth o'n blaenau.

Y mae i'r ardal hon, Valcabrère (*Vallis Capraria*, Glyn y Geifr) hanes hir a diddorol dros ben. Gryn bymtheng mlynedd cyn dyfod Cesar i wlad Gâl, bu Pompey Fawr yn darostwng gwrthryfel yn Ysbaen. Fel Nebuchodonosor a choncwerwyr dwyreiniol eraill, tybiodd hi'n ddoeth symud rhai o'r bobl ymhell o wlad eu genedigaeth : daeth â hwy dros y mynydd-oedd i waelodion Gâl, a sefydlodd hwy ym Mlaenau Garonne, yng Nglyn y Geifr. A galwyd y wlad ar eu holau : *Convenae*, hynny yw, " y newydd-ddyfod-iaid " (yn un o'i wahanol ffurfiau, daeth hwn yn enw Ffrangeg, Comminges). Ymhell wedi hynny, tyfodd tref Rufeinig helaeth ar lawr y glyn, gyda chaer ar foncyn yn ei hymyl—*Lugdunum Convenarum*, " Dinlleu'r Dyfodiaid." Lyon de Comminges. Yr oedd yn dref bwysig, ac yr oedd ynddi eglwys Gristnogol fawr a gwych. Ond yn chwalfa'r Goresgyniad Barbaraidd, difodwyd y ddinas ar y gwastad, a dringodd gweddill ei thrigolion i'r gaer ar ben y bryn ; daeth muriau'r gaer yn furiau'r dref. Yn y " Dref Uchaf " hon yr actiwyd drama ofnadwy tua 585, yng nghwrs yr ymladd ffyrnig rhwng wyrion y brenin Clovis, sy'n lliwio dalennau'r hen hanesydd Gregori o Tours â gwaed.

Yr oedd gan Lothar, mab Clovis, fab o'r enw Gondowald. Gwrthodai Lothar ei arddel, a thorrodd ei wallt—yr oedd gwallt llaes yn arwydd o waed brenhinol ymysg y Ffranciaid. Ar ôl marw Lothar, yn 561, crwydrai'r hogyn o lys i lys, o'r naill at y llall o'i bedwar hanner-brawd cyfreithlon. Torrodd un o'r rheini drachefn ei wallt, a bwriodd ef yng ngharchar. Ond diangodd Gondowald i'r Eidal ; yno ymunodd â'r cadfridog Narses o Gaer Cystennyn, a oedd y pryd hwnnw'n ymladd â'r Lombardiaid. Aeth gyda

Narses i Gaer Cystennyn, a bu fyw yno'n hapus am flynyddoedd.

Ond rhyw ddydd, dyma'i hanner-brawd, Gontram frenin Bwrgwndi, yn galw i'w weled, ac yn ei annos i geisio ennill coron Ffrainc. Temtiwyd y gŵr ieuanc ; glaniodd yn Ffrainc (582), ond gwelodd yn bur fuan nad oedd y rhagolwg yn ddisglair, a chiliodd i un o ynysoedd Môr y Canoldir. Ond yn y man, codwyd gwrthryfel mawr yn erbyn Gontram ddichellgar ; aeth y De yn wenfflam ; dyrchafodd Gondowald ei faner yn Avignon ; cyhoeddwyd ef yn frenin yn Brive, a chyn pen ychydig iawn yr oedd yn feistr ar Angoulême, Périgueux, Toulouse, Bordeaux. Nid oedd hyn i gyd, fodd bynnag, ond tân mewn sofl ; yn y fan, yr oedd Gontram wedi adennill y llaw uchaf, a gorfu i Gondowald a'i brif gadfridog ffoi am eu heinioes i noddfa bell Lyon de Comminges. Yno bradychwyd y tywysog gan ei gadfridog i ddwylo ystrywgar Gontram. Trawyd ef yn ei ben â charreg fawr, yna, medd Gregori, " rhuthrodd pawb arno a'i drywanu â'u gwaewffyn ; cylymodd rhywun gortyn wrth ei draed, a llusgwyd ef o amgylch y dref, â rhai yn plicio ei wallt a'i farf," ac yn y diwedd taflwyd yr ysgerbwd dros y dibyn yr oedd y gaer arno. Lladdwyd y bradwr hefyd ; ac yn gosb ar y dref am roi noddfa i Gondowald, lladdwyd pawb o'i phreswylwyr, " torrwyd yr offeiriaid i lawr wrth eu hallorau," a llosgwyd y dref yn lludw mân. Bu'r fangre'n ddiffaith o hynny hyd y ddeuddegfed ganrif.

Wedi pum can mlynedd, daeth esgob bonheddig a santaidd i Comminges. Bertrand oedd ei enw. Penderfynodd atgyfodi'r hen dref ; cododd eglwys fawr ar ben y bryn, a phlas esgobol iddo'i hun, a thrigfannau i'w ganoniaid. Yn raddol, dechreuodd bywyd ail-egino o gwmpas yr eglwys, a thyfodd tref newydd ;

ail-godwyd muriau'r gaer o'i hamgylch. Nid anghofiodd ei thrigolion eu hesgob duwiol, galwasant eu dinas yn St. Bertrand de Comminges, a dyna yw hi hyd heddiw. Bu un o'i hesgobion yn Bab ; ac y mae hyn, beth bynnag, i'w ddywedyd dros Babau Ffrengig Avignon, er rhyfedded gwŷr oedd amryw ohonynt, nad anghofiodd neb ohonynt dref ei enedigaeth, neu'r fynachlog y bu'n fynach neu'n abad ynddi, neu'r ddinas y bu'n esgob arni. Ymwelodd Clement V fwy nag unwaith â'i hen esgobaeth yn y mynyddoedd, a gwnaeth St. Bertrand yn gyrchfa pererinion. Dyna'r paham y mae'r Eglwys yn llawer mwy gwych oddi mewn nag y buasai dyn yn ei ddisgwyl mewn esgobaeth dlawd yn encilion y bryniau. Prin, efallai, y mae'n rhaid ychwanegu bod Chwyldro 1789 wedi rhoi terfyn ar Esgobaeth Comminges.

Trown am ennyd o ganol pentref Valcabrère, ar hyd llwybr drwy'r caeau, i fynwent y plwyf. Trwy borth o'r ddeuddegfed ganrif y mae mynd i mewn iddi, ac ym mur y porth y mae cofysgrif Rufeinig. Yn y fynwent y mae hen eglwys foel, nad yw heddiw ond capel y fynwent. Ond bu'r hen eglwys—St. Just-en-Valcabrère—yn Eglwys Gadeiriol yr esgobaeth yn ystod y pum canrif y bu'r " Dref Uchaf " yn gorwedd yn adfeilion. Yn wir, gwelir yn un o'i muriau garreg fedd rhyw offeiriad a fu farw yn y bedwaredd ganrif o oed Crist. Golwg anesmwyth braidd sydd ar yr hen glochydd sur ; byddai'n amlwg yn dda ganddo gael gwared ohonom—tybed mai am inni fynnu mynd o amgylch yr eglwys oddi allan, a bod arno yntau ofn am y ffrwythau oedd ganddo'n tyfu ar hyd un o'r muriau ? O'r fynwent, mewn ffrâm o yw a phoplys a derw, a thrwy des yr hafddydd, edrych Eglwys St. Bertrand yn bell bell, ac yn anferth ei maint, er nad oes, mewn gwirionedd, prin filltir

rhyngom â hi. Wrth gerdded y filltir honno, yr ydym yn cerdded uwchben esgyrn yr hen ddinas Rufeinig. Yng nghladd dan ein traed gorwedd olion chwaraedy, baddondai, mynwent Rufeinig, eglwys fawr—y mae'r profion i'w gweled mewn dwy amgueddfa fechan.

Tynfa serth sydd i fyny'r bryn i St. Bertrand. Wedi troi a throsi, a dilyn troed y mur am ychydig, dyma'r Porte Cabirole yn ein gollwng i mewn, ac yn ei ymyl dŵr i'r gwyliwr—golygfa ardderchog oddi arno ar y gwastadedd, ar St. Just yng nghanol ei choed duon, ar y cwm coediog, ar fynyddoedd uchel Luchon yn ei ben draw. Nid yw'r " ddinas " ond pentref bychan o bum cant o bobl, a byr waith yw cerdded drwyddi, heibio i hen blas yr esgobion, at borth yr eglwys. Y porth hwn, gyda'i gerfluniau hanner-coll, a'r tŵr uchel cadarn uwch ei ben, yw'r unig weddillion o waith yr Esgob Bertrand ei hun, yn y ddeuddegfed ganrif. Gothig yw'r rhan fwyaf o'r eglwys, yn null Gothig y Deheudir, sef un neuadd lydan (heb golofnau'n ei thorri'n dair, megis y mae arfer y Gogledd—ni cheir hyn yn y De ond pan fo'r eglwys yn efelychiad pwrpasol o arddull y Gogledd, er enghraifft, eglwys a godwyd gan un o frenhinoedd Ffrainc neu Loegr), gyda ffenestri uchel culion, a bwtresi cedyrn yn cynnal ei muriau oddi allan—rhwng popeth, y mae'r adeilad yn debycach i gastell nag i eglwys yn ôl ein syniad ni. Bychan iawn yw " corff " yr eglwys ; y mae'n debyg mai'r canoniaid oedd y rhan fwyaf o'r gynulleidfa ar hyd ei hanes, ac felly y mae'r côr yn cymryd i mewn bron y cwbl o lawr yr eglwys.

Clywsom yn barod am y côr hwn gan glochydd Auch. Ac yr oedd yma hefyd glochydd, neu yn hytrach glochyddes. Gwisgai mewn calico llwyd-wyn, a chariai barasol. Yr oedd wedi dysgu ei gwers ar dafod-leferydd,—fel plentyn o Fethodist gyda phennod o'r *Hyfforddwr*,—ac yn deall yn union yr un

faint ohoni. "Dyma-Adda-ac-Efa-yng-ngardd-Eden-ar-y-llaw-chwith-chwi-welwch-Adda-yn-y-canol-y-mae-pren-gwybodaeth-da-a-drwg-sylwch-ar-y-sarff-ar-y-dde-dacw-Efa-yn-bwyta-y-ffrwyth-y-mae-yr-afal-yn-ei-llaw . . . " Yr oedd arnom ofn dechrau sgwrsio â hi, rhag iddi dorri i lawr a gorfod ail-gychwyn o'r dechrau—digwyddodd hynny inni rywdro, nid wyf yn cofio ymhle! Ond er gwaethaf y glochyddes, yr oedd y côr yn hardd neilltuol.

Yn y man daeth awr yr Offeren. Ymddangosodd offeiriad tew, wynebgoch—etifedd unig yr esgob a'r deon a'r chwe chanon a thrigain—a dau neu dri o hogiau direidus mewn gynau cochion, a galwyd y glochyddes at ei phriod waith. Diangasom ninnau i'r clas bychan hyfryd yn ochr yr eglwys. Yng nghysgod ei bendist a'i golofnau dwbl, gyda'u capanau o flodau a marchogion, hunai esgobion a chanoniaid yr Oesoedd Canol, â rhigymau Lladin ar eu beddau. Ym mur yr ochr allanol yr oedd ffenestri agored, a thrwyddynt olygfa hardd ar fryniau coediog. Ac wrth ymestyn allan drwy'r ffenestri, cipolwg ar ddibyn triphlyg ofnadwy oddi tanom—mur uchel y clas, mur y ddinas o dan hwnnw, a'r clogwyn wedyn. Ymhell yng ngwaelod y ceunant, efallai, y daethpwyd o hyd i gorff drylliog Gondowald, bedair canrif ar ddeg yn ôl.

Dychwelyd i'r eglwys. Y mae'r glochyddes ar ddechrau ar Adda ac Efa i fagad newydd o ymwelwyr, a'r offeiriad tew, wedi ymddiosg o'i borffor a'i liain main, yn eistedd i lawr yn ei gasog ddu, gan sychu'r chwys oddi ar ei wyneb. Amser cinio. Nid yw St. Bertrand, wedi'r cwbl, ond pentref, a bwyd digon plaen sydd yno—braidd ormod ohono, hefyd, ar ddiwrnod mor boeth. Eistedd wedyn ar lethr y bryn i ladd amser ; ond hyd yn oed felly, yr oeddym yn ein holau yn stesion Labroquère gryn awr cyn amser y trên. Treulio honno ar fainc fechan, yn edrych yn ddioglyd

ar y fforddolion yn pasio'r stesion—ychen amyneddgar yn tynnu troliau, ieuenctid y fro ar eu ceffylau haearn, boneddiges yn marchogaeth, moduron gwŷr goludog yn chwyrnellu tua Luchon. Dyma'r trên. Wedi cyrraedd Montréjeau, awr eto i aros. Ond wrth lwc, y mae ymweliadau "byddigions" ar eu ffordd i Luchon wedi gorfodi awdurdodau'r *Buffet* i ddysgu gwneuthur tê. Ac awr bleserus fu honno; eistedd yn gyfforddus wrth fwrdd ar y platfform ei hun, yng nghanol y trenau, gan fwynhau'r tê poeth da, a bwyta teisennau. Yna, yn ein holau i Tarbes, ac yn stesion Tarbes un o'r golygfeydd rhyfeddaf a welsom erioed: trên Eidalaidd hir, yn llawn hyd at ei aeliau o bererinion ar eu ffordd i Lourdes. Y mae Tarbes o fewn hanner awr i Lourdes, ac yr oedd un o funudau mawr bywyd i'r pererinion hyn yn ymyl, megis gynt yng Nghymru pan oedd Llangeitho neu'r Bala o'r diwedd gerllaw. Pawb mewn un cerbyd yn canu emynau; yn y nesaf, offeiriad yn darllen y litani, a'r bobl yn ei ateb; un arall draw yn pregethu. A cherbyd arall, ag arno mewn llythrennau breision: "Y Pwyllgor Gweithiol," a golwg drwy ei ffenestri ar glerigwyr prysur yn cyfrif ac yn ysgrifennu.

Bellach, y mae'n bryd troi'n ôl tua'r gogledd. Cafwyd hyd i drên cyflym, yn cychwyn, wrth gwrs, o Bayonne, yn sefyll yn Tarbes tua chwarter wedi deg, ac yn cyrraedd Toulouse hanner awr wedi hanner dydd. Ond cyn iddo ddyfod i Tarbes, yr oedd yn llawn dop. Ni chawsom ond eistedd ar ein bagiau yn y *corridor*; yn ffodus, ar yr ochr dde i'r trên, sef ochr y mynyddoedd. Yn nesaf atom yr oedd Ysbaenwr, hynod ddrwg ei dymer—nid rhyfedd, gan iddo fod ar ei grwcwd felly yr holl ffordd o Bayonne, hynny yw, er ugain munud wedi saith. Melltithiai gwmni'r ffordd haearn mewn Ffrangeg gofalus gramadegol. Pa reswm oedd rhoi trên felly ar y lein,

heb hanner digon o le ynddo? A chodi crogbris amdano hefyd (fel mater o ffaith, ceiniog y filltir yn yr Ail Ddosbarth)? Nid fel hyn yr oedd pethau mewn gwledydd eraill . . . yr Almaen . . . yr Yswisdir . . . Lloegr. Ni thybiais hi'n ddoeth sôn am olygfa a welais ar stesion Lausanne, debycach i ornest pêl droed na llawer gornest pêl droed y bûm i 'n edrych arni. A gwrandewais yn dawel arno'n moliannu Lloegr, er imi gofio gohebiaeth hir a ffyrnig yn y *Times* ar ffaeleddau'r ffyrdd haearn ym Mhrydain. Ond dyna wlad! Trenau rhagorol; trenau *glân* (yr oedd yn llygad ei le y tro hwn—y mae trenau Ffrengig yn fudr dychrynllyd); gwestai da, bwyd da. Nid fy lle i, wrth gwrs, oedd dadlau ag ef—dyn tenau melyn-ddu, ag wyneb trist, dihiwmor. Ymhen ychydig, dyma ddynes am gael ein pasio, yn chwilio am le. Sicrhawyd hi gan bawb yn y cyffiniau nad oedd dim lle, ond mynnai hi gael mynd i weled. Symud gliniau a choesau a bagiau a bocsus iddi gael pasio. Yn y man, dyma hi yn ei hôl—symud gliniau, etc., eto. Collodd yr Ysbaenwr weddill ei dymer. "*Stupide!*" eb ef wrthi, gan ynganu'r gair yn "stŵpîd"—ni allai droi'r *u* fain Ffrengig. Yn y cyfamser, yr oedd y wlad yn gwibio heibio inni. Troi'n cefnau ar y Pyreneau ym Montréjeau, pasio tref ddymunol St. Gaudens, pasio stesion Boussens (yno, oni bai am yr amser a gollwyd gynt yn Brive, buasem wedi disgyn i fynd i St. Lizier a Foix), pasio Muret a'i atgof am frwydr 1213, pan orfu byddinoedd y Pab ar Don Pedro o Aragon a waredodd Ysbaen o ddwylo'r anghredadun flwyddyn cyn hynny. Sefyll yn hir ar odre Toulouse—parhad o sylwadau fy nghyfaill Ysbaenaidd. Ond o'r diwedd, dyma ni.

Aeth y bennod hon yn llawer rhy faith i adael imi ymhelaethu ar ddinas fawr ac enwog Toulouse. Nid yw'n arfer gan deithwyr ganmol rhyw lawer arni—

y mae'n boeth, yn llychlyd, yn drystiog, yn rhy newydd, ac felly ymlaen. Ac yn wir, y mae'n rhaid cyfaddef mai rhyw ddau neu dri o'r pethau sydd ynddi, ac nid y dref ei hun, sy'n glynu yn y cof. Eto, y mae ynddi strydoedd prysur a diddorol, a gerddi pleserus y tu ôl i Neuadd y Dref, a chwpanaid dda iawn o dê, a'r siop lyfrau orau a welais y tu allan i Baris. Y mae'n wir y bydd eich ystafell yn y gwesty'n fechan ac yn fyglyd, ond nid oes help am hynny mewn tref fawr. Ac y mae pobl Toulouse yn bwyta'n fras. O ran hynny gallwn feddwl mai dyna (yn groes i'r disgwyl) yw arfer gwledydd poethion. *Totem* yr ardal hon ydyw'r ŵydd. Gŵyr pawb fod llawer o besgi gwyddau ym Mhérigord a Languedoc, er mwyn y *paté de foie gras* a wneir o'r afu. Ac os gofyn rhywun beth sy'n dod o'r gweddill o'r aderyn, yr ateb ydyw, ei halltu. Anodd iawn yw dianc rhag gwyddau yng ngwestai Languedoc. Yn Toulouse y mae saig a elwir yn *cassoulet toulousain*. Dyma hi: rhodder ychydig haenau o ffa yng ngwaelod potyn pridd. Yna dalpiau o gig gŵydd hallt, yn gymysg â darnau o gig moch. Ar y top, tafell sylweddol o gaws. Craser ynghyd mewn ffwrn; dyger i'r bwrdd yn y potyn, a bwytaer (neu geisier ei fwyta) amser cinio hanner dydd, ar ddiwrnod poeth o Awst, yn Neheubarth Ffrainc!

"Y Ddinas Goch" y gelwir Toulouse, am mai o frics cochion yr adeiladwyd llawer ohoni—nid yw'n hawdd cael carreg dda yn yr ardal hon. Ac o frics cochion yr adeiladwyd ei phrif addurn, sef Eglwys St. Sernin (Sadyrnin, yng Nghymru), yr eglwys Romanaidd fwyaf mewn bod heddiw, ar ôl ail-adeiladu Eglwys Bedr yn Rhufain a difodi Eglwys Cluni. Nid yn St. Sernin, er hynny, y mae cadair Archesgob Toulouse, ond yn St. Etienne, un o'r eglwysi odiaf a welais. Tynnwyd pen dwyreiniol yr hen eglwys i lawr, yn y drydedd ganrif ar ddeg, gyda'r bwriad o

godi un arall, heb fod yn hollol ar yr un llecyn, a dechreuwyd ar honno. Wedi codi'r côr newydd, pallodd yr arian ; felly, cydiwyd y côr hwn â chorff yr hen eglwys, wysg ei gongl, gan adeiladu tŵr i guddio'r cyswllt. Wrth fynd i mewn, felly, nid yw'r Brif Allor i'w gweled o'r Porth Mawr—y mae'n rhaid rhyw gil-edrych ar y chwith cyn ei chanfod. Ac y mae talcen gorllewinol yr eglwys yn torri pob rheol yng Nghyffes Ffydd pensaernïaeth—y mae'r to yn unochrog, nid yw'r drws yn y canol, nid yw pig y bwa uwchben canol y drws, ac nid yw'r ffenestr gron uwch ben y drws chwaith yn y canol!

Ar wahân i St. Sernin, yr adeiladau sy'n bodloni dyn fwyaf yn Toulouse ydyw hen gartref y Brodyr Duon, y Jacobiniaid neu Ddominicaniaid (ysgol Ganol, bellach), ac yn fwyaf neilltuol eu capel—neuadd ddwbl, a rhes o golofnau hynod uchel yn dal follt Gothig uwch ei phen. Cofia'r darllenydd mai urdd o *bregethwyr* oedd y Dominicaniaid, a threfnid eu heglwysi fel y gallai'r gynulleidfa weled a chlywed y pregethwr. Mewn clas arall—clas yr Awstiniaid—y mae Amgueddfa hynod bwysig y ddinas, a chyfoeth mawr o gerfluniau allan o eglwysi sydd bellach wedi diflannu, neu fel La Daurade (" yr Eglwys Euraid ") wedi eu hail-adeiladu'n llwyr newydd.

Yr oedd yn ein bwriad alw ar y ffordd adref yn Albi, ac yn Rodez, er mwyn ymweled â mynachlog anghysbell Conques. Ond nid i " odre'r Pyreneau " y perthyn y rhain, a heblaw hynny, yr oedd y tridiau anffortunus yn Brive wedi effeithio ar ein cynlluniau. Eto, mynasom weled Albi, gan ei chymryd yn ddiwrnod o wibdaith o Toulouse. Yr oedd yn ddiwrnod dychrynllyd o boeth, a hefyd yn ddiwrnod ffair yn Albi ; gwres a llwch a gwyddau ym mhobman. Ond nid anghofiwn Eglwys Gadeiriol Sainte-Cécilie, clogwyn uchel o frics cochion, wedi ei chynllunio'n llawn

cymaint yn gastell ag yn eglwys, er diogelwch i'w chlerigwyr yng nghanol ardal hereticaidd a rhyfelgar. Y mae pob bwtres yn rhagfur, y ffenestri'n hirgul fel mewn castell, y to'n wastad, a pharapet o'i amgylch, a phorth yr eglwys yn yr ochr, nid yn y talcen, a chyda hynny nid ar lefel yr heol ond ar ben grisiau uchel hawdd eu hamddiffyn. Ond wedi i'r perygl fynd heibio, mynnodd crefftwyr y Dadeni harddu'r hen gaer, a bellach y mae'r porth a'i risiau'n gampwaith cywrain, a'r eglwys oddi mewn yn disgleirio o farmor a lliwiau. Eto, cadernid yw nod Eglwys Albi—ei muriau cochion yn cyhwfan uwchben y ddinas, ac uwchben plas yr Archesgob (plas *caerog* eto) a'i erddi prydferth yn disgyn y llechwedd o'r eglwys i lawr i lan afon Tarn. Rhy fyr o lawer oedd yr ychydig oriau a gawsom yn Albi, a bydd yn rhaid cael rhyw esgus i fynd yno drachefn, rywbryd. Ond bellach y mae'n rhaid troi cefn ar Ddyffryn Garonne : rhuthro trwy Montauban, estyn gwddf i weled unwaith eto bont ardderchog Cahors, gwenu wrth basio Brive, ac felly ymlaen, i Baris, a Llundain, a Chaerdydd.

Ffrainc a'i Phobl.[1]

Tua blwyddyn yn ôl bu dadl ddiddorol yn y *Llenor* rhwng dau gyfaill i mi, ar Gatholigiaeth a Moderniaeth. Ni pherthyn i mi ymyrryd yn y ddadl honno : ond dywedwyd unpeth neu ddau ynddi, a wnaeth i mi fy holi fy hunan, am berthynas Ffrainc ac Ewrop. Yn neilltuol, codwyd y cwestiwn : a ydyw'r Ffrancwyr yn " Ewropeaid Da ? " Nid atebwyd ef yn uniongyrchol gan y naill na'r llall o'm cyfeillion—nid chwilio am ateb iddo oedd pwnc y ddadl, wrth gwrs ; ond yr oedd, efallai, ryw awgrym yn llythyr Mr. Saunders Lewis *bod* y Ffrancwr yn Ewropead Da, ac yn atebiad y Golygydd *nad* ydyw, ar y cyfan, eto bod ambell Ffrancwr wedi bod yn Ewropead o'r fath orau. Ond dyma a welwn i : gellid meddwl y dylem, neu na ddylem, edmygu Ffrainc a'i phobl yn ôl yr ateb a roir gennym i'r cwestiwn hwnnw. A dechreuais innau wrthryfela. Byddai'n ormodedd, yn anwiredd, o ran hynny, ynof ddywedyd nad wyf yn malio dim o gwbl a ydyw'r Ffrancwyr yn Ewropeaid Da ai peidio. Ond dywedaf yn ddigon rhydd nad wyf o gwbl yn credu eu bod. O ran hynny, yr wyf yn amau'n gryf a all cenedl fawr fod yn " Ewropead Da." Os wyf yn iawn, rhywbeth uwchlaw cenedlaetholdeb ydyw " Ewropeaeth," rhyw ysbryd eclectig yn gweled y gorau yng nghymeriad y gwahanol genhedloedd, yn ei ddewis ac yn ei efelychu, neu'n ceisio gwneuthur hynny, a hefyd yn gallu barnu ffaeleddau'r cenhedloedd yn ddiduedd. Onid yng ngwledydd bychain Ewrop y gwelir hyn ar ei gryfaf, yn yr Iseldiroedd neu Ddenmarc neu Fohemia ? Ai dyma, tybed, un o ragorfreintiau Cymru ? Ond am y gwledydd mawrion, galluog, y maent hwy wedi magu personoliaeth gref a phendant, ac y mae i hynny o leiaf un anfantais ;

[1] O'r *Llenor*, VII, 1.

y maent fel ambell ddyn na wêl ddim ond yn ei ffordd ei hun, ac nad yw'n fodlon iawn boddi ei nodweddion neilltuol yn y lliaws. Ac yn sicr, y mae Ffrainc yn hynod gyndyn yn hyn o beth.

Gellir, y mae'n wir, alw ambell Ffrancwr yn Ewropeaidd ei feddwl. Noda'r Golygydd Anatole France fel enghraifft, ac yn sicr y mae yn ei le. Ond dylid ymochel yn ofalus rhag meddwl mai pobl eangfryd fel France sy'n cynrychioli orau rinweddau a diffygion eu cenedl, ac yn esbonio'r rheini orau i estroniaid. Meddylier am foment, fel enghraifft, pa awduron Saesneg sydd wedi cael bri ar y Cyfandir, ac wedi dylanwadu fwyaf ar ei lenyddiaeth. Byron a Walter Scott, purion : Samuel Richardson ac Edward Young, nid mor dda. Ond pa Ffrancwr a rydd glod i Keats neu Browning ? Pwy o'r tu allan i gylch bychan goleuedig fel MM. Legouis neu Maurois a adnebydd Wordsworth neu Shelley ? Pwy ar y cyfandir cyfan sydd yn gwybod dim am Thomas Hardy, a phwy sydd *heb* glywed am Bernard Shaw ? Ond a dybiwch chwi fod y Gwyddel ffraeth, cyflym, dideimlad hwnnw yn gystal cynrychiolydd o'r Sais gorau ag ydyw'r nofelydd mawr sydd newydd huno ? Felly ninnau, Brydeinwyr : hawdd gennym weled rhagoriaeth rhamantydd Ffrengig fel Victor Hugo, ond y mae ein hanwybodaeth o Corneille a Racine mor ddudew ag anwybodaeth y Ffrancwr o'r beirdd a enwasom. Rhyw dro yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain, safwn o flaen un o ddarluniau Corot. Daeth dau Ffrancwr at y darlun, a mawr oedd eu hedmygedd ohono. Ond ymhen ychydig, taflodd Rhagluniaeth hwy drachefn ar fy nhraws, y tro hwn o flaen darlun gan Turner—un o'i ddarluniau ardderchocaf. Edrychasant yn syn arno am ennyd, yna torasant allan i chwerthin nes i'r dagrau lifo i lawr eu gruddiau. Da y gwnaeth Mr. Saunders Lewis

yn ein rhybuddio fod tiroedd cyfain yn llenyddiaeth Ffrainc nad yw Anatole France yn rhoi ryw lawer o arweiniad iddynt.

Noder, ar yr un pryd, fod i lên a meddwl Ffrainc, mewn un ystyr, bwysigrwydd gwir Ewropeaidd. Am ganrif a hanner go dda, dyweder o 1650 hyd 1800, Ffrainc oedd y gallu gwleidyddol cryfaf ar y Cyfandir, ac mewn canlyniad, bu iddi ddylanwad meddyliol ac artistig hynod fawr ar y gwledydd o'i chwmpas. Ffrainc oedd aelwyd diwylliant y rhan fwyaf o'r gwledydd yn yr oes honno, pan rigymai Ffredrig Fawr o Brwssia yn Ffrangeg dan addysg Voltaire, pan gyfodai llawer mân deyrn Ellmynig ei Versailles fechan, pan ymhoffai Catrin o Rwsia mewn gohebu â Diderot, pan dorheulai Hume a Gibbon yn *salons* caboledig Paris. A hyd yn oed yn y ganrif ddiwethaf (heb sôn am bobl fel Heine), dylanwad y Chwyldro Ffrengig a gerddodd drwy Ewrop yn sgîl byddinoedd Napoleon, sy'n gyfrifol am lawer peth mewn llawer gwlad, hyn yn oed rai elfennau yng ngwleidyddiaeth ryfedd Rwsia.

Wel, y cwestiwn nesaf oedd : paham, ynteu, yr oeddwn i fy hun mor hoff o Ffrainc ac o Ffrancwyr? Ac ar ôl chwilio am beth amser, methais yn lân gael ateb iddo. Y tebyg yw mai damwain ydyw ; y mae cwrs fy astudiaeth a'm darllen wedi digwydd ymwneuthur mwy â Ffrainc nag â gwledydd eraill y Cyfandir ; yr wyf wedi cymryd plyg, ac yn rhy hen bellach i newid. Sylwais, fodd bynnag, ar un peth pur od, sef bod fy niddordeb yn hanes a meddwl Ffrainc yn anwahanol gysylltiedig ag ardaloedd a lleoedd, a nad oes heblaw Ffrainc ond Dinas Rhufain a'i hamgylchedd (y tu allan i Gymru a Lloegr, wrth gwrs) yn meddu ar yr arbenigrwydd hwn i mi. I egluro'r peth : yr wyf (fel y digwydd) yn hoff o gerddoriaeth, ond nid oes arnaf fymryn o eisiau gweled Leipzig

am fod Bach wedi byw yno cyhyd. Yr wyf yn mawr edmygu Kant, ond byth nid af i Königsberg am hynny. A dyma'r peth, efallai : tair rhodd fawr yr Almaen i mi ydyw ei hathroniaeth, ei cherddoriaeth, a'i hysgolheictod, a'r tair, sylwch, yn hollol annibynnol ar *le*. Nid oes unpeth *lleol* yn Kant ei hun, y gŵr bychan, tawel, nad aeth allan o'i dref ar hyd ei oes, eto, o'i ystafell fechan yn pregethu heddwch i'r cenhedloedd, yn esbonio datblygiad y gyfundrefn heulog, yn ailsefydlu gorseddfainc y meddwl. Felly Beethoven, felly Mommsen ; gelli di a minnau fyned i mewn i ffrwyth eu llafur ymhen draw Llŷn neu yn Nhonypandy. Y canlyniad (i mi, beth bynnag) ydyw nad wyf hyd yn hyn wedi gweled unrhyw reswm dros ymweled â'r Almaen ; y mae ei phethau gorau eisoes gennyf yn y tŷ. Ond wrth ddarllen am Diderot, daw arnaf awydd am gael *gweled* Langres rywbryd, ac wrth ddarllen am Scaliger yn La Roche Pozay, ni allaf atal fy llaw oddi wrth y map. Medd rhyw ddarllenydd : *Special pleading* yw hyn, a heblaw hynny, ymresymiad mewn cylch. Ie, gyfaill, eithaf gwir!

Ond er na wn i sicrwydd paham yr wyf mor hoff o'r wlad, mi geisiaf roddi ar bapur ychydig o'm profiad ohoni, profiad personol a phrofiad trwy lyfrau. A gallaf, ar ôl yr hyn a ddywedwyd, sicrhau'r darllenydd *nad* wyf am geisio profi bod Ffrainc yn Ewropead Da, nac ychwaith bod ynddi bob rhagoriaeth heb unrhyw fai. Sylwer yn ofalus nad amddiffyn yw fy ngwaith, na chymeradwyo o anghenraid, ond egluro, yn ôl fy ngallu.

Dechreuwn gyda rhai pethau a ystyrrir yn " wahaniaethau " rhwng Ffrainc a ninnau. Nid yw'r rhain oll ar yr un lefel o lawer iawn. Dibwys, eto difyr, yw'r pethau sy'n ein taro ar ein hymweliad cyntaf â'r wlad. Dyma bobl na ddatguddiodd y nefoedd iddynt sut i

baratoi brecwast ; pobl heb eto dyfu i'r iawn syniad am dê. Dysg y "dirwestwr" yno mai un o brif beryglon bywyd yw yfed dwfr ; ar y llaw arall, os byddi o hir ddarllen barddoniaeth (neu hyd yn oed emynau) wedi magu syniadau rhamantus ynghylch gwin, y mae siomiant mawr yn dy aros wrth geisio yfed y picil sur a roddir o'th flaen onid wyt yn fodlon talu'n dda. Ni feddyliaist o'r blaen y gellid bwyta llysiau ar eu pennau eu hunain, heb gig gyda hwy, ac yr oedd gennyt ryw syniad mai peth i'w rostio yw cig eidion, nid peth i'w dorri oddi ar yr anifail a'i chwifio o flaen y tân am eiliad cyn ei ddodi ar dy blât. Rhoddir llwy dê i ti i fwyta dy bwdin, a llwy fwrdd i droi dy goffi yn y bore. Blinir di i raddau, os wyt ferch, gan eu syniad am lanweithdra ; hyd yn ddiweddar ni feddylid bod arnat eisiau mwy na llond bowlen siwgr o ddwfr i ymolchi ynddo, a gwell i ti, ar y cyfan, beidio â rhoddi dy drwyn i mewn yn y gegin. Ond ni byddi'n hir cyn sylwi laned yw'r ystafell wely, a bod y gwely ei hun yn wyn fel yr eira ; hefyd fod y dafarn ddistadlaf, ar y rhybudd byrraf, yn gallu rhoddi o'th flaen am ychydig geiniogau, ginio a gostiai sylltau lawer i ti yng ngwestai Prydain, ac na ellit ei gael o gwbl mewn llawer ohonynt. Gyda llaw, paid ag ofni y cynigir malwod i ti. Y maent yn llawer rhy ddrud i'w gwastraffu arnat heb ofyn am danynt yn arbennig.

Yr oedd gennyt hefyd, cyn myned i Ffrainc, ryw syniadau neu ragfarnau amdani a gesglaist o rywle ; rai ohonynt yn ei herbyn, eraill yn ei ffafr ; a buan y gweli nad oeddynt yn wir. Pwy a ddywedodd wrthyt, er enghraifft, mai pobl wamal a segur ydyw'r Ffrancwyr ? Tebyg mai ar y Boulevards ym Mharis, neu yn nhrefi glannau'r môr, neu mewn lleoedd fel Monte Carlo, y ganed y syniad hwn. Wel, yn un peth, estroniaid a weli, fel rheol, mewn lleoedd fel hyn, neu

Ffrancwyr gor-ariannog. A pheth arall, pan fydd Ffrancwr yn cymryd ei wyliau, y mae'n eu cymryd â'i ddwy law, fel hogyn. Ond aros di'n ddigon hir i'w weled yn ail-gydio yn ei waith. Nid oes weithiwr dycnach dan haul, neb yn cymryd ei waith yn fwy difrifol. Yn nhref fechan Brioude yn Auvergne yr oedd y gwesty ar gyfer banc—banc preifat; gallaf dystio bod yr ariannwr a'i glerciaid wrthi am wyth o'r gloch y bore. Yn Avallon, yr oedd *tinman* ar gyfer y gwesty; cawsom wybod hynny am bump o'r gloch, pan agorwyd dadl frwd rhwng y *tinman* a'r gwas oedd yn ysgubo'r palmant o dan ein ffenestr. Yn Avignon, yr oedd siop fara ar ein cyfer wedi gwerthu allan yn llwyr erbyn chwech. Euthum â phar o esgidiau i'w gwadnu yn Nîmes i siop dra pharchus: "Fyddan nhw'n barod erbyn canol dydd yfory? y mae arnaf eisiau dal trên." Yr ateb gyda gwên dosturiol oedd, "Bydd y siop yn agored am hanner awr wedi saith, a byddant yn barod y pryd hwnnw." Edrych ar amserau'r trenau; canfyddi mai "awr brysur" ffyrdd haearn Ffrainc ydyw, nid o wyth i ddeg yn y bore, fel gyda ni, ond o 5-30 i 7-30.

Honnir hefyd yn aml fod y Ffrancwr yn fwy dibris na ni o fân reolau cymdeithasol, yn llai *conventional*, yng ngeiriau'r Sais. Ond peidier ag adeiladu gormod ar y syniad hwn. Y gwir ydyw nad yr un yw mân ragrithiau bywyd (mân ragrithiau, gyda llaw, na ellir bywyd cymdeithasol hebddynt) yn y ddwy wlad. Tuedda'r Ffrancwr i siarad yn bur blaen am rai pethau (pynciau rhyw, er enghraifft) y mae'n wiw gennym ni gau ein gwefusau (ar gyhoedd, beth bynnag) yn eu cylch. Ond peidier am foment â meddwl mai creadur yn "cicio dros y tresi" byth a hefyd ydyw. Y mae yntau'n byw mewn rhwymau a llyffetheiriau. Y mae angladd, er enghraifft, yn Ffrainc yn llawn cymaint peth ag angladd yng Nghymru; y mae

priodas yn fwy ofnadwy fyth. Un o achosion pennaf amhoblogrwydd y Prydeiniwr, hyd yn oed ym Mharis benrhydd, yw ei ddibristod o fân reolau mewn gwisg, megis myned i'r chwaraedy mewn clôs pen glin neu siwt o *check*, a chap am ei ben. Y mae dechrau a diweddu llythyr yn Ffrangeg yn un o'r celfyddydau cain. Ac os gwahoddir di—ac y mae hynny'n anhygoel o annhebyg—i " barti " gan deulu Ffrengig, cei weled bod deddf mwy haearnaidd nag eiddo'r Mediaid a'r Persiaid yn rheoli pob eisteddiad a phob cyfodiad. Collais gyfaill parchus o athro, er mawr ofid i mi, trwy anghofio " dychwelyd " ei gerdyn ymweliad ar Ddydd Calan ; bûm mewn perygl o golli un arall trwy fod bum munud yn hwyr yn cyrraedd ei dŷ. Yn wir, bron na ddywedwn fod y Sais yn llawer mwy " rhydd " na'r Ffrancwr yn yr ystyr yma.

A dywedaf hefyd, yn hollol groes i'r gred gyffredin, nad yw'r Sais yn llai moesgar. Nid yw'r Sais yn fwriadol anfoesgar ; y mae'n aml yn ddall, yn anwybodus, yn ddifeddwl, ac yn rhoddi poen di-fwriad ; ac y mae'n debyg fod hyn nid yn unig yn anffawd ond yn fai, oblegid wedi'r cwbl *dylai* dyn feddwl. Ond y mae'r Ffrancwr yn hynod am ei foes-garwch, ei gwrteisi. Tyn pawb ei het i'w gilydd, ni feddwl neb am gyfarch y tlotyn distadlaf heb " Syr " neu " Madam " ; amgylchynnir prynu pwys o siwgr â seremoni deilwng o lysoedd yr hen ramantau Arthur-aidd. Wrth gwrs, peidier â disgwyl llawer o beth fel hyn oddi ar law dyn yn rhedeg am y trên ; ac ymhob gwlad fel ei gilydd, ystyrrir y dylai swyddogion y llythyrdy gyfarth fel cŵn. Ond ar y cyfan, y mae'n ddigon gwir fod y moesgarwch hwn yn nodweddiadol iawn o Ffrainc, ac wrth gwrs yn gwneuthur bywyd yn llawer ysgafnach yno. Eto, erbyn meddwl a sylwi, gwêl dyn yn ddigon aml wedi'r cwbl nad peth yn codi o'r galon ydyw. Cyfyd o beth y caf sôn nid ychydig

amdano yn nes ymlaen, sef greddf *gymdeithasol* y Ffrancwr, ei syniad (hollol iawn, a hynod werthfawr) mai un o orchwylion pennaf dyn yw dysgu byw mewn cymdeithas. Olew ar olwynion bywyd yw'r moesgarwch hwn, wedi'r cwbl, nid dim byd yn deillio o angenrheidrwydd o wir dynerwch na chariad at gyddyn. O dan y fernis hwn, pobl galed yn aml ydyw'r Ffrancwyr, a byddai'n well gennyf, ar y cyfan, ddibynnu ar drugaredd Sais. Rhoddwch, drwy ddamwain, un geiniog ar ddeg a dimai i Ffrancwr yn newid am swllt; nid hiwmor eleffantaidd y Sais a'ch hysbysa o'r ffaith, ond poeriadau cath wyllt: gofynnwch am eglurhad o ryw gyfrif yn eich bil, a chewch weled y rhew yn caledu ar yr wyneb oedd mor siriol bum munud yn ôl. Bûm mor anffodus unwaith â thorri un o fân reolau cwmni'r ffordd haearn yn nhref Semur—ei thorri, fel y bydd dyn, trwy gymryd yn ganiataol rywbeth sy'n hollol gyfreithlon yn y wlad hon. Cyn diwedd dadl boeth â meistr y stesion, yr oedd gennyf le helaeth i gredu fy mod yn adyn o'r fath iselaf, a bod blynyddoedd o benyd-wasanaeth yn fy aros. Sylwch ar y Ffrancwr yn ymwthio i drên neu fws, heb dalu sylw yn y byd i wragedd neu blant a fo'n disgwyl o'i flaen. Lleinw bob cornel o'r cerbyd â'i gelfi, a chewch drafferth i'w symud (eto nid cymaint ag a gefais unwaith ar law dau Ellmyn ystyfnig rhwng Florens a Bologna a wrthododd yn glir adael i mi a'm cyfaill fyned i mewn i gerbyd gwag bron, nes i ni alw swyddog i'w gorfodi), a gwae chwi os agorwch ffenestr y carai ef ei chau, neu i'r gwrthwyneb. Nid mor aml y gwelir ef yn codi i gynnig ei sedd i fenyw. Ac eto, er hyn i gyd, y mae'n dda gennyf y Ffrancwr rywfodd, ac y mae dyn o'r diwedd yn dysgu ei gymryd fel y mae—un o brif wersi teithio, onid e? Cyn tewi ar hyn, dylwn ddywedyd yn eglur *nad* haeru yr wyf fod pobl Ffrainc yn bobl angharedig. Gwn am ormod

o lawer o enghreifftiau i'r gwrthwyneb. Ceisio egluro'r wyf nad o'u caredigrwydd y cyfyd eu moesgarwch, ond o egwyddor wahanol. Y mae dyn angharedig yn Ffrainc yn gorfod " byhafio'i hun " yn llawer mwy cyson nag y mae'n rhaid iddo gyda ni.

Ai dyma'r lle gorau i mi sôn am fater arall? Sieryd rhai ohonom lawer am y Ffrancwr " annuwiol " a " digrefydd," a chyffroir eu dig yn enwedig gan yr hyn a ystyriant yn ddiffyg parch at " y Saboth " (term technegol yw'r " Saboth " mewn sgwrs o'r fath!) I ddelio â'r Sul yn gyntaf. Yn gam neu'n gywir, dydd *gwyl* yw'r Sul yn Ffrainc—dydd y gelli, os mynni, beidio â gweithio arno. Nid oes orfodaeth arnat i beidio â gweithio, ac felly ceir gweled llawer siop fechan, a llawer gweithdy cartref, ar agor ar y Sul, neu am ran o'r Sul. Bydd siopau mawrion a gweithfeydd yn cau am y rheswm syml ei bod yn haws rhoddi gŵyl i bawb gyda'i gilydd mewn busnes felly na chadw'r lle yn agored i ryw ychydig. Beth am yr agwedd grefyddol? Wel, os wyt yn teimlo ar dy galon fyned i'r eglwys, y mae yno eglwys i ti, dos yno. Gelli fyned i'r farchnad a phrynu defnydd dy ginio, galw yn yr eglwys ar dy ffordd adref, cymryd dy ginio wedyn a myned i'r wlad yn y prynhawn, neu i weled y bêl droed, neu, o ran hynny, fyned drachefn i'r eglwys i wrando'r Gosper, fel y mynni. Oblegid sylwer ar wahaniaeth pwysig rhwng eglwysi'r Cyfandir a'n heglwysi ni—ac y mae'n ddigrif gweled fel y mae hyd yn oed Eglwys Rufain yn Lloegr yn tueddu i ddilyn y patrwm Seisnig yn hyn o beth. Gyda ni, *achlysur* arbennig (pa mor aml bynnag y digwyddo) yw gwasanaeth mewn eglwys neu gapel. Ond ar y Cyfandir, y mae'r gwasanaeth " *on tap* " (maddeuer yr ymadrodd, ond y mae'n rhaid i mi wrtho!) yn yr eglwysi; y mae yno i'w gael, gelwch i mewn os oes arnoch ei eisiau—dyna'r syniad. Nid oes y fath beth

â " dyfod yn hwyr i'r gwasanaeth "—trowch i mewn, yna ewch allan pryd y mynnoch. Wrth gwrs, y *mae* dechrau a diwedd i'r Offeren (fel rheol fe'i cenir deirgwaith neu bedair ar fore Sul mewn eglwys go bwysig) ond ni waeth : cei ddiwedd un Offeren, ychydig o seibiant a distawrwydd, yna rannau cyntaf yr Offeren nesaf, ac allan â thi. Ac yn fy myw nid wyf yn gallu gweled dim allan o le yn hyn, nac yn wir yn Sul y Cyfandir yn gyffredin.

A ydyw Ffrainc yn wlad ddi-grefydd? Yn sicr, nid estron na threuliodd ond ambell haf yno a fedr ateb yn iawn. Ond y mae dwy ffaith yn bur amlwg ar yr wyneb. Un, y mae'n ofidus ei hadrodd, ydyw bod osgo'r wladwriaeth tuag at yr eglwys yn sicr yn elyniaethus iawn. Nid yn unig y mae'r awdurdodau'n *an*-eglwysig, y maent yn *wrth*-eglwysig. Nid wyf yn anghofio bod rhesymau da am hyn. Y mae'r eglwys yn Ffrainc heddiw'n dioddef oherwydd y trais a'r anghyfiawnder mynych a ddangoswyd ganddi yn y gorffennol—annhegwch yn magu annhegwch, fel y gwelwyd yn aml, megis yng Nghymru. A hefyd, o 1875 ymlaen, dewisodd yr Eglwys gymryd " ochr " mewn gwleidyddiaeth, gan bleidio Brenhiniaeth yn erbyn y Weriniaeth. Naturiol oedd i'r Weriniaeth ei hamddiffyn ei hun a bod yn bur llym ar yr eglwys. Sut bynnag, nid oes amheuaeth ynghylch yr elyniaeth rhyngddynt. Ni thâl i swyddogion y wladwriaeth (oddi eithr yn y fyddin, lle mae'r ffasiwn yn aml fel arall) fod yn flaenllaw gyda chrefydd. Penodwyd cyfaill i mi'n athro mewn ysgol yng ngorllewin Ffrainc. Anfonodd y Prifathro ato, yn ddigon cyfeillgar, i'w rybuddio i fod yn ofalus iawn gyda chrefydd ; fod ei ragflaenydd wedi achosi cryn siarad trwy fyned i'r Cymun!

Ond yr ail ffaith, mor bell ag y gwelaf i, yw bod moddion gras yn llawn mor boblogaidd yn Ffrainc

ag ydynt yng Nghymru. Wrth gwrs, ni all dyn adrodd ond y peth a welodd, ac efallai bod ardaloedd yn Ffrainc lle mae'r eglwysi'n llawer gwacach nag y gwelais i hwy. Eto, fel y digwydd, yr wyf wedi ymweled â lleoedd digon pell oddi wrth ei gilydd, a digon annhebyg i'w gilydd, ac wedi talu cryn sylw i'r mater yma. Tebyg iawn y gwelaf i 'r ddwy wlad : os oes yn Ffrainc leoedd fel rhannau mwyaf " anystyriol " Caerdydd, y mae yno hefyd leoedd fel Llangeitho. Yno, fel yma, gwragedd sy'n cyfansoddi rhan helaeth o'r gynulleidfa. Yno, fel yma, nid oes amheuaeth nad agwedd gymdeithasol crefydd yn aml yw'r cymhelliad cryfaf i fynychu'r eglwysi. Ond y mae hefyd yn Ffrainc, yn amlwg ddigon, lawer—llawer iawn—o wir dduwioldeb, o sêl, o weithgarwch gyda chrefydd. Ni all hyd yn oed Anatole France, er ysgwyd ei ben a gwenu'n dosturiol, beidio â darlunio enghreifftiau o hyn.

Bychan, wrth gwrs, yw gwerth tystiolaeth y sawl nad ymwelodd ond ag eglwysi mawrion Paris : â Nôtre-Dame, y bydd pawb yn myned iddi o gywreinrwydd ; â St. Sulpice neu St. Roch neu St. Eustache, lle y tyrra pawb i glywed y gerddoriaeth. Ond y mae'r tŷ y byddaf yn arfer disgyn iddo ym Mharis ar gyfer hen Eglwys St. Jacques. Eglwys blwyf ddiaddurn, an-ffasiynol, yw hon ; a sylwais yn aml gymaint sy'n troi i mewn iddi ar Sul a gŵyl, a phrysured yw'r cwmni bychan o offeiriaid sy'n byw yn y ficerdy wrth ei hochr. Llawn ydyw'r Eglwysi Cadeiriol yn y taleithiau hefyd, yn Lyon, er enghraifft, neu yn Dijon, neu Clermont-Ferrand, neu Autun. Yn ddigon aml, ni cheir ond sefyll o fewn i'r drws, gan lawned yw'r eglwys—ac yn enwedig ar ddydd Dyrchafael Mair Forwyn (wrth gwrs, y mae ysgolfeistr a elo i Ffrainc yn rhwym o fod yno ar yr ŵyl honno). Ond nid oes raid i ddyn ei gyfyngu ei hun i'r prif eglwysi.

Gwelais St. Martin d' Ainay yn Lyon yn anghyfforddus o lawn, a bûm brynhawn Sul yn St. Michel yn Dijon, yn gwrando yn un o lawer ar bregeth hir a difrifol. Beth am yr ardaloedd gwledig? Y mae arnaf ofn nad oes gennyf brofiad yma. Ond wrth fyned trwy ryw bentref un Sul gwelais lawer iawn yn eu dillad gorau yn prysuro i'r Eglwys, ac mewn eglwysi eraill yn y wlad, lle yr oedd corau neu "seti" yn lle'r cadeiriau a welwch mewn tref, sylwais fod cerdyn ag enw'r teulu arno ar dalcen pob côr, yn union fel mewn capel yng Nghymru. Diddorol hefyd yw gweled mor debyg, wedi'r cwbl, yw crefyddau i'w gilydd (oni sylwaist ti ar hyn yn y gwib-ddarluniau o fynachlogydd Bwdistaidd Tibet?) yn eu hallanolion. Hyd yn oed yn Eglwys Gadeiriol annaearol ddieithr Le Puy, gwelais hysbysiad fod y Canon Hwn-a-hwn yn myned i roddi pregeth ar "Amcanion mudiad y *Boy Scouts*," ac ar ddrws Clermont-Ferrand yr oedd darlun o *boy scout* hynod hardd a thrwsiadus, â'i law ar ysgwydd crwtyn carpiog, ac yn dywedyd wrtho, "Tyred gyda ni"—i ble, nis gwn. A dymunaf alw sylw rhai o'm cyfeillion gwrth-Fodernaidd at y ffaith nodedig iawn fod Eglwys Rufain yn prysur foderneiddio ei *seintiau*. Mewn eglwys ar ôl eglwys, gwthiwyd hen seintiau'r Eglwys Fore allan gan enwau newyddion. Y delwau amlycaf a pharchusaf o lawer yn Ffrainc ydyw eiddo Jeanne D'Arc a'r gŵr gwir dduwiol hwnnw, Vianney (*le curé d' Ars*). Ac am fraich Jeanne rhwymir y rhuban tri-lliw—arwyddlun y Chwyldro "annuwiol"! Beth a feddyliasai'r eneth wrol deyrngar o hyn, tybed?

Y mae sôn am Vianney yn ein hatgoffa o'r pererindodau anferth i leoedd fel Ars, Paray-le-Monial, Rocamadour, Lourdes, etc. Beth bynnag a feddyli di ohonynt, nid gwiw gwadu eu pwysigrwydd. Ar adegau neilltuol, bydd y ffyrdd haearn yn llawn o

drenau arbennig, yn cludo miloedd lawer o bobl i'r mannau hyn. Na, prin y gallaf gredu bod yr eglwys yn Ffrainc yn edwino'n gyflym iawn.

Y mae llawer " nodwedd " arall o eiddo'r Ffrancwr yn diflannu wrth graffu arni. Pwy, ar ôl ymgydnabyddu â gwaith yr ysgolheigion mawr Ffrengig ar y clasuron, ar Hanes Rhufain, ar yr Oesoedd Canol, a fodlona ar y cyferbyniad mynych rhwng y Ffrancwr " arwynebol " a'r Ellmyn " llafurus " a " thrwyadl "? Y gwir yw bod ysgolheigion Ffrainc yn gweithio fel morgrug. Os dysgodd eu hysgolion hwy i ysgrifennu'n glir a darllenadwy, pa fai yw hynny? Ac y mae eu beirniadaeth, eu gallu i bwyso ac i fesur tystiolaeth, yn llawn cystal ag a geir yn yr Almaen. Ceisiaf ddangos yn nes ymlaen ymhle mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy genedl mewn ysgolheictod.

A gaf i wedi'r cwbl gyffwrdd â deupeth neu dri sy'n ymddangos i mi'n wir wahaniaethau rhwng y Ffrancwr a'r Sais? Y cyntaf yw hwn: y mae, ar y cyfan, yn wir bod y Ffrancwr yn gyffrous ei ysbryd, yn hawdd ei ddeffro (i frwdfrydedd neu i ddicter), a'r Sais yn oerach. Eto cofier bod cyffro'r Ffrancwr yn hollol *resymol* ei natur—yn hollol resymegol o ran hynny. Y mae'n *gweled* peth i ddechrau, cyn gorfoleddu neu felltithio ar ei gorn. Ond y mae'r Sais, fel y mae Bernard Shaw wedi dangos bron i ormodedd, yn sentimental yn y bôn—yn aml ni ŵyr o gwbl paham y mae'n teimlo fel hyn neu fel arall.

Gwahaniaeth arall: cryfder y Ffrancwr yw ei ffraethineb (*wit*), peth yn perthyn eto i'r ymennydd. Nid oes wlad dan haul mor hoff o flaenllymu geiriau, na llenyddiaeth dan haul yn llawnach o feistri ar y gelfyddyd hon, megis Voltaire neu Anatole France eto. Ond rhydd y Sais fwy o le i hiwmor—peth dyfnach o lawer.

A thrachefn, noder y gwahaniaeth dirfawr rhwng y ddwy lenyddiaeth. Arferwn yn aml y ddau air "clasurol" a "rhamantus," ac fe wnânt y tro i mi am foment. Y mae awduron "clasurol" gan y Saeson, ac awduron "rhamantus" ymysg y Ffrancwyr. Ond, fel rheol, y "clasurol" piau hi yn Ffrainc, a'r "rhamantus" yn Lloegr. Ymennydd a chalon eto, onid e? Y mae syniad y Ffrancwr am farddoniaeth bron yr un yn union â syniad yr hen Gymry. Nid y mater sy'n bwysig: gall hwnnw fod yn ddigon cyffredin—yng Nghymru, gofyn am farch, neu lyfr, llongyfarch y noddwr ar ei ben blwydd, ac felly ymlaen. Y *ffurf* ydyw'r peth: y mesurau cywrain, yr "ymadrodyon kyfyawn o eirieu adurn arderchawc" fel y dywed *Llyfr Coch Hergest*. Y mae Cymru, erbyn hyn, wedi troi i raddau mawr at y syniad Seisnig am farddoniaeth, ond y mae ein traddodiad eto'n ein galluogi ni yn y peth hwn i ddeall y Sais a'r Ffrancwr fel ei gilydd. Ond nid ydynt hwy'n deall ei gilydd: y mae'r Sais, ar y cyfan, yn llwyr analluog, er ymdrechu'n onest, i werthfawrogi Racine, y mae'r Ffrancwr yntau'n edrych yn syn ar Wordsworth. Gwlad Ladinaidd yw Ffrainc: ar ddull rhetoraidd yr ysgolion Rhufeinig y trefnwyd ei haddysg; y mae Cicero gartref yn Ffrainc, ond y mae'r Sais a'r Allman, ar ôl gorffen dysgu Lladin ar ei law, yn ei ddirmygu fel baldorddwr ymffrostgar; ac y mae "dywedyd peth yn dda," yn gelfydd, yn aruchel, yn werth amcanu ato, yn Ffrainc, hyd yn oed pan na bo'r peth ei hun yn aml yn werth ei ddywedyd o gwbl. Peth mawr yn eu golwg hwy yw *rheol*, canys y mae rheol yn gorffwys ar ddeall, ar reswm. Pa *reswm* bod drama, sy'n cael ei hactio mewn teirawr, yn ceisio darlunio bywyd dyn o'i febyd i'w fedd, ac yn neidio o wlad i wlad mewn dull hollol anhygoel? Pa *reswm* bod drama a ddylai ddangos inni *un* digwyddiad neu *un* newid

mawr ym mywyd ei harwr, yn colli amser ac yn chwalu ein sylw trwy hel pethau hollol amherthynasol i mewn? Dyna, yn fyr, y paham na fyn y Ffrancwr mo Shakespeare. Gwn yn eithaf da fod eithriadau, creaduriaid di-reol fel Rabelais. Eto sylwer mai ar ôl oes Rabelais yr enillodd yr Ysbryd Clasurol y llaw uchaf yn Ffrainc, a bod llenorion fel Rabelais yn mynd yn anamlach beunydd ar ôl 1600.

Rheswm: dyna air mawr y Ffrancwr. Hynny yw, yr hyn a ymddangoso'n rheswm iddo ef ar yr adeg—fe all newid ei feddwl wedyn, fel pawb ohonom. Ond y mae casgliad a ymddangoso'n rhesymol yn abl i dywys y Ffrancwr yr holl ffordd. Nid felly'r Sais. Y mae hwnnw'n aml yn rhy ddiog i ymresymu'n drwyadl, ac am hynny y mae'n aml yn destun gwawd i genhedloedd cyflymach eu meddwl. Ond y mae hefyd rywbeth gwell na hyn yn arafwch a "hanerwch" y Sais. Clywais Bernard Shaw unwaith mewn dadl â Hilaire Belloc ar "erledigaeth," yn dywedyd rhywbeth fel hyn: "os yw dilyn llinell o ymresymiad yn arwain dyn i gasgliad sy'n ymddangos yn greulon neu'n wrthun, yna y mae rhywbeth allan o'i le ar yr ymresymiad hwnnw." Y peth rhyfedd oedd clywed Shaw yn dywedyd hyn! Ac y mae'n debyg bod yn y Sais, heblaw'r diogi meddwl y soniais amdano, ryw reddf yn ei rybuddio beunydd nad yw rhesymeg bob amser yn iawn, a hynny am na ellir yn deg ofyn i resymeg warantu gwirionedd ei rhagosodiadau. Erledigaeth grefyddol,—ar law Pabydd neu Biwritan, nid oes wahaniaeth—y mae'n eithaf *rhesymol*, os ydyw'n wir nad oes iachawdwriaeth i ddyn neu i wlad y tu allan i'r cyfundeb hwnnw. Ond heblaw ei fod yn garedig wrth natur, myn y Sais yn aml wrando ar ryw lais ynddo'i hun yn sisial: "Ie, ond a wyt ti'n *sicr* mai dyma'r cwbl o'r gwir? Aros funud, nid hwyrach y daw rhyw olau arall ar y peth." Bai'r

Sais, wrth gwrs, yw dyrchafu'r egwyddor ddigon ymarferol hon i safle benarglwyddiaethol, nes bron wadu i resymeg unrhyw le o gwbl. Ar y llaw arall, mor aml y mae'r rheswm noeth wedi arwain Ffrancwyr o bob math i ffyrnigrwydd a gorffwylledd. Bu i Brydain ryfeloedd cartrefol, megis Rhyfel y Rhosynnau a'r Gwrthryfel Mawr, ond ysgarmesoedd cyfeillgar fu'r ddau o'u cymharu â rhyfeloedd cartrefol Ffrainc. Gymaint a ddarllenasom am y lladd a'r treisio yn Neheudir Ffrainc yn Rhyfel yr Albigensiaid, neu am gyflafan Bartlemi, neu am y Dyddiau Dychryn yn 1793–4, neu am yr hyn a ddigwyddodd ym Mharis yn 1848 a 1871. Na themtier ni chwaith gan swyn ysgrifeniadau Owen Edwards i anghofio ffyrnigrwydd y Protestaniaid Ffrengig; nid yw'n bosibl teithio ymhell yn neheudir Ffrainc (lle'r enillodd y Protestaniaid y llaw uchaf am beth amser) na darllen hanes y fro honno, heb glywed sôn am y Barwn Des Adrets, a gweled mewn llawer tref olion y llosgi a'r malurio a wnaeth ef a'i gyffelyb. Ac nid crefyddwyr diniwed a syml oedd y bobl a erlidiwyd gan filwyr Lewis Fawr yn y Cevennes: nid oes fawr o le i ddewis rhwng Pabydd a Phrotestant yma eto. Onid Ffrancwr hefyd oedd Calfin ei hun, ac a welwyd erioed y fath enghraifft o anhrugarowgrwydd rhesymeg â'r hen ddiwinyddiaeth Galfinaidd, er cryfed llawer cymeriad a gynhyrchwyd ganddi? Felly hefyd am resymeg ddi-drugaredd Chwyldro 1789. Credid ei bod yn rhaid difodi er mwyn ail-adeiladu: gwell gan y Sais drwsio a thaclu.[2]

[2] Newydd ysgrifennu'r uchod, gwelais lyfr bychan rhagorol Mr. David Ogg ar y Diwygiad Protestannaidd. Y mae arnaf flys codi dwy frawddeg am Galfin: "... inflexible and ruthless, surrendering himself to the domination of a doctrine from which every human instinct revolts ... What Lenin was to the monarchist regime in Russia, such was Calvin to the empire of Catholicism in Western Europe: in both men there was the same ... refusal to deviate by a hair's breadth from the path indicated by an imperious logic ..."

Nid oes amser i drin ar fater arall y tybir yn aml fod gwahaniaeth mawr arno rhyngom ni â'r Ffrancwyr. Dywedir yn aml fod pobl Ffrainc yn nodedig o "anfoesol." Y mae'n deg sylwi mai ar nofelau a dramâu'r Ffrancwyr eu hunain y mae llawer o'r bai am y casgliad hwn. Ond byddai'n dda i ni, Gymry, gofio am lyfrau Mr. Caradog Evans, neu yn wir am Lyfrau Gleision 1847. Y cwestiwn yn Ffrainc ac yng Nghymru ydyw, nid a ellid dyfod o hyd i enghreifftiau tebyg i'r pethau a adroddir gan Zola neu gan Garadog Evans; ond i ba raddau y mae pethau o'r fath yn wir am gorff y genedl yn ei bywyd beunyddiol. Ac er bod y Ffrancwr, fel y sylwais o'r blaen, yn fwy rhydd ei dafod ar faterion rhyw nag ydyw'r ffasiwn yn yr ynys hon, a heblaw hynny yn draddodiadol ddireidus ar y materion hynny, mi gredaf nad oes fawr wahaniaeth yn y pen draw rhwng Ffrancwyr a Phrydeinwyr mewn "moesoldeb." Mater arall yr arfer llawer ohonom ysgwyd ein pennau drosto yw'r dull Ffrengig o drefnu priodasau. Fe gymerai ddalennau lawer i mi i egluro safbwynt y Ffrancwr ar hyn o beth, ond gwreiddyn y gwahaniaeth, yn y peth yma eto, ydyw rheswm cryf y Ffrancwr a theimlad cryf y Sais, a'r rheswm hwnnw'n dyrchafu'r teulu, y gymdeithas, ar draul y dyn unigol.

Y mae llawer iawn o nodweddion Ffrainc na chaf amser i'w trin. Ond carwn dreulio ychydig amser eto gyda dangos fel y mae rhai gwahaniaethau pwysig rhyngom ni â'r Ffrancwyr yn codi o ffeithiau, hanesyddol gan mwyaf, yr ydym ni yn dueddol iawn i'w hanghofio.

Y gyntaf o'r ffeithiau hyn ydyw bod Ffrainc yn *hen wlad*. Nid hawdd, heb roddi braslun o hanes Ffrainc, fyddai egluro'n glir iawn y gwahaniaeth rhyngddi â ninnau yn hyn o beth. Ond ystyried y darllenydd am funud fel y mae hanes Lloegr, er

enghraifft, wedi ei fylchu. Diflannodd oes Rhufain yn Lloegr, i bob pwrpas, pan ddaeth Hengist a Horsa drosodd o'r Almaen. A dyna fwlch mawr wedyn, pan ddaeth Gwilym Dew a'r Normaniaid i Loegr. Nid yw'n rhaid i mi gyfeirio at esiamplau o'r un peth yn hanes Cymru. Ni bu gan yr Almaen gyfnod Rhufeinig gwerth sôn amdano, a chloffwyd ei chenedlaetholdeb am ganrifoedd gan freuddwyd y " Santaidd Ymerodraeth." Gwasgarog ac aflonydd fu bywyd yr Eidal, er iddi hi gadw'r *gwareiddiad* Lladinaidd traddodiadol i raddau mawr. A bu Ysbaen, hithau, am amser maith dan iau'r Arabiaid. Ond am Ffrainc, yr oedd ei thraddodiadau Rhufeinig yn ddigon cryf i orchfygu'r newydd-ddyfodiaid, ac er gwaethaf ei hanhrefn ffiwdalaidd a'i rhyfeloedd hir â brenin Lloegr, yr oedd ganddi ar hyd yr oesoedd Canol ymdeimlad cryf o unoliaeth, ymwybyddiaeth genedlaethol. Fel y dywed rhyw hanesydd Ffrengig, yr oedd " Ffrancwyr " yn ddigon adnabyddus cyn geni " Ffrainc." Hyd yn oed yn Languedoc, gyda'i hiaith wahanol, yr oedd rhyw ymwybyddiaeth mai planed yn y gyfundrefn Ffrengig oedd hithau, yn troi gyda'r lleill o gwmpas yr haul mawr ym Mharis. Ond dyna ddigon ar yr hanes,; edrychwn am ychydig ar rai o ganlyniadau'r bywyd *di-dor* hwn.

Yn fyr, dyma hwy : y mae Ffrainc yn wlad *Ladinaidd*, yn wlad o *hen wareiddiad*, yn wlad *ddinesig*. Fel gwlad Ladinaidd, y mae'n wlad o drefn, o ddisgyblaeth, yn wlad (fel y dywedwyd eisoes) o addysg retoraidd ac o draddodiad clasurol, ac (yn neilltuol) yn wlad lle mae'r unigol yn llawer llai pwysig na'r gymdeithas o'i gwmpas. Sylwa Brunetière mai nod mawr llenyddiaeth Ffrainc ydyw mai llenyddiaeth *cymdeithas* yw ; ni rydd gymaint o lawer o heol i arbenigrwydd unigol ag a rydd y llenyddiaeth Seisnig. Nid ymddiddora'r llenor Ffrengig (medd ef) ond mewn

pethau sy'n ddiddorol i bawb o'i gwmpas. Ac mi gredaf fod hyn yn nodwedd ar ysgolheictod Ffrainc hefyd. Fel y sylwais o'r blaen, nid mewn trylwyredd na diwydrwydd y mae'r Almaen yn rhagori ar Ffrainc. Yn hyn y mae'r gwahaniaeth : mewn meysydd sydd (am unrhyw reswm) yn bur agos at galon y genedl, chwi gewch lyfrau Ffrengig o'r radd flaenaf, llyfrau na ellir gwella arnynt. Ond yn y meysydd na bo'r Ffrancwr yn hoff ohonynt, nid yn unig ni chewch lyfr da, ond prin y cewch lyfr o gwbl. Y mae'r Allman yn llawer mwy *disinterested*, yn burach ei gariad at wybodaeth er ei mwyn ei hun, yn hyn o beth : ni waeth ganddo ef pa iaith, pa lenyddiaeth, pa gyfnod o hanes ; i mewn ag ef, mor ddiwyd â thwrch daear—ac yn aml lawn mor ddall. A dyna'r paham y mae'n rhaid i'r ddeuddyn diog, y Cymro a'r Sais, ddysgu Allmaneg yn anad un iaith dramor.

Gwlad hefyd yw Ffrainc lle mae gwareiddiad yn hen —fel eiddo'r Eidal. Y mae hyn yn amlwg iawn mewn pethau allanol, megis adeiladau. Heb sôn am weddillion helaeth yr oes Rufeinig yn neheudir y wlad, y mae ei heglwysi a'i muriau a'i chestyll yn myned yn ôl i gyfnod pell iawn—cymharer hi yn y peth hwn â Chymru, lle nad oes, medd yr Athro J. E. Lloyd, unrhyw eglwys na darn eglwys hŷn na dyfodiad y Norman. Er cymaint y llosgi a'r dinistrio, y mae'r bywyd celfyddydol wedi rhedeg bron yn ddi-dor trwy holl hanes Ffrainc. Ni all hyn fod heb ei effaith. Ynghyd â'r elfen resymol gref, yr ymdeimlad o gymesuredd ac o gytbwysedd a gafodd Ffrainc oddi ar law ei thraddodiad a'i haddysg Ladinaidd, rhoddes y gelfyddyd yma i fywyd y Ffrancwr beth na ellir ei alw ond â gair Ffrangeg—*elegance*. Ar brydiau—megis yn oes Lewis Fawr a than y ddau Napoleon—gwenwynir hwn i raddau gan rwysg ymerodrol ac efelychiad o waith basaf Rhufain, nes troi ohono'n

drymder llethol a di-chwaeth, ond fel rheol y mae chwaeth naturiol y Ffrancwr yn cael y llaw uchaf.

Ac y mae'r gwareiddiad yma'n ddinesig. Nyni'r Cymry, bron yn unig yn Ewrop y gorllewin, sydd wedi medru hepgor y dyrnaid bychan o eiriau sy'n deillio o'r Groeg *polis* a'r Lladin *civis* neu *urbs*. Soniwn ni am "wareiddiad" a "diwylliant," ac y maent yn eiriau campus. Ond nid ydynt yn allweddau i hanes, fel y mae'r geiriau *politics*, *civic*, *civil*, *civilisation*, *urbane* yn Saesneg. Y gelfyddyd o *fyw mewn dinas* sydd yn y geiriau hynny. Dyna gyfraniad mawr Rhufain i'r gwledydd. "Pobl y wlad" fu'r Cymry (myn rhai ohonom mai pobl y wlad ydynt eto), pobl y wlad oedd yr hen Saeson a'r hen Ellmyn. Ond dysgodd Rhufain lwythau Gâl i fyw mewn dinasoedd, neu o leiaf i ganolbwyntio'u bywyd ar ddinasoedd. Ac er nad oedd bywyd dinesig yng nghanol a gogledd Ffrainc mor gryf o lawer ag yn yr Eidal, yr oedd yn llawer iawn cryfach nag ym Mhrydain, a chanddo hefyd yr Eglwys y tu cefn iddo yn erbyn y barbariaid. Felly hawdd oedd cynnal y bywyd hwn ym Mhrofens a Languedoc, a'i atgyfodi yn y Gogledd a'r Canol. Cyn symudiadau diwylliannol y ganrif ddiwethaf, gwlad o dyddynod oedd Cymry: onid enwau tai sydd ar ein gwefusau beunydd—y Gerddi Bluog, Pontymeibion, Pantycelyn, Dolwar Fach; enwau trefi neu bentrefi nid mor aml? Yn Lloegr, y pentref oedd gogoniant y wlad, a bron yn gydradd ag ef y dref farchnad fechan. Ond yn Ffrainc, y delfryd neu'r patrwm cymdeithasol yw'r dref ganolog, tref o ugain mil i hanner canmil o bobl. Yn aml y mae'n dref esgob—y mae esgobion yn llawer mwy niferus yn hen wledydd "dinesig" y Môr Canol nag yng ngwledydd newydd y gogledd; odid nad yw'n dref sir hefyd, ac weithiau bydd yn ganolfan byddin, yn gartref Uchel lys neu Brifysgol. Ond yr esgob, yn

gyffredin, yw'r ddolen rhyngddi â'r hen fyd Rhufeinig, oblegid fel rheol yn y *civitates* Rhufeinig—ryw drigain neu ragor ohonynt—y plannwyd yr esgobion cyntaf, ac er bod map eglwysig Ffrainc wedi newid cryn lawer yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac wedyn ar ôl y Chwyldro Mawr, y mae llawer iawn o'r esgobaethau yn hŷn o ganrifoedd nag odid ddim sydd gennym ni. Y tu allan i'r dinasoedd hyn, ac i'r trefi llai (eto nad ydynt ond yn union yr un peth ar raddfa fechan), y mae'r wlad, er amled ei phentrefi bychain, braidd yn ddifywyd, yn ddi-ymwybod; nid yw ond atodiad megis i'r dref. Ni phetrusa'r llyfrau, er enghraifft, ddywedyd wrthych mai " yn nhref X " y ganed rhyw ddyn mawr neu gilydd. Ond erbyn cyrraedd X, y gwir ydyw mai mewn amaethdy, yn ymyl pentref bychan, *o dan adain* X, y ganed yr arwr. Buasem ni, Gymry, yn dywedyd " yn y Cefn Brith "; y Sais " in Little Peddlington "; ond dywed y Ffrancwr " yn Dijon."

Gymaint o'r trefi hyn, fawr a mân, sydd yn Ffrainc, ac mor ddiddorol eu hastudio! Y mae, ar yr olwg gyntaf, lawer o amrywiaeth ynddynt—bydd un ar fryn uchel, arall mewn ynys yng nghanol afon (dechreuad Paris ei hun), arall mewn gwastadedd agored, a'r ffyrdd yn rhedeg i mewn iddi fel gwe pryf copyn. Ond buan y dysg y teithiwr fod tebygrwydd hynod rhyngddynt, ac wedyn y cwestiwn diddorol, wrth i'r trên agosâu at dref, fydd, " Sut job fyddan 'nhw wedi ei wneud ohoni *yma*, tybed? "—yn fwy urddasol, pa drefn fydd *yma* ar yr elfennau cyffredin? Dyma'r stesion—fel rheol, gryn bellter o'r dref, neu o leiaf o ganol y dref (eto y mae Ffrainc, fel Sir Fôn, yn tyfu pentrefi a darnau trefi o gwmpas y stesion). Yn y cyntedd o flaen y stesion, dyma'r hyn a eilw Gabriel Hanotaux " l'inévitable omnibus de l' inévitable Hôtel de la Poste." Cyn hir, dyma'r bws

hwn yn croesi rhodfa lydan ddeiliog—y *Boulevard* yw hwn, yn rhedeg yn gylch o gwmpas y dref; bu unwaith fur yno, ac yn wir mewn ambell dref mwy hynafol na'i gilydd bydd yno eto ddarnau o'r mur, fel yn Sens, neu hyd yn oed fur cyfan, fel yn Avignon. Ond gelli ddibynnu ar y Boulevard, y mae hwnnw ymhobman, ac yn ddigon aml bydd yno hefyd erddi cyhoeddus; gwna'r trigolion lawn defnydd o bob un o'r ddau. Ond ymlaen â thi i'th westy, ac onid yw'n rhaid i'r dref ddringo i fyny ochr bryn, neu yswatio mewn lle cul, bydd y gwesty hwnnw ar ymyl ysgwâr pur helaeth (yno y bydd y farchnad); onid yw'r Eglwys Gadeiriol hefyd ar yr ysgwâr, bydd yn hawdd ei gweled oddi yno: yno hefyd y bydd y Maerdy, ac (mewn tref sir) adeilad gwych y *Préfecture*—tŷ a swyddfa'r swyddog uchel sy'n ben ar bob sir yn Ffrainc; swydd nad oes gennym ni ddim byd yn cyfateb iddi. Bydd yno hefyd, y mae'n debyg, Amgueddfa a Llyfrgell, ac efallai ysgol neu Goleg Hyfforddi. A chofio'r hyn a ddywedais o'r blaen am yr elyniaeth rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, ni bydd yn syn gennym weled, mewn llawer dinas, mai hen Esgobty neu Goleg Diwinyddol neu fynachlog, yn ddigon aml, ydyw'r Préfecture neu'r Amgueddfa! A hawdd iawn yw troi hen goleg y Jesuitiaid yn Ysgol Ganol i Fechgyn—dacw hi, ar gyrrau'r dref, adeilad trwm fel carchar, a rheiliau haearn heirdd o gwmpas ei gerddi helaeth. Y mae'r merched yn fwy ffodus—bu raid adeiladu ysgol arbennig iddynt hwy, gan nad oedd yr Eglwys wedi darparu'r fath beth ymlaen llaw!—ac y mae eu hysgol yn newydd ac yn olau. Bu Plas y Pabau yn Avignon am hir yn lluesty nes i hynafiaethwyr brotestio; y mae hen esgobty hardd Auxerre yn Préfecture, esgobty Autun yn Amgueddfa, ac felly ymlaen, a theimla un Methodist Calfinaidd, beth bynnag, beth chwithdod wrth weled hyn. Bryd arall,

y mae'r Byd yn herio'r Eglwys—yn Sens, er enghraifft. Yno, nid oedd unwaith ond yr hen Eglwys Gadeiriol yn hofran yn uchel uwchben yr hen ddinas dawel ar y gwastad. Fel Eglwys Ely, gellid ei gweled filltiroedd o ffordd. " Ni wna hyn mo'r tro," medd y Byd; ac adeiladwyd Maerdy newydd spon i'r ddinas; codwyd ef i uchter mawr, a phinaclau arno, ac yn awr y mae dau benmaen yn ymgodi uwchlaw'r hen ddinas—melyn yr Eglwys a gwyn y Byd. Fel un a geisiodd gysgu rhwng y ddau, da fuasai gennyf pe buasai'r ddau gloc, beth bynnag, wedi medru cytuno! A dyma ddefnydd " strôc " i bregethwr poblogaidd,—yr oedd y Byd amryw funudau o flaen yr Eglwys, ond yr oedd llais yr Eglwys yn llawer mwy peraidd!

Difyr yw sylwi fel y mae Ffrainc ar hyd y canrifoedd wedi *glynu* wrth y dref. Wrth edrych ar fap o ddinas Ffrengig, buan yr ymgynefina'r llygad â'r ffaith bod canolfan iddi, bod yr heolydd o gwmpas y ganolfan hon yn gul a throellog (a budron yn aml), a bod heol lydan braf yn ffurfio math o gylch—weithiau'n grwn, weithiau ar lun tarian—o'u cwmpas; ac mai y tu allan i'r cylch hwn (y Boulevard) y mae rhannau newydd a heolydd llydan, glân i'w cael. Ond wrth graffu ymhellach, gwelir ar fap llawer o'r trefi hynaf bod *dwy* ganolfan iddynt (ac weithiau ragor), er enghraifft, yn Autun, Limoges, Périgueux, Albi. Yna darllenwn ei hanes, a gwelwn fod yn aml ddau allu neu dri yn cydfyw, neu o leiaf yn cyd-fod, yn yr hen drefi hyn yn nechrau'r Oesoedd Canol, a bod pob un ohonynt wedi amgylchu ei ddarn ef o'r ddinas â mur. Gan amlaf, yr esgob a'r bwrdeisiaid ydyw'r ddau, a chawn fod yr enwau " La Cité " a " La Ville " eto'n glynu bob un wrth ei ran o'r dref, er bod y muriau wedi hir ddiflannu. Weithiau dyma drydydd gallu—y llywodraeth wladol (boed frenhinol neu ffiwdalaidd); os felly, bydd yno eto ddarn o'r

dref a elwir "Le Château." Bryd arall, mynachlog fawr fydd yn ganolfan i gylch o'i chwmpas;—yn Périgueux, y mae eglwys y fynachlog honno (Saint-Front) erbyn hyn yn Eglwys Gadeiriol, ond y mae hen eglwys yr Esgob eto ar ei thraed yn "La Cité." Rhennid Montpellier yn dri darn, rhennid Arles yn bedwar! A gŵyr y darllenydd yn dda am Baris—"La Cité" yn yr ynys, gyda Phlas y Brenin ac Eglwys Fair; "La Ville" ar lan ogleddol yr afon, cartref masnach; a "L'Université" ar y lan ddeheuol, gydag Abaty mawr Saint-German-des-Prés ("Llan-armon-y-Maes") y tu allan i'w muriau. Hynod iawn yw hen ddinas ryfedd Le Puy. Meddwl am ymbarelo hanner agored, a gelli ddychmygu am Le Puy yn llenwi un hanner iddo. Y pigyn yw delw anferth Mair ar ben y graig—peth newydd yw hon, wrth gwrs, a digon hyll o ran hynny. Wrth droed y pigyn y mae'r Eglwys—yr Eglwys ryfeddaf yn y byd gorllewinol, beth bynnag. Asennau'r ymbarelo yw'r heolydd—nid heolydd, ond grisiau serth, â'r tai yn aml yn pontio drostynt. Ac yng ngwaelod yr ymbarelo, yn yr ymyl allanol, y mae dy westy di, a'r siopau, a'r gerddi, a'r Préfecture newydd hardd, a phethau felly. Ond yn awr, cymer delpyn o sialc (wrth gwrs, dy ymbarelo dy hun sydd gennyt), a thyn linell groes ar yr ymbarelo, ryw hanner ffordd rhwng pigyn ac ymyl. Yr oedd yno fur yn yr Oesoedd Canol —a phob tro y bydd dy linell yn croesi un o'r asennau, cofia fod yno unwaith borth caerog (y mae amryw ohonynt yno eto), a phob un ohonynt yn cael ei gloi ar fachlud haul—nid oedd unrhyw gyfathrach i fod rhwng "Dinas" yr Esgob a "Thref" y bobl wedi nos. A hefyd, ar ymyl dy ymbarelo, ystyria fod pob un o'r clapiau bychain ar ben yr asennau hefyd yn borth caerog, ar fur o gylch, yn amddiffyn "Y Dref" hithau rhag y byd drwg oddi allan.

Y pwynt ydyw hwn—nad oedd un o'r pwerau gelyniaethus hyn am foment wedi breuddwydio am *adael* y dref. Y mae, wrth gwrs, drefi newydd—llawer "Tre'newydd" (Villeneuve) a "Thre-libart" (Villefranche) a "Noddfa" (Sauveterre)—ar fap Ffrainc, yn enwedig yn y de a'r de-orllewin. Eto nid "capeli split" mo'r rhain, eithr creadigaeth hollol newydd, trefi wedi eu *planio*. Edrychwch ar eu ffurf—y maent yn ysgwâr; edrychwch ar eu heolydd—er culed ydynt, y maent yn unionsyth. Gwelwch y math yma o dref ar ei gorau yn Aigues-Mortes, neu yn Carcassone Isaf (*nid* yr hen "Ddinas" ar y bryn). Ond nid yw'n rhaid i chwi fyned o Gymru—daeth y Brenin Edward â'r patrwm yma gydag ef o ddeheudir Ffrainc, a gwna Caernarfon a Chonwy, a hyd yn oed y Bala, y tro yn eithaf da fel enghreifftiau. Ond i ddychwelyd,—er pob gelyniaeth rhwng pleidiau, yr oedd traddodiad y ddinas mor gryf nes bod yn well ganddynt nythu yno, yn ddigon annifyr, na chwilio am loywach nen yn rhywle arall. Y mae hyn yn amlycach fyth yn nhrefi'r Eidal, wrth gwrs, ond â Ffrainc y mae a wnelom ni yma.

Ac y mae i lawer o'r hen ddinasoedd hyn atyniad arall, yn codi o ffaith arall yn eu hanes hir, ffaith nad yw i'w chael yn hanes Lloegr ar ôl 1066, pan ddechreuodd y brenhinoedd Normanaidd guro Lloegr yn un darn â'u gordd haearn. Gwlad o daleithiau hanner annibynnol fu Ffrainc am rai canrifoedd. Ac yr oedd i bob un o'r taleithiau hyn, fawr a mân, ei phrifddinas—Rouen, Angers, Tours, Dijon, Troyes, Toulouse, ac felly ymlaen. Yr oedd yng Nghymru hefyd lawer "gwlad," ond nid oedd trefi'n dygymod â ni, ac ni thyfodd Aberffraw na Mathrafal na Dinefwr yn drefi. Y peth agosaf o lawer yng Nghymru at y peth yr wyf yn myned i sôn amdano ydyw lleoedd fel Caerdydd ac Aberhonddu a Dinbych, a fu unwaith

yn brif drefi rhyw arglwyddiaeth neu gilydd. Un brif ddinas yn Lloegr, dim un yng Nghymru, ond llawer iawn yn Ffrainc. A rhywfodd neu gilydd, y mae ôl hynny arnynt heddiw, ganrifoedd wedi i Baris, mewn un ystyr, sugno eu gwaed. Nid yw'r mawredd, yr urddas, eto wedi cilio. Yn aml y mae hen gastell y Dug neu'r Iarll eto'n gwgu ar y ddinas : yn aml y mae adeiladau mawrion a gwych y llys eto'n aros—megis yn Rouen neu Nevers, Dijon neu Riom, er eu troi'n Neuadd Drefol neu'n swyddfa plismyn. Ac yn ddigon aml, arferai'r hen deuluoedd pendefigaidd noddi'r celfyddydau cain—os felly, yr ydys yn sicr o weled ôl hynny ar eu prifddinas. Hyn, er enghraifft, sy'n cyfrif am ysblander Dijon. Ond cymerwn enghraifft lai godidog na phrifddinas Dugiaeth gyfoethog Bwrgwndi. Meddylier am dref fechan Moulins, rhwng Nevers a Chlermont. Nid yw Moulins heddiw "uwch bawd sawdl," a byddai'n hawdd gennyf gredu mai nyni'n unig o ddarllenwyr y *Llenor* a fu ynddi erioed—a hynny drwy hanner damwain. Soniasom yn siop y barbwr yn Nevers ein bod am dorri'r siwrnai ym Moulins, a gwaredai'r ferch ieuanc siaradus oedd yn gweini arnom. "Moulins!" ebe Dalilah, gan chwifio ei siswrn, "mais c'est une ville triste!"—tref ddiflas. Ac yn wir, yr oedd hi'n berffaith gywir. Yr oedd tai Moulins yn gallu bod yn hen heb fod yn ddiddorol, ei heglwys gadeiriol yn newydd sbon (ond y côr), ac o'i hen gastell nid oedd ond un tŵr yn aros, a hwnnw'n ddigon hyll. Ac eto, dan yr wyneb, y mae ganddi drysorau di-ail. Ynddi y teyrnasai Dugiaid ysblennydd Bourbon—eu capel hwy unwaith ydyw côr yr Eglwys Gadeiriol heddiw, ac y mae'n rhyfeddod o waith Gothig yng nghyfnod "fflamllyd" y gwaith hwnnw, heb sôn am ei ffenestri lliw ardderchog. Yn orielau'r ddinas y mae rhai o ddarluniau godidocaf y byd ; a hefyd un peth arall,

o leiaf, y mae'n werth croesi cyfandir i'w weled, sef Beibl enwog Souvigny—y copi o'r Beibl a ddefnyddiodd Cyngor Constans i arholi John Huss allan ohono. Ni welais erioed ei debyg—yr ysgrifen Ladin hardd, y memrwn trwchus, y cannoedd o ddarluniau mewn aur a lliwiau claer. Diolch lawer am orfod torri'n siwrnai ym Moulins y dydd hwnnw, er mwyn cael trên cyfleus drannoeth.

I orffen y pwnc yma : y mae Ffrancwyr heddiw eto yn falch o'u trefi : yn *byw* ynddynt, yn ymwybodol felly—nid yn unig yn cysgu ac yn gweithio ynddynt. Hoff ganddynt eu harddu—plannu rhodfeydd, codi cof-golofnau, mynnu llythyrdy newydd ac felly ymlaen. Weithiau, wrth gwrs, y mae eu cariad yn gryfach na'u chwaeth, ond pur anaml. A gwiw ganddynt dreulio oriau ar balmant eu prif ysgwâr, pawb a'i gwrw neu ei goffi, yn mwynhau'r harddwch hwn.

Sôn am fywyd y *café* yn Ffrainc : a ydyw'n werth imi wastraffu gofod y *Llenor* i roddi dyrnod eto i'r ynfytyn hwnnw a ddywedodd unwaith na ŵyr y Ffrancwyr beth ydyw cartref, ac nad yw'r gair yn bod yn eu hiaith? Os rhywbeth, y mae'r teulu a'r cartref yn iau braidd rhy drwm ar wddf y Ffrancwr ; yn sicr, y mae'n llawer trymach iau nag ydyw ar y Sais, na hyd yn oed ar y Cymro heddiw. sut bynnag yr oedd arnom ni ddeugain mlynedd yn ôl. Ond ymlaen : dywedyd yr oeddwn fod y Ffrancwr yn hoff o harddu ei dref. Yn Lloegr, damwain o waith hanes, fel rheol, yw tref hardd—anaml y gwelir, megis yn Bath, dref a harddwyd o bwrpas. Y mae'n well gennyf fi ar lawer cyfrif Lundain na Pharis, ond nid gwiw gwadu nad Paris ydyw'r harddaf. Yng Nghymru, ar wahân i drefi'r glannau a harddwyd er mwyn denu " byddigions," gadawyd y peth, fel rheol, i Raglunaeth, hyd yn hyn beth bynnag. Llawer a soniwyd am ymdrech Caerdydd i'w haddurno ei hun, a digon

teilwng yw ymffrost ei phreswylwyr yn hynny. Eithr onid yw'n ffaith huawdl ein bod yn gallu sôn am hyn fel peth eithriadol, ac ymorchestu ynddo? Yn Ffrainc, fe'i cymerir yn ganiataol, a cheisia'r dref leiaf ymgyrraedd ato yn ôl ei gallu.

Ond yr ail o'r tair ffaith fawr y dymunwn gyfeirio atynt ydyw bod Ffrainc yn wlad *gyfoethog* iawn, eto heb fod yn ariannog. Daearyddiaeth a hanes ynghyd sy'n cyfrif am hyn. Y mae'n wlad eang; y mae o fewn ei therfynau amrywiaeth mawr iawn o ddoniau; y mae ei phoblogaeth yn gymedrol. Dibynna felly lawer iawn llai na ni ar y byd oddi allan iddi. Nid hawdd gan y Ffrancwr ddeall agwedd Prydain tuag at yr Almaen wedi'r rhyfel. A ni'n dibynnu bron yn hollol ar fasnach, ein prif ddymuniad ni yw gweled olwynion ein masnach dramor yn ail-gychwyn: y mae'n rhaid i ni *werthu*, a'r peth pwysig i ni ydyw gweled yr Almaen a'r gwledydd eraill mewn cyflwr i *brynu* gennym. Ond y peth mawr i'r Ffrancwyr yw cadw'r hen elyn allan o'u gwlad; byddai'n wir-ioneddol well ganddynt weled yr Almaen yn y tloty megis, na'i gweled yn llwyddo ac yn ail brifio'n berygl. Wrth gwrs, yr wyf fi a'm darllenwyr yn credu mai adeiladu ar dywod yw peth fel hyn; yr ydym ni, Brydeinwyr, erbyn hyn yn gwybod na ellir cario'r byd yn ei flaen ar gynllun *isolation hospital*. Ond erys y ffaith nad yw'r doreth fawr o bobl Ffrainc—mân amaethwyr y wlad, a mân siopwyr y trefi—yn gweled hynny o gwbl, a dyna un o brif anawsterau gwleidyddiaeth Ewrop heddiw.

Y mae cyfoeth Ffrainc hefyd wedi ei rannu'n llawer manach na'n cyfoeth ni. Clywsom yn aml mai rhyw un neu ddau o bob deg sy'n "gwneud ei ffortiwn" gyda ni, rhyw ddau neu dri arall yn byw'n gyfforddus, a'r gweddill naill ai'n byw'n galed neu mewn gwir angen. Ni allaf ddywedyd beth a fyddai'r

ffigurau yn Ffrainc, ond yn sicr byddai'r llinell gyntaf a'r llinell olaf yn llai o lawer iawn, a'r dosbarth cysurus yn llawer mwy. Y mae'r rhan fwyaf o'r tir, er enghraifft, ym meddiant y tyddynwyr—nid da digymysg yw hyn, gyda llaw. Y mae'r teimlad teuluol cryf y soniais amdano yn tueddu i gronni adnoddau yn lle eu chwalu. Y mae'r bobl yn ddarbodus ; nid oes bri ar wario dianghenraid, ac y mae'r diffiniad o " anghenraid " ei hun yn llawer culach nag ymysg y genhedlaeth bresennol ym Mhrydain. Wrth gwrs, y mae'n hynod anodd gwahanu achos ac effaith yn y mater hwn ; byddaf yn y paragraff nesaf yn gorfod sôn am y cynildeb hwn fel effaith rhywbeth arall. Ond, achos neu effaith, y mae tuedd ynddo i gronni cyfoeth. A pheth arall, y mae'r Ffrancwr, fel rheol, yn weithiwr llawer caletach na ni. Peidied neb â meddwl nad oes ochr ddu i bob un o'r pethau hyn ; nid mor ffôl ag a ymddengys ar yr wyneb yw athroniaeth y Sais a'r Americanwr yn hyn o beth. Nid paradocs i gyd yw'r dywediad bod diogi a gwastraff ymysg y symbyliadau pennaf i ddatblygiad dynolryw. Ai cynildeb Sparta neu wastraff Athen a wnaeth fwyaf o les i'r byd ? A chan mai Ffrainc sydd gennym dan sylw, priodol yw nodi mai ar ei ochr " wastraffus " : ei hoffter o'r cain, ei fawrhad o iaith deg ac urddasol, ac o ymresymiad cywrain, ei deimlad mai *celfyddyd* ydyw byw—ie, ei oriau o sgwrsio segur yn y *café*,— y mae'r Ffrancwr yn apelio fwyaf atom.

Ond ni bu cyfoeth bob amser yn gyfystyr ag arian ; a dyma wreiddyn gwahaniaeth arall rhwng Ffrainc a Phrydain. Ar y naill law, gesyd y Ffrancwr lawer mwy o bwys na ni ar arian, am fod arian, ar y cyfan, yn brinnach ganddo ef. Dyma un o achosion y cynildeb dygn oedd dan sylw ychydig o linellau yn ôl, ond pregethais ddigon ar hwnnw. Diddorol— i droi at fater arall—yw sylwi fel y mae profiad

masnachol hir Prydain wedi ein cynefino, bawb ohonom, â thrin arian *ar bapur* yn llawer mwy di-drafferth na'r Ffrancwr cyffredin. Agor cownt yn y banc, tynnu *cheque*, prynu a gwerthu stociau, ac felly ymlaen—y peth hawddaf yn y byd i Gymro neu Sais y bo'r modd ganddo i wneuthur hynny. Ond y mae'r holl bethau hyn eto braidd yn ddieithr i lawer Ffrancwr sy'n "werth" llawer mwy na'r rhan fwyaf ohonom. Agorais un haf gyfrif bychan mewn banc ym Mharis, gan gredu y byddai'n hwylusach na chario arian gyda ni. Ond fe gostiodd pob pumpunt imi gryn ddwyawr i'w tynnu allan, ac arwyddais fy enw rai cannoedd o weithiau—o leiaf, teimlwn felly ar y pryd! Nid yw hyd yn oed newid *letter-of-credit* yn beth mor syml ag ydyw gyda ni. Helbulus iawn hefyd fu ymgais i brynu llyfrau o Ffrainc drwy'r post; byddaf yn awr yn myned yno i'w hymofyn—y mae'n llai o drafferth.

Ni all dyn lai na meddwl mai drwg, ar y cyfan, i Ffrainc, ydyw'r ffaith bod eu gallu gwleidyddol yn nwylo'r werin or-gynnil. Y mae'n wir bod y seneddwyr a'r gweinidogion gwladol, fel rheol, yn perthyn i ddosbarth a ddylai fod yn fwy goleuedig, ond gan mai bywoliaeth ydyw gwleidyddiaeth i lawer iawn ohonynt, y maent yn hollol dan draed eu hetholwyr. Un canlyniad ydyw ei bod bron yn amhosibl cael gan lywodraeth Ffrainc drethu'r wlad fel y dylid ei threthu; a gwyddom am un enghraifft o hyn sy'n gwasgu gryn dipyn arnom ni fel gwlad. Ond cyn condemio'n ddi-arbed, ystyriwn am foment na all llywodraeth ddemocrataidd symud gam ymhellach nag a ganiateir iddi gan y bobl. Un elfen, beth bynnag, yn "rhagoriaeth" Prydain yn hyn o beth ydyw'r ffaith nad cwbl ddemocrataidd ydyw ein Cyfansoddiad ni, a bod ein Senedd yn aml yn gryfach ac efallai weithiau'n fwy goleuedig na'u hetholwyr; hefyd bod

ein gwerin yn aml heb lawer o ddiddordeb yng ngweithrediadau'r wladwriaeth. Gall gweinidog cryf ym Mhrydain bron orfodi'r wlad i fyned ei ffordd ef (ond nid bob amser, wrth gwrs), ond nid heb sgil a chyfrwystra y gall gwladweinwyr Ffrainc gael rhyw gymaint o'u ffordd hwy.

Ond er i'r Ffrancwr, ar y naill law, roddi gormod pwys ar arian, y mae, ar y llaw arall, yn fwy dibris o arian nag ydym ni. Ni fesurir gwerth dyn yno, fel y gwneir gyda ni, wrth swm yr arian y mae'n ei dderbyn. Y mae Prydain, fel y mae'n hollol deg, yn gorfod talu'n drwm am yr arferiad hwn o'i heiddo, oblegid prif ysgogiad y cri am godi cyflogau ydyw'r wybodaeth na ellir yn y wlad hon gael bywyd llawn, na pharch dyladwy ar law cymdeithas, heb feddu arian. Yr eithriad amlycaf ydyw'r clerigwyr a'r gweinidogion, yn arbennig glerigwyr yr Eglwys Wladol yn Lloegr ; byddai'n ddiddorol egluro paham, ond nid oes amser. Y mae eithriad arall, a gwelodd John Galsworthy hi—dyma'r geiriau a rydd ef yn *The White Monkey* yng ngenau'r hen farwnig Syr Lawrence Mont : " Aesthetic equality, Forsyte, if we had it, would remove the wish for any other. Did you ever catch an impecunious professor wishing he was the King ? "

Yn Ffrainc y mae cyflogau'n fychain iawn. Meddylier am y bobl sy'n cael cyflogau mawrion gyda ni—esgobion, barnwyr, swyddogion uchel y fyddin a'r llynges, ac felly ymlaen. Y mae gweinidogion Ymneilltuol Cymru, lawer ohonynt, yn cael cymaint ag esgob yn Ffrainc—rai ohonynt fwy nag archesgob. Y mae athrawon hynaf ein hysgolion canol yn cael mwy na'r Cadfridog Foch, a'r prifathrawon yn cael mwy o gyflog na Llysgennad Ffrainc yn Llundain—gwn, wrth gwrs, nad yw'r gŵr urddasol hwnnw'n gorfod byw ar ei gyflog. Ond a dybiwch

chwi fod yr esgob neu'r cadfridog yn llai ei barch yn Ffrainc nag yma? Yr unig beth ydyw bod y bobl hyn yn byw yn llawer symlach na'u tebyg ym Mhrydain. Gwelais yn ddigon aml gadfridog neu filwriad Ffrengig yn yfed ei goffi ac yn darllen ei bapur newydd yn hapus ar balmant ei dref, yng nghanol ei gyd-drefwyr. Paham lai, wrth gwrs? Ond a welsoch chwi gadfridog Prydeinig gyda'i Effod a'i Deraffim yn troi i mewn i Lyons neu'r A.B.C.?—byddai'r si trwy holl Lundain cyn pen yr awr. Na, gyda ni y mae'n rhaid " byw i fyny " â rhyw safon disgwyliedig. Adwaenwn hen ringyll yn y fyddin, a ddyrchafwyd i radd uwch yn ystod y Rhyfel. Gwelais ef wedyn, a llongyferchais ef, ond golwg go drist oedd ar yr hen frawd. " Beth sydd? " " Well, sir, you see, they pays me double but they charges me four times as much." Ychydig iawn o'r teimlad yma a geir yn Ffrainc, y tu allan, wrth gwrs, i'r dosbarth penchwiban sydd i'w cael ymhob gwlad.

Y drydedd ffaith ydyw bod Ffrainc ar hyd ei hanes hir wedi bod yn hynod agored i elynion oddi allan. Gwn yn eithaf da mai ei bai hi ei hun oedd hynny'n aml, ond yma eto y ffaith sy'n bwysig, nid y rheswm amdani. Y mae'r Prydeiniwr yn neilltuol o barod i anghofio hyn. Pe byddai'n ffasiwn yn awr, fel y bu unwaith, i argraffu diarhebion a chynghorion gwerthfawr ar ymylon dalennau llyfrau ysgol, mi gredaf y mynnwn argraffu mewn llythrennau breision ar bob tudalen o'n llyfrau hanes: COFIWCH FOD UGAIN MILLTIR O LEIAF O DDWFR RHYNGOM A'R CYFANDIR. O ydyw, y mae pawb yn *gwybod* hyn, ond peth arall ydyw ei sylweddoli. Dyma, mewn gwirionedd, y ffaith sylfaenol yn hanes Prydain o 1066 hyd yn awr—beth bynnag am y dyfodol. Ond a gawn ni edrych am ychydig ar rai o ganlyniadau agosrwydd Ffrainc at ei gelynion?

Nodaf yn gyntaf beth sy'n wybyddus i ni oll, sef bod gwladgarwch Ffrainc yn ddigon aml yn groch ac yn chwerw—yn anhyfryd felly. Ond wedi'r cwbl, gair Ffrangeg (*Chauvinisme*) sydd gennym i ddynodi'r peth, ac onid yw hynny'n dangos bod y genedl ei hun yn ei horiau mwy hunan-feddiannol yn teimlo nad hyn yw gwir wlatgarwch? A heblaw hynny, dylem ni yn y wlad hon gofio y gall hunanoldeb hefyd fod yn amyneddgar. Nid yw polisi araf a synhwyrgall (fel yr eiddo Lloegr) tuag at genhedloedd eraill o angenrheidrwydd yn fymryn llai hunanol nag ystranciau gwlad fel Ffrainc pan gyffroer ei theimladau.

Y mae'n werth aros rhywfaint hwy uwchben canlyniad arall. Dyma ef: y mae Ffrainc, yn y canrifoedd diwethaf, wedi bod yn neilltuol o lym—yn wir, yn neilltuol o ffyrnig—tuag at unrhyw allu, boed dda neu ddrwg ynddo'i hun, oedd â thuedd ynddo i fyned dan wraidd *undod* y wlad. Protestaniaeth ydyw'r enghraifft fwyaf trawiadol, efallai; a byddai'n dda i ni, Brotestaniaid, sylweddoli mai un o syniadau'r Huguenotiaid oedd torri Ffrainc i fyny'n weriniaethau bychain, a'r rheini i fod dan fawd dyrnaid o uchelwyr. Y Goron a'r Eglwys, i'r rhan fwyaf o Ffrancwyr yr oes honno, oedd eu hunig waredigaeth rhag yr anarchiaeth hwn, a phurion a fyddai i ni geisio deall mawredd Harri'r Pedwerydd yn yr argyfwng hwn, a hefyd fawredd Richelieu ar ei ôl. Enghraifft arall, mewn byd gwahanol, ydyw ymddygiad llywodraeth Ffrainc at yr ieithoedd eraill (Brythoneg, Profensal, Allmaneg) a siaredir o fewn terfynau'r wlad. Cyhyd ag y bo'r ieithoedd hyn yn bodloni ar fod yn llafar gwlad, neu'n wrthrych sentiment neu astudiaeth academig, popeth yn iawn. Ond ceisiwch chwi wneuthur mwy na hynny, a gwae chwi. Er cymaint a glywsom am "draha'r Sais," ac felly ymlaen, purion peth yw cofio y buasai

"Pwyllgor Adrannol" ac "Adroddiad ar le'r Llydaweg yn ysgolion Ffrainc" yn beth hollol amhosibl.

Nid oes amser—ac nid oes eisiau, gan fod y peth mor wybyddus i ni—i draethu ar yr elyniaeth ffyrnig rhwng y Wladwriaeth a'r Eglwys yn Ffrainc, ac yn neilltuol rhwng y Wladwriaeth a'r Urddau Mynachaidd a Rheolaidd. Yma eto, y teimlad oedd bod yr Urddau—a hwy'n bleidwyr cryfion i'r hen Frenhiniaeth, a hefyd yn cydnabod awdurdod o'r tu allan (sef y Pab) yn fwy nag awdurdod y Wladwriaeth—yn tueddu i rwygo'r wlad yn ddwy. Ond nid mor aml y sylweddolir nad yw hon ond un enghraifft o duedd gref iawn yn Ffrainc i ddrwgdybio undebau neu gorffolaethau o unrhyw fath. Y mae'r gyfraith yn cau yn dyn iawn o amgylch unrhyw fath o gymdeithas —boed hyd yn oed glwb chwarae—nad yw'n hollol sicr o'i hamcanion, ac y mae'n rhaid myned trwy bob math o ddefodau i sefydlu peth felly.

Y canlyniad olaf o'r ymdeimlad hwn o berygl ydyw bodlonrwydd y Ffrancwr fel rheol i ymostwng i lywodraeth ganolog gref. Dywedais air neu ddau ychydig yn ôl sydd, ar yr olwg gyntaf, yn groes i hyn, ac y mae'n ddigon gwir na fyn y Ffrancwr ei drethu'n drwm iawn. Ond ar wahan i hynny, y mae'n ŵr digon disgybledig. Tynner llinell pur glir rhwng dau beth: gwleidyddiaeth (*politics*) a gweinyddiaeth (*administration*). Yn Ffrainc, y mae'r cyntaf yn ddemocrataidd ddigon, ond y mae'r ail fel Rehoboam. Nid oes gennym ni ddim, er enghraifft, yn cyfateb i'r *Préfet*. Ac er cymaint a soniwyd am y Chwyldro Mawr, prin y mae'r Prydeiniwr yn deall mai ym myd *gwleidyddiaeth* yr oedd hwnnw'n agor cyfnod newydd. Yn y mater arall, nid yn unig fe adawodd yr hen gyfundrefn yn llonydd, ond fe'i cryfhaodd yn fawr. Eisoes cyn diwedd yr Oesoedd Canol yr oedd

" Llys y Brenin " yn ymchwyddo ar draul awdurdodau lleol y wlad—pendefigaidd neu daleithiol neu ddinesig. Nid oedd Ffransis I a Harri IV, Richelieu a Lewis Fawr, wedi llwyr orffen y gwaith erbyn 1789, er mai enw yn unig oedd y " rhaglawiaid " pendefigaidd, er mai anaml y clywid sôn am Gymanfa Dalaith, er bod y dinasoedd wedi gwerthu eu hymreolaeth i'r brenin, er bod swyddogion cyflog (*Intendants*) y Llys ym mhob ardal. Ond ysgubwyd hyd yn oed enwau'r hen bethau ymaith ar ôl 1789; diflannodd yr hen daleithiau mawr hanesyddol o flaen y siroedd bychain newydd di-ramant (sut y gall ardal ag enw fel " Bouches-du-Rhône " fagu cariad ati?), a buan yr adferodd Napoleon yr *Intendant* brenhinol, dan yr enw newydd *Préfet*. Y mae, ar bapur, Gynghorau Sir a Chynghorau Dosbarth a Chynghorau Tref yn Ffrainc. Ond anaml y cyfarfyddant, ni roddir dim gwaith o bwys iddynt i'w wneuthur, ac y mae'r *Préfet* yno'n gwylio drostynt—ac yn aml iawn, gallwn feddwl, yn medru ethol pwy bynnag a fynno arnynt.

Dyma ddiwedd y sylwadau anhrefnus hyn. A ydyw'r pethau y bûm yn sôn amdanynt yn debyg o barhau? Nis gwn. A fydd Ffrainc o hyn ymlaen yn wlad o ddiwydiannau mawrion, o *big business*? A ydyw ei phoblogaeth wedi lleihau gymaint nes bod yn rhaid llenwi'r lleoedd gweigion ag Italiaid ac Ysbaenwyr a Belgiaid? Os ydyw'r pethau hyn yn debyg o ddyfod i ben—ac y mae ambell arwydd o hynny—prin y gallaf feddwl y pery " y gelfyddyd Ffrengig o fyw," gyda'i rhagoriaethau a'i diffygion. Gwnawn yn fawr ohoni, tra fyddo gyda ni.

Yr Adwaith yn Llenyddiaeth Ffrainc yn yr Oes Bresennol.[1]

Bum unwaith yn gwrando ar olygydd un o chwarterolion Cymru yn darlithio ar "bysgota *mines*." Wrth ofer geisio bychanu peryglon y gorchwyl anturus hwnnw, dywedodd wrthym nad yw yn waith hanner mor beryglus ag ydyw dywedyd y gwir. Petawn innau, yn ysbryd yr hen Iolo, am gyhoeddi Triawd o "Brif Beryglon Ynys Prydain," credaf mai'r trydydd fyddai gwneuthur sylwadau cyffredinol ar lenyddiaeth, yn enwedig ar lenyddiaeth dramor. Y mae dyn bron yn sicr o lithro ar y llwybr hwn, a hyd yn oed pe medrai wylio ar ei draed ei hun, ni all beidio â bod yn achlysur cwymp i eraill : anghofir neu anwybyddir ei rybuddion gochelgar, try ei "efallai" yn "ddiamau" ym meddwl ei ddarllenydd, a thynnir casgliadau ysgubol allan o'i ddistawrwydd ar ambell fater. Eto, carwn ddwyn i sylw y darllenydd ysgol bwysig o lenorion Ffrengig yr oes hon ; peidied yntau â bwrw imi dybied nad oes ond yr ysgol hon yn bod,—yn wir, y mae rhai o lenorion pwysicaf Ffrainc y tu allan iddi. Dylwn egluro rhag llaw nad wyf yn bwriadu sôn o gwbl am awduron Ffrengig nad oes ganddynt "neges," Gŵyr pawb fod tiroedd eang o lenyddiaeth yn gorwedd y tu allan i'r diffiniad hwn, a hyderaf na chyhuddir fi o daflu diystyrwch ar yr awduron hynny. Digon tebyg bod eu gweithiau, o safbwynt llenorol, yn sefyll, llawer ohonynt, gryn dipyn yn uwch nag amryw o'r rhai sydd gennyf dan sylw, ond testun cyfyngach sydd gennyf yma, sef portreadu ysgol o lenorion sydd mewn cysylltiad agos ag opiniynau gwleidyddol a chrefyddol a chymdeithasol a gafodd gylchrediad mawr yn Ffrainc yn ystod y chwarter canrif diwethaf.

[1] O'r *Llenor*, Haf, 1922.

Tri opiniwn, ar y cyfan, a geir yn ein mysg ynghylch llenyddiaeth ddiweddar Ffrainc. Y cyntaf—y mwyaf poblogaidd a'r mwyaf arwynebol—ydyw mai gwamalrwydd ac ysgafnder, sy'n aml yn syrthio i anfoesoldeb, yw ei phrif nodwedd. Dyma farn y lliaws; yn wir, dyma unig ystyr y gair "Ffrengig" i lawer. Yn ffodus, nid dyma'r lle na'r amser i ateb y cyhuddiad: y mae mwy nag un ateb iddo, ond cymryd trafferth i chwilio allan wir ystyr moesoldeb ar y naill law, ac ar y llaw arall, wir deithi'r bywyd Ffrengig, yn unigol ac yn gymdeithasol.

I ddosbarth arall, gwroldeb ac anturiaeth yw prif nodwedd y llenorion Ffrengig. Am hyn yr edmygir hwy gan ein llenorion ni, gan y bardd a'r nofelydd a'r beirniad. Yn Ffrainc, fel rheol, y troir tir newydd ym meysydd llên. Wedi i'r hen feirniadaeth "glasurol" gyda'i safonau a'i rheolau golli ei grym, ac i'r byd beirniadol fyned yn gad-gamlan o fympwyon, o Ffrainc, o ddwylo fel Sainte-Beuve a Taine a Brunetière, y daeth y cynnig cyntaf i adfer beirniadaeth i'w lle fel peth egwyddorol a chyfundrefnol. Nid dadlau yr ydys ddarfod i'r gwŷr hyn lwyddo, ond dadlau mai hwy a anturiodd. Drachefn, pwy a all fesur dylanwad nofelwyr Ffrengig fel Flaubert a De Maupassant, heb sôn am eraill? Ohonynt hwy y daeth y syniad am y nofel fel darlun manwl-gywir o fywyd; y mae'n ddigon posibl dal bod y wythïen hon, bellach, wedi ei gor-weithio mewn mwy nag un wlad, ond ni ellir gwadu pwysigrwydd y syniad. Ffrainc hefyd yw cartref y stori fer. Ym myd barddoniaeth eto, chwiliodd y Ffrancwyr allan lawer o ddychmygion; newydd-bethau mewn iaith a mydryddiaeth, a thestunau newydd—a digon rhyfedd, o ran hynny,—ac aeth eu dylanwad trwy'r holl fyd, hyd yn oed i Loegr, gwlad nad oes raid iddi gywilyddio o'i barddoniaeth. Symbyliad a newydd-der, felly,

sy'n nodweddu ysgrifenwyr Ffrengig yr oes pan ystyrrir hwy o safbwynt y llenor.

Y mae dynion eraill, heb fod ganddynt ryw lawer o anian lenyddol, neu artistig, ond sy'n hytrach yn edrych ar y byd o safle athronyddol (os caniateir defnyddio gair mor fawr a chyfundrefnol i ddynodi pobl ddigon cyffredin), dynion o ogwydd feddylgar, "defnydd athronwyr" yn hytrach nag athronwyr. Y peth sy'n taro'r dynion hyn wrth ddarllen prif awduron Ffrainc ydyw'r lle mawr ac amlwg a roddir ganddynt i reswm. Effeithia hyn hyd yn oed ar agweddau allanol llên Ffrainc. Anfynych iawn y ceir llyfr Ffrengig sy'n afluniaidd, fel y digwydd yn aml yn Lloegr a'r Almaen: byddai raid chwilio'n hir iawn cyn dyfod o hyd i lyfr fel *Sartor Resartus* yn Ffrainc, neu rai o nofelau diwethaf Mr. H. G. Wells. Heblaw trefn a saernïaeth eu llyfrau, nodweddir y Ffrancwyr gan eglurder ymadrodd. Gwelir hyn yn amlwg iawn mewn llyfrau lle y mae'r mater yn ddyrys: cymharer Bergson â Hegel, er enghraifft. Ond y mae'r peth yn myned ymhellach na hyn. O safbwynt rheswm,—yn wir, o safbwynt rhesymoliaeth yn aml, yr hoffa'r Ffrancwr edrych ar fywyd, a chymhwysiad o reswm at broblemau'r byd a geir yn aml yn ei lyfrau. Wrth gwrs, nid arwain y rheswm bawb i'r un canlyniad: gyda rhagdybiau gwahanol, ni chyrhaedda'r ymresymwyr manylaf i'r un hafan—dyna'r gwahaniaeth rhwng Pascal a Voltaire. Ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y cyfangorff o ymresymwyr (beth bynnag fo'u tueddiadau) a'r cyfangorff o bobl sy'n dibynnu'n hytrach ar eu greddf nag ar eu rheswm; ac wedi gwneuthur y rhaniad hwn, gallwn yn ffyddiog osod y Ffrancwyr fel cenedl yn y dosbarth blaenaf. Yn ddigon naturiol, y mae cynrychiolaeth gref o'r rhesymolwyr ymysg ysgrifenwyr Ffrengig yr oes bresennol. Yn eu plith, er enghraifft,

y mae beirniad pwysig nad yw ei enw hyd yn hyn yn adnabyddus iawn yn y wlad hon—Rémy de Gourmont, gŵr nid annhebyg i Socrates, yn hoffi dadansoddi syniadau cyffredin, a'i fryd yn bennaf ar chwalu'r cymylau o ystyron sydd mor barod i lynu wrth y geiriau a'r termau a ddefnyddiwn yn feunyddiol—"enwogrwydd," "llwyddiant," "addysg," ac felly yn y blaen. Yma hefyd y mae lle'r ysgrifennwr Ffrengig enwoca'n fyw, Anatole France.

Ond er cymaint y diddordeb a deimla'r Ffrancwyr mewn arbrofion ac anturiaethau llenyddol, ac er cryfed dylanwad y rheswm arnynt, i gyfeiriad hollol wahanol y bydd raid i ni edrych os am ddeall eu llenorion amlycaf yn chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif. Rhaid cofio, wrth ystyried llenyddiaeth dramor, mai yn gymharol araf yr ymlêd adnabyddiaeth ohoni i wledydd eraill, a'n bod ni, Brydeinwyr, felly yn rhwym o fod rhyw ychydig "ar ôl yr amser" yn ein hamgyffrediad o lenyddiaeth Ffrengig ein hoes ein hunain. Y mae peth gwirionedd yn yr epigram maleisus, "German philosophies, when they die, go to Oxford"; yn yr un modd, Anatole France yw'r gair olaf i lawer ohonom pan soniwn am lenorion Ffrainc. Ond erbyn hyn, Ewropeaidd, yn hytrach na Ffrengig, yw cylch dylanwad yr hynafgwr bydenwog hwnnw; y mae, i raddau mawr, yn "ôl-rifyn" (ys dywed y Sais) yn ei wlad ei hun, a chyn i ni yn y wlad hon orffen ei ddarganfod a mwynhau ei newydd-der, edrych y Ffrancwyr eu hunain arno fel un o glasuron yr oes a aeth heibio. Rhyddid—ym mhob ystyr i'r gair—yw nod Anatole France: y mae'n weriniaethwr pybyr (yn wir, i raddau, yn anarchaidd), yn rhydd-feddyliwr i'r carn mewn materion crefyddol, yn amddifad hollol o gulni cenedlaethol, a'i fryd ar fyw yn ôl goleuni rheswm. Iddo ef, epa yw dyn ("ac epa drwg" meddai yn rhywle) yn byw

ar un o'r planedau distadlaf, a honno'n prysuro i ddistryw; gwe o hud a lledrith ydyw ei holl gyfundrefnau cymdeithasol a meddyliol a chrefyddol. Ond y mae'r hud a'r lledrith yn swynol dros ben, y mae seithliw'r enfys yn disgleirio ar y gwawn, ac ymhyfryda'r artist wrth syllu arnynt; dyna sy'n gwneuthur bywyd nid, yn wir, yn werth ei fyw, ond yn werth ei ddioddef. Nid rhyfedd felly i Anatole France ymroddi'n fedrus ddihafal i ddarlunio amgylchedd a meddwl dyn mewn oesau a fu—canrifoedd cyntaf Cristnogaeth, yr Oesoedd Canol, y ddeunawfed ganrif, etc.,—gan sibrwd o hyd yng nghlust y darllenydd, "ond cofia mai gwagedd yw'r cwbl." Yn *Ynys y Pengwyn* y gwelir ei ergyd yn egluraf: math o wawd-hanes ei wlad ei hun ydyw'r llyfr; edrych yr awdur ar hanes Ffrainc megis trwy ben chwith ysbienddrych, a chenfydd bopeth yn anfeidrol fychan, fel Gulliver gynt yn nhir Liliput. Diddorol ar yr un pryd yw cofio bod ei ddyngarwch a'i dynerwch wedi arwain y llenor enwog (a llawer Calfin arall yn hanes y byd, diolch am hynny!) i anghysondeb. Pan gondemniwyd Dreyfus ar gam, anghofiodd Anatole France mai rhith disylwedd oedd pethau fel "cyfiawnder" a "gwirionedd," a gwelwyd ef ar flaen y gad yn brwydro dros y carcharor ac yn wrthrych pob math o ymosodiad,—ac yntau wedi dywedyd yn rhywle, "mae mynd i'r ystanc er mwyn opiniwn yn arwydd diamheuol bod dyn yn meddwl gormod ohono'i hun!"

Yn helynt Dreyfus, yn wir, y daw tueddiadau llenyddiaeth y chwarter canrif diwethaf yn glir i'r golwg. Yn y frwydr honno ceid llawer o ysgolheigion a gwyddonwyr enwocaf Ffrainc yn ymladd dros Dreyfus. Ond am y llenorion, nid oedd ond dau o'r awduron blaenaf, Zola a France, o blaid y cyhuddedig. Ar yr ochr arall yr oedd y lleill i gyd—Bourget,

Brunetière, Barrès, a'u cyffelyb, a hyd yn oed rhai, fel Jules Lemaître, a gyfrifid cyn hyn yn rhyddfrydwyr. Synnai'r byd oddi allan, ac amheuai fod rhywbeth allan o'i le. Un o ddau ymresymiad a ddilynid, Dyma'r cyntaf, " Y mae'n sicr fod Dreyfus yn ddieuog. Nid yw'r llenorion hyn yn ffyliaid, felly rhaid eu bod yn gwybod hynny—ac felly y maent yn pechu yn erbyn goleuni : cnafon ydynt." Dyma'r llall : " Dynion o gymeriad uchel ac anrhydeddus yw Bourget, etc. ; y mae'n amlwg eu bod yn unfryd unfarn yn credu bod Dreyfus yn euog, felly rhaid ei fod yn euog." Nid yw'r un o'r ddau ymresymiad yn gywir. Beth bynnag am euogrwydd Dreyfus, nid pechu yn erbyn goleuni a wnaeth y beirniad, a'r nofelwyr uchelfrydig hynny : oni allent weled y gwirionedd, y rheswm oedd eu bod eisoes wedi eu dallu (fel y digwydd i'r rhan fwyaf ohonom) gan ragdybiau, y cawn, efallai, ymdrin a'u hachosion cyn diwedd hyn o lith. Ac fel yr â'r ganrif ymlaen, cynhydda'r duedd adweithiol ymhlith y llenorion : er marw rhai o'r hen arweinwyr (megis Brunetière), cyfyd to o ieuenctid yn eu lle. Erbyn y rhyfel diwethaf, perthynai'r rhan fwyaf o lawer o brif lenorion Ffrainc, yn hen ac yn ieuainc, i blaid yr adwaith. Er byw ohonynt mewn gwlad sydd nid yn unig yn werinol ond yn hynod am ei gwasanaeth i'r egwyddor werinlywodraethol, cas ganddynt weriniaeth, a da fyddai gan y rhan fwyaf ohonynt weled adfer yr hen frenhiniaeth. Sonient am y Chwyldro Ffrengig, testun balchter i'r rhan fwyaf o'u cydgenedl, fel am ryw drychineb alaethus. Yn y frwydr rhwng Eglwys Rhufain a llywodraeth Ffrainc, dan faner y Pab yr ymladdent oll : nid hoff ganddynt weled lledaeniad addysg, canys y mae addysg yn " aflonyddu ar feddyliau'r bobl "—" cadw ei lle " a ddylai'r werin. Y maent hefyd yn selog (a dyma un o'u rhagoriaethau) o blaid

atgyfodi'r hen fywyd taleithiol a phlwyfol, a bychanu dylanwad aruthrol Paris ar y wlad—dylanwad sy'n tueddu i barlysu pob math o fywyd lleol, i raddau nad oes gennym ni ond ychydig amgyffred ohono, canys nid cyffelyb o lawer yw safle Llundain yn y wlad hon. Ond er hyn, ac yn wir am hyn (canys caru bro yw dechreuad caru gwlad), y maent yn wladgarwyr tanbaid, a gwnaethant lawer i gadw tân gelyniaeth at yr Almaen yn fyw ym mynwesau eu cydwladwyr, yn wyneb llawer dylanwad da a drwg o blaid heddwch a chymod. Mewn gair, adwaith yw prif nodwedd yr ysgol luosog, alluog, a dylanwadol hon o ysgrifenwyr.

Arferais y gair " dylanwadol." Bron na chredaf ei fod yn ormod gair. Yn un peth, nid yw'r Ffrancwyr yn genedl hoff o ddarllen ; yr wyf yn bur sicr bod y Saeson, heb sôn am y Cymru, yn darllen llawer mwy. Wrth gwrs, y mae llyfrau a'u darllenwyr yn ddigon cyffredin ym Mharis, ac yn enwedig ar Fynydd Sant Steffan, ond wedi'r cwbl, cylch bychan ydyw Paris. Dylid cofio, fodd bynnag, bod ansawdd y llyfrau a ddarllenir yn uwch o lawer yn Ffrainc nag ydyw yma ; dadl na thorrir byth mohoni, efallai, ydyw hon,—pa un orau, y wlad lle y mae miliynau yn darllen ysbwrial (mewn ystyr feddyliol yr wyf yn defnyddio'r gair, ac nid o angenrheidrwydd mewn ystyr foesol), neu y wlad lle y mae dosbarth llai, eto'n gymharol luosog, yn darllen llyfrau sylweddol ac yn ymddiddori yn eu problemau ? A heblaw hynny, Paris, fel yr awgrymwyd eisoes, yw ymennydd Ffrainc, ac y mae dylanwadu arni hi bron yn gyfystyr a meddiannu'r holl wlad. Ond ar y llaw arall, y mae'n amheus iawn gennyf a ydyw'r llenorion hyn yn " arwain " eu darllenwyr : agosach i'r gwir, efallai, fyddai dywedyd mai traethu neges eu cenhedlaeth y maent,—arddangos i'r byd deimladau a dyheadau a gafodd le

mawr yn eu gwlad, oherwydd achosion neilltuol, yn ystod y deng mlynedd ar hugain neu'r deugain mlynedd diwethaf. Hyd yn oed yn awr eu goruchafiaeth, nid enillasant mo'r tir yn llwyr; y mae André Gide, Julien Benda, a Romain Rolland eto'n tystiolaethu dros ryddid a rheswm; a chredaf mai dros amser yn unig y gorfu gwŷr yr adwaith. Ac o ran hynny, ni lwyddasant ond i raddau bychan iawn mewn ystyr wleidyddol. Ond gan eu bod yma gyda ni, rhaid eu hastudio am ychydig.

Nid yw'r awduron hyn bob un yn coleddu'r cwbl o'r pentwr o syniadau adweithiol y soniais amdanynt. Ychydig o afael, er enghraifft, sydd gan yr ysbryd "taleithiol" ar Melchior de Vogüé, Bourget, a Brunetière. Ar y llaw arall, prin y mae gan René de Boylesve gysylltiad heblaw hwn â'r ysgol yr ydym yn ymdrin â hi. Melchior de Vogué, hyd y gwn i, yw'r unig un ohonynt a ddaeth o dan ddylanwad y syniad ymerodrol (gweler ei *Arglwydd y Môr—Le Maître de la Mer*—er enghraifft), er bod dylanwad Rudyard Kipling yn drwm ar rai llenorion na pherthynant ar y cyfan i'r ysgol adweithiol,—cofia'r darllenydd mai Kipling oedd un o'r ddau Sais y rhoddwyd gradd Doethur Anrhydeddus iddynt gan Brifysgol Paris am y tro cyntaf yn ei hanes. "Taleithwyr" yw'r rhan fwyaf ohonynt: Barrès (Lorraine), Le Braz (Llydaw), Boylesve (Touraine), Bazin (Anjou ac Alsace), Bordeaux (Savoy). Mewn materion gwleidyddol, breniniaethwyr selog yw Brunetière a Bourget: ar y llaw arall nid yw Barrès ond yn beirniadu'n llym feiau ffurflywodraeth bresennol Ffrainc, heb fyned mor bell â mynnu ei diwreiddio. Ym myd crefydd, eto, y mae Brunetière, Bourget, Bazin, ac eraill, yn Gatholigion ac yn Babyddion egwyddorol a selog, ond nid ymddengys fod Barrès yn myned ymhellach na chredu yn nefnyddioldeb y grefydd Gatholig a'r

Eglwys Babyddol fel glud neu gymrwd i sadio a chydgylymu cymdeithas, ag yntau ei hun yn ddigon penrhydd ei olygiadau crefyddol. "*To the philosopher,*" meddai Gibbon, "*all religions were equally false; to the magistrate, all were equally useful.*" "Cleddwch fi," meddai'r hanesydd enwog Fustel de Coulanges, "yn ôl defod yr Eglwys; nid am fy mod yn credu yn y ddefod, nac yn yr Eglwys chwaith, ond am mai dyna arfer y genedl yr wyf yn perthyn iddi." A dyna, hyd yn hyn, yw ysbryd Barrès, er na synnem glywed iddo yntau ryw ddydd ddilyn esiampl Brunetiére a Bourget.

Nid yr un, chwaith, yw'r egwyddor sydd yn arwain pob un ohonynt i safle yr adwaith. Gyda'r unigolyn, fel y cawn weled ymhellach, y cychwynnodd Barrès, ac yn ôl at yr unigolyn y daw yn y diwedd. Ond cymdeithas yw gair mawr Brunetière: nid yw'r unigolyn iddo ef ond carreg yn yr adeilad, a gogoniant mawr llenyddiaeth Ffrainc yn ei olwg ef ydyw ei natur gymdeithasol. Unigoliaeth yw nod llenyddiaeth Lloegr, medd ef—peth sy'n ei gyfiawnhau ei hun yn ei fannau gorau, ond yn methu'n druenus ar adegau eraill. Ond nid oes "rhy o ddim" yn llenyddiaeth Ffrainc. Ni fyn Brunetière mo'r "ysgol ramantus" —goruchafiaeth yr unigolyn eto yw honno: y clasurol, y deddfol, y cyfundrefnol iddo ef. Pell wyf o gredu yn ei efengyl: y mae llawer gwrthryfelwr llachar ar restr hir llenorion Ffrainc; awduron "rhamantus" fel Burke a Coleridge a Scott sy'n cyfrif i raddau mawr am adfywiad Ceidwadaeth mewn byd ac eglwys yn Lloegr yn y ganrif a aeth heibio; a byddai'n llawn mor hawdd dadlau bod cysylltiad hanfodol rhwng yr ysbryd clasurol â rhyddfrydiaeth a rhesymoliaeth, yn Ffrainc a Lloegr fel ei gilydd. Y gwir ydyw bod y beirniad craff a dysgedig hwn, fel y rhan fwyaf ohonom ni, bobl lai o lawer nag ef, yn medru canfod yr

hyn y mae'n chwilio amdano, ac anwybyddu'r hyn na fyn ei weled. Ar yr un pryd, gwnaeth Brunetière gymwynas bwysig dros ben i'r blaid adweithiol, oblegid galluogwyd hi, ar ei awdurdod ef, i gynnwys yr ysbryd clasurol a Lladinaidd ymysg y traddodiadau Ffrengig yr hawliai ei bod yn eu hamddiffyn, a thrwy hynny, i ysigo ffydd llawer a gredai (nid heb sail, i'n tyb ni) fod y Chwyldro Ffrengig, a mudiadau rhesymol a rhyddfrydig yn gyffredinol, erbyn hyn i'w hystyried yn brif gynysgaeth y genedl Ffrengig ac yn nod arbennig ei gwasanaeth i'r byd.

Sylwn am ychydig ar rai o'r awduron hyn. Ni allwn ni sy'n caru'r wlad yn fwy na'r dinasoedd, beidio â chydymdeimlo â'r nofelwyr a fyn atgyfodi'r bywyd gwledig. Ysgrifennodd René Bazin res hir o nofelau, amryw ohonynt yn ymdrin â'r pwnc hwn, un ohonynt, *Y Tir yn Marw*—(*La Terre qui Meurt*), yn fyd-enwog. Cawn sôn yn nes ymlaen am gariad tanbaid Barrès at Lorraine. Bu Henry Bordeaux yn darlithio yng Nghaerdydd rai wythnosau'n ôl; efengyl seml i'r eithaf oedd ganddo,—magu llond tŷ o blant, os wyf yn cofio'n iawn, oedd y gorchymyn cyntaf a'r diwethaf! Ond y mae'n ysgrifennu'n swynol am ei fro ei hun—mynydd-dir Savoy y mae Owen Edwards yn taflu golwg arno yn nechrau *Tro yn yr Eidal.* Ei hoff destun yw'r gŵr ieuanc a brofodd felyster bywyd y ddinas fawr, ond a ddenwyd yn ôl i'w wlad ei hun gan ddylanwad natur neu serch neu gariad at ei deulu—darllener, er enghraifft, *Gwlad ei Enedigaeth* (*Le Pays Natal*), *Ar y Groesffordd* (*La Croisée des Chemins*), a *Les Roquevillard.* Os ydym am astudio agweddau eglwysig a chrefyddol yr ysgol hon, daw Bazin eto i'n cynorthwyo, er enghraifft, yn *Y Ddidoledig* (*L'Isolée*)—hanes lleian pan yrrwyd yr urddau mynachaidd ar ffo. Diddorol a rhyfedd dros ben yw hanes Huysmans, gŵr a fu'n ymdrybaeddu ym

mhob math o fudreddi, ond a "gafodd dro" ac a lwyr ymroes i'r Eglwys o hynny i'w fedd. Y mae ganddo gyfres o nofelau meithion (a digon blin, os rhaid cyfaddef y gwir) yn gosod allan ei brofiad crefyddol—*Ar y Ffordd* (*En Route*), *Y Brifeglwys* (*La Cathédrale*), *Yr Ancr* (*L'Oblat*). Ond nid yw Huysmans mewn gwirionedd yn perthyn i'r ysgol yr ydym yn sôn am dani—esiampl yw ef yn hytrach o'r naid o un eithaf i'r llall sydd mor gyffredin yn hanes diwygiadau crefyddol.

Drwg gennyf nad oes ynof ddigon o'r elfen farddonol i sôn am ddau fardd,—Claudel a Jammês,—sy'n sêr amlwg yn ffurfafen yr Adfywiad Catholig yn Ffrainc, nac am un arall,—Charles Péguy, a fu'n un o bleidwyr Dreyfus, a swynwyd wedi hynny gan gyfriniaeth a Chatholigiaeth, ac a gerddodd gryn bellter ar lwybr adwaith cyn ei farw ym mrwydr y Marne. Soniais o'r blaen am Ferdinand Brunetière, beirniad llym a chydwybodol, a gweithiwr caled, Un o ben beirniad Ffrainc hefyd oedd Jules Lemaître, ond llwyddodd ef, rywsut, i gadw llenyddiaeth a gwleidyddiaeth mewn ystafelloedd ar wahân yn ei ymennydd, ac felly, er iddo ymladd yn ffyrnig dan faner yr adwaith yn erbyn Dreyfus, prin yr effeithiodd hynny ar ei waith llenyddol, a phrin y gellid casglu wrth ddarllen ei draethodau ei fod yn wleidyddwr mor benboeth. Ni ellir dywedyd yr un peth am Charles Maurras. Er ei fod yntau'n feirniad llenyddol o fri (y beirniad mwyaf a welodd Ffrainc er amser Sainte-Beuve, medd rhywun), yn un o apostolion yr ymgyrch "glasurol" yn erbyn yr ysgol ramantus, eto y mae'n llawer mwy enwog fel un o brif arweinwyr y blaid freniniaethol, a gelyn ffyrnig rhyddfrydiaeth o bob math. Ef, yn wir, a sefydlodd, yn 1905, y mudiad a elwir *L'Action Française*, prif organ y sawl a fyn adfer y frenhiniaeth a'r Eglwys i'w hen le. Mewn

cylchgronau'n bennaf y mae ei waith ar gael; y mae felly allan o gyrraedd tramorwyr, ac y mae hynny'n resyn, oblegid ystyrrir ef yn un o arweinwyr pwysicaf y blaid adweithiol. Dywedwyd wrthyf y dydd o'r blaen fod un llyfr trwm ar y mudiad adweithiol yn rhoddi un gyfrol allan o bedair yn gyfangwbl i Maurras. Ac ebe Emile Faguet: "Meistri llenyddiaeth Ffrengig y dydd yw Bergson, Barrès, a Maurras . . . Maurras sy'n rheoli cydwybod ac ysbryd rhan helaeth iawn o ieuenctid Ffrainc." Maddeued y darllenydd imi am redeg mor fras dros y llenorion hyn: carwn sôn ychydig yn helaethach am ddau o wŷr pwysicaf y mudiad—Paul Bourget a Maurice Barrès.

Nid ym myddin yr adweithwyr yr enillodd Bourget sylw y cyhoedd. Disgybl i Taine ydoedd ar y cychwyn: gŵr o duedd athronyddol a gwyddonol, na chredai mwy na'i feistr yn rhyddid yr ewyllys. Hoff bwnc ei astudiaeth oedd eneideg, ac fel y tuedda'r meddygon i deimlo mwy o ddiddordeb yn y corff dynol pan fo mewn cyflwr afiach na phan fo yn ei lawn iechyd, felly hefyd am Bourget. Dadansoddi eneidiau afiach, eneidiau sydd, am ryw reswm neu'i gilydd, mewn cyflwr annaturiol, neu mewn amgylchedd nad yw'n cydfyned â hwy—dyna hoff waith yr ymchwiliwr cywrain hwn. Byddaf yn credu fy hun mai ei waith galluocaf a mwyaf gwerthfawr ydyw'r ddwy gyfrol o *Efrydiau ar Feddwl yr Oes* (1883 ac 1885). Yno astudir nifer o lenorion y cyfnod,—Stendhal, Taine, Renan, etc., gan ofyn, "Beth ydyw'r mater arnynt, beth sydd allan o'i le?" Eneidiau mewn saldra, yn cynrychioli cenhedlaeth mewn saldra,—dyna fel y gwêl Bourget hwynt. Mewn gair, diflastod neu siomiant sy'n hynodi'r cyfnod. A'r achos, medd ef, ydyw bod eu ffydd mewn gwyddoniaeth, mewn athroniaeth faterol, mewn datblygiad,

wedi boddi ym mhrofiad chwerw 1870–1871, ac nad oes ond negyddiaeth a gwaethafiaeth (*pessimism*) yn eu mynwesau. Sylwed y darllenydd nad yw Bourget ar y pryd yn cynnig unrhyw feddyginiaeth; diddordeb gwyddonol yn unig sydd ganddo yn ei bwnc, ac yn hir ar ôl hyn y daw'r ymdeimlad iddo mai crefydd a gwladgarwch a'r Hen Frenhiniaeth a ddaw a Ffrainc i'w lle. Mewn rhagymadrodd i ail argraffiad o'r llyfr hwn, mynega'i gred yn ddifloesgni mai diffyg ffydd yn Nuw oedd achos gofidiau'r wlad, ond nid oedd wedi canfod hynny yn 1883 nac yn 1885. O hynny ymlaen hyd ddiwedd y ganrif ysgrifennodd gyfres hir o nofelau; ynddynt hwy ymroes eto i ddarlunio eneidiau; ond y tro hwn, eneidiau o'i greadigaeth ei hun. Chwiliai am ei ddefnyddiau yn yr haenau cymdeithasol hynny sy'n byw bywyd anghyffredin, yn anadlu awyr nad yw'n dygymod yn hollol â'r dyn naturiol. Cyfoethogion di-waith; merched segur; llenorion a ddiwreiddiwyd gan eu haddysg; dynion heb wlad (cosmopolitaniaid fel y byddwn yn eu galw)—dyna feysydd ei fyfyrdod. Prin y mae'r nofelau hyn yn "ddiddorol," yn ystyr gyffredin y gair—nid oes ynddynt ddigwyddiadau cyffrous (na digwyddiadau o unrhyw fath, o ran hynny); ac wrth gwrs y maent yn llawn o ymddiddanion hirwyntog, gan mai trwy ymddiddanion yn unig y gall y nofelydd arddangos cyflyrau meddyliol ei gymeriadau. Tremio ar ddrychfilod drwy chwyddwydr y mae'r awdur a'r darllenydd. Ac nid yw Bourget yn hollol glir o'r cyhuddiad a ddygir yn ei erbyn ei fod, trwy hir anadlu'r awyr afiach hon, wedi ymgynefino â hi a dechrau ei mwynhau: ymyla'n aml ar snobyddiaeth, a phair ddiflastod i'r sawl a'i darlleno.

Gyda diwedd y ganrif daw cyfnod newydd ar fywyd Bourget. Eisoes, unwaith, yn 1889, daethai rhybudd

bod pennod newydd yn dyfod. Yn y flwyddyn honno cyhoeddwyd y nofel enwog, *Y Disgybl* (*Le Disciple*). Testun y llyfr galluog hwn ydyw cyfrifoldeb dyn am ganlyniadau ei eiriau a'i weithredoedd. Athronydd yw Adrien Sixte o ysgol Spinoza, nad yw'n credu yn rhyddid yr ewyllys. Dyn da a hoffus ydyw, na allwn lai na'i edmygu. Ond ymhlith ei ddisgyblion y mae un Robert Greslou, a fu fyw'n anfoesol, ac a ddaeth i ddiwedd truenus. Ar Sixte y rhydd mam Greslou y bai am gwymp ei mab, ac mewn llythyr hir o hunangofiant haera'r disgybl ei hun mai meddyliau ei athro a fu'n sylfaen ei fywyd ar ei hyd. Dyna'r cwestiwn : a oedd yr athronydd bucheddol yn gyfrifol am grwydriadau ei ddisgybl? A therfyna'r llyfr â'r athro yn cydnabod ei gyfrifoldeb. Fel y dywedais o'r blaen, y mae hon yn un o nofelau galluocaf Bourget, heb sôn am ei phwysigrwydd fel arwydd o newid yn ei yrfa. Y mae hefyd yn enwog am ddau reswm arall. Y cyntaf ydyw'r llythyr a ysgrifennodd Taine at Bourget pan gyhoeddwyd hi—llythyr a ddengys fod yr athronydd a'r hanesydd mawr yn gweled yn glir beth fyddai diwedd Bourget. Yr ail ydyw'r adolygiad treiddiol arni gan Anatole France, adolygiad sydd, i'm tyb i, yn llwyr ddymchwelyd ymresymiad Bourget ar gyfrifoldeb, a'i ddadl dros gelu'r hyn a ystyria dyn yn wirionedd, rhag ofn ei ganlyniadau.

Ond ar ôl 1900 y gwelwn Bourget wedi llwyr ymroddi i'r egwyddor adweithiol. Ymunodd â'r Eglwys, ac aeth yn un o bleidwyr gwresocaf brenhiniaeth. Tair nofel fawr sy'n perthyn i'r cyfnod diwethaf hwn : *Dringo'r Ysgol*, *Ysgariad*, a'r *Ymfudwr*. Yn yr olaf y mae'r datganiad mwyaf pendant o egwyddorion breniniaethol yr awdur. Yn *Ysgariad*, cawn ymdriniaeth ar un o broblemau mwyaf dyrys yr Eglwys Gatholig—y gwrthdrawiad rhwng y galon

a'r synnwyr cyffredin ar y naill law, a deddf yr Eglwys ar y llaw arall. Ond gyda *Dringo'r Ysgol* (*L'Etape*) y dymunwn aros am ychydig cyn tewi am Bourget. Awgrymir neges y nofel hynod hon gan ei henw: dyma ydyw—mai yn araf, gam a cham, y mae dringo ysgol cymdeithas. Gwaith ydyw sy'n gofyn mwy nag un genhedlaeth i'w gyflawni. Os ceisir ei wneuthur mewn byr amser, y mae'n canlyniadau yn sicr o fod yn ddrwg: megir cenhedlaeth heb wreiddiau, cenhedlaeth wedi colli rhagoriaethau ei chyflwr cyntefig, a heb eto fagu'r rhagoriaethau sy'n perthyn i'w chyflwr newydd. Gosodir y peth allan drwy adrodd hanes dau deulu, yn sefyll yn union ar yr un raddfa gymdeithasol. Athrawon mewn Ysgolion Canol yw'r ddau benteulu, ond y mae un ohonynt, Ferrand, yn deillio o dylwyth o dirfeddiannwr,—ysgweiers, fel y dywedem ni. I'r gwrthwyneb, mab yw'r ail benteulu, Monneron, i wladwr tlawd: bachgen talentog wedi *neidio* i ben yr ysgol drwy ei fedr a'i ddiwydrwydd ei hun, i safle na freuddwydiodd neb o'i deulu erioed amdano o'r blaen. Y mae'r dyn ei hun yn eithaf, ond y mae ei wraig a'i blant fel pysgod allan o'r dwfr; ei wraig yn rhodresgar ac anfoddog, a'i feibion a'i ferch wedi eu magu yn ddi-grefydd ac yn ddi-reol. Ar y llaw arall, darlunir symlrwydd a hapusrwydd bywyd yr athro sydd â "gwaed yr uchelwyr" yn ei wythiennau, a lledneisrwydd prydferth ei ferch. Diwedd yr hanes, ar ôl i helyntion blin ddisgyn ar deulu yr athro di-grefydd, ydyw ymfodloni ohono'n brudd i ymuniad ei fab hynaf â'r Eglwys Gatholig, fel amod ei briodas â merch ieuanc ddymunol Ferrand. Diau yr ymddengys hyn oll i'r darllenydd yn chwerthinllyd dros ben: y du i gyd ar un ochr, a'r gwyn ar y llall—arddangosiad poenus o'r modd y collir pob gronyn o gydwybod (moesol ac artistig) pan wnelo dyn ef ei hun yn enau plaid. A heblaw

gwendid y cynllun, y mae gormod o bregethu yn y llyfr, ddalennau cyfain ar y tro. Ond er gwaethaf hyn, byddai'n annheg imi beidio cyfaddef bod yn y nofel hon lawer o swyn ; rywfodd neu gilydd, byddaf yn cael mwynhad mawr wrth ei ddarllen.

Cymeriad rhyfedd, ac atyniadol ar lawer cyfrif, ydyw Maurice Barrès. Plentyn wyth oed oedd ef yn amser rhyfel 1870, ac yng nghysgod diflastod a siomiant y cyfnod ar ôl hynny y tyfodd yn llanc ; y mae, felly, yn esiampl dda o'r genhedlaeth honno a ddisgrifir gan Bourget yn ei *Efrydiau ar Feddwl yr Oes*. Ond hynodrwydd Barrès ydyw iddo ymdrechu i'w achub ei hun o afael y malltod yr ymfodlonodd Bourget yn hir ar ei astudio a'i ddadansoddi. Nid yw'n debyg o gwbl y cymeradwya'r darllenydd Cymreig y modd yr aeth Barrès at y gorchwyl o'i " ryddhau ei hun," ond nid dyna'r pwnc ar y funud : gwell yw ymdrechu na llaesu dwylo. Wedi edrych beth amser i mewn i'w ymwybyddiaeth ei hun, teimlodd Barrès mai dyna oedd ei fai, —bod ei enaid yn cael ei wthio a'i dynnu i wahanol gyfeiriadau, ei fod yn hollol at drugaredd nerthoedd oddi allan iddo ef ei hun, fel bad heb hwyl na chwmpawd, heb wybod i ba le y dylai gyfeirio, nac yn wir i ba le yr oedd yn myned. Ymroes, felly, i buro ei feddwl oddi wrth y gelynion oddi amgylch, y " barbariad," fel y geilw hwynt, sef dylanwadau ei oes, ac i fyw bywyd mewnol ac annibynnol. Y " myfi," yr " *ego* " fel y geilw athronwyr ef, yw gwron Barrès yn ei gyfnod cyntaf. Gwelir mai yr un syniad hanfodol sydd ganddo ag a goleddai meudwyiaid oesoedd bore Cristnogaeth, ond yn unig mai gwedd grefyddol oedd ar eu myfïaeth hwy, gwedd yr oedd Barrès yn gwbl rydd oddi wrthi. Darlunir y cyfnod hwn yn ei hanes mewn tair " nofel " o'i eiddo : *Yng Ngwydd fy Ngwrthwynebwyr* (*Sous l' oeil des Barbares*), *Y Dyn Rhydd* (*L'Homme Libre*), a *Gardd Bernis Le Jardin de*

Bérénice), ac ail-gyhoeddodd y gyfres, yn nes ymlaen, dan yr enw *Myfîaeth* (*Le Culte du Moi*) gyda rhagymadrodd helaeth yn esbonio athrawiaeth y llyfrau. Na frysied neb i ddarllen y tair "nofel" hyn gan ddisgwyl ei wefreiddio gan ddigwyddiadau cyffrous, nac ymgydnabod â chymeriadau atyniadol, na mwynhau disgrifiadau byw o gymdeithas. Mewnol yw'r oll, statig, ac ar wahân i'r darluniau prydferth a geir ynddynt o ardaloedd a lleoedd, megis Lorraine, Fennis, etc., ychydig sydd ynddynt o'r "diddordeb" y byddwn yn arfer chwilio amdano mewn nofelau. Ond y peth sy'n bwysig ydyw sylwi bod Barrès wedi symud rhyw gymaint ymlaen erbyn diwedd *Gardd Bernis*. Wedi llwyr wneuthur ei feddwl i fyny i fyw iddo ei hun ac er ei fwyn ei hun, darganfu, wrth fyned ymlaen, nad yw llawn dwf yn bosibl i'r unigolyn heb ymgymysgu ohono â chymdeithas—a "myfïau" pobl eraill o'i gwmpas. Hefyd, bod i'r "myfi" wreiddiau yn y gorffennol; yn wir, mai cyfanswm cenedlaethau lawer o hynafiaid ydyw pob dyn unigol. Ac yn drydydd, mai yn ei fro ei hun, yn yr un amgylchedd ag a fu'n amgylchynu'r cenedlaethau dirif o'i flaen, y mae'r "myfi" dan y fantais orau i ymddatblygu. Dyna ni, felly, ymhell iawn oddi wrth y negyddiaeth y cychwynnodd Barrès ohoni, a'r hunanoldeb cul a'i symbylai yn nechrau ei daith. Teg, er hynny, yw sylwi nad yw Barrès byth, fel Bryntière, yn dyrchafu cymdeithas (yn bresennol nac yn orffennol) uwchlaw yr unigolyn—nid yw'r myfi yn ymdoddi nac yn colli ei neilltuolrwydd; wedi'r cwbl, gwerth a phwysigrwydd y byd, o'n hôl ac o'n hamgylch, ydyw mai trwyddo ef yn unig y daw'r enaid unigol i fyny at y nod a osodwyd iddo.

O hynny hyd yn awr ymdaflodd Barrès i fywyd cyhoeddus ei wlad. I'r blaid adweithiol y perthyn: cefnogodd y Cadfridog Boulanger yn ei ymgyrch ffôl,

bu'n un o wrthwynebwyr chwerwaf y Llywodraeth ac yn un o erlidwyr pennaf Dreyfus. Y mae'n aelod seneddol dros " Ranbarth y Farchnad " ym Mharis—y llenor coeth ac encilgar wedi llwyddo i ennill cefnogaeth y darn mwyaf afreolus ac anwybodus o'r ddinas, bron fel pe bai Thomas Hardy yn perthyn i barti Bottomley, ac yn aelod seneddol dros Limehouse. Barned y darllenydd drosto'i hun a ydyw athroniaeth Barrès, o angenrheidrwydd, yn arwain i hyn, ai yntau methu dilyn ei feddwl i'r pen a wnaeth. Oblegid y mae elfen arall yn yr awdur hwn—hoffter at ferw a chyffro ; câr ymdaflu i helynt a miri bywyd, a chredaf mai dyna'r esboniad gorau ar ei fywyd gwleidyddol. Nid rhaid ond edrych ar ei ddarlun i ddeall rhyw gymaint arno : y mae'r wyneb hir, llwyd, y gwefusau meinion, llym, y llygaid fflachiog, a'r talcen uchel, oll yn dystion o'r gwrthdrawiad rhwng yr ysfa eirias anniwall i fyw, ar y naill law, a'r deall oer dadansoddol ar y llaw arall,

Cynnyrch llenyddol ei helyntion gwleidyddol ydyw'r tair nofel a elwir ganddo *Rhamant Egni Cenedl* (*Le Roman de L'Energie Nationale*). Cyn ysgrifennu'r rhain, yr oedd eisoes wedi cyhoeddi ei feirniadaeth ar Sosialaeth, yn y " nofel " fer, *Gelyn y Gyfraith* (*L'Ennemi des Lois*), llyfr od iawn. Y gyntaf o gyfres yr " egni " yw'r orau o lawer, sef *Y Diwreiddiedig* (*Les Déracinés*). Yma cawn hanes saith o wŷr ieuainc o Lorraine (gwlad Barrès ei hun, wrth gwrs), yn amrywio'n fawr mewn safle cymdeithasol, mewn cymeriad, ac mewn ansawdd meddwl, ond â chanddynt un peth yn gyffredin, sef eu haddysg. Buont yn yr un dosbarth yn yr ysgol, dan athro galluog ond di-egwyddor, a edmygent yn fawr, ond a'u *diwreiddiodd*, h.y., a stwffiodd eu pennau â gwybodaeth ddisylwedd a " philosophi a gwag dwyll " fel ag i dorri pob cysylltiad rhyngddynt â thraddodiadau

ac arferion bro eu genedigaeth,—a yw'n rhaid i mi bwysleisio'r awgrym i ni, Gymry? Dilynasant eu hathro i Baris, lle y daeth dau ohonynt (sef y ddau nad oedd ganddynt fonedd—yr un syniad ag a welsom yn *Nringo'r Ysgol* Bourget) i ddiwedd drwg,—un, yn wir, i'r dienyddle. Ond cyrhaeddodd dau arall dir uwch; trwy edmygu Napoleon a'r athronydd Taine (yn ei gyfnod olaf), *ail-wreiddiwyd* hwy mewn cariad at eu gwlad. Yn yr ail a'r drydedd nofel o'r gyfres hon, ymollwng Barrès yn fwyfwy i gwerylon gwleidyddol ei ddydd, nes mynd yn anodd i'w ddeall ac yn flin i'w ddarllen.

Y mae'n gwella'n fawr mewn cyfres a gychwynnwyd yn 1905 dan yr enw *Rhagfuriau'r Dwyrain* (*Les Bastions de L'Est*), sy'n ymdrin yn uniongyrchol â Lorraine, ac yn enwedig â'r rhan honno o Lorraine a rwygwyd ymaith gan yr Ellmyn yn 1870, ac a fu byth er hynny yn brwydro'r galed i gadw y diwylliant Ffrengig yn fyw er gwaethaf y llanw Ellmynig. Neges fawr Lorraine er dechrau amser, medd Barrès, fu amddiffyn y diwylliant Lladinaidd rhag ymosodiadau'r barbariaid, ac, o'r ochr arall, weithredu fel math o orsaf genhadol i gario'r diwylliant hwnnw i mewn i'r Almaen anwar. Nid yw hyn, yn anffodus, yn wirionedd hanesyddol—mor bell ag y gallaf fi weled, beth bynnag—ond y mae'r dyb yn ysbrydoliaeth fawr i awen Barrès, ac y mae dwy nofel y *Rhagfuriau* ymhlith ei waith gorau. *Gwasanaethu'r Gelyn* (*Au Service de L'Allemagne*) yw'r gyntaf: bywyd gŵr ieuanc o Lorraine a ddewisodd fyw yno, hyd yn oed er gorfod arno gyflawni gwasanaeth milwrol ym myddin yr Almaen, yn hytrach na dewis llwybr hawdd, sef ymfudo i Ffrainc, fel y gwnaethai miloedd o bobl Lorraine. Yr ail yw *Colette Baudoche*, hanes merch ieuanc o Metz, a syrthiodd mewn cariad ag ysgolfeistr Ellmynig, ond a wrthododd ei briodi,

" gan ddewis yn hytrach oddef . . . " Darlunir gyda medr dihafal bwys a grym y traddodiadau Ffrengig ar feddwl yr eneth ; yn wir, y mae'r nofel yma a'i rhagflaenydd yn sefyll yn uwch o lawer fel nofelau, ar wahân i'w gwerth athronyddol a phethau felly, na dim arall o waith eu hawdur.

Gwelir, mi gredaf, fod gwasanaeth mawr rhwng Barrès a Bourget, er cychwyn ohonynt o'r unfan a chyrraedd bron i'r unlle. Nid yw'n hawdd gweled cwrs yr ymresymiad a arweiniodd Bourget i blaid yr adwaith ; yn wir, teimla llawer hi'n anodd osgoi'r canlyniad mai snobyddiaeth yw'r achos, dyn wedi astudio cymaint ar yr *upper ten* fel y dywed y Sais, nes mabwysiadu eu holl fympwyon a dymuno bod yn un ohonynt. Digyswllt dros ben yw ei olygiadau. Gŵyr y ffolaf ohonom nad yw ymlyniad wrth grefydd yn arwain, o angenrheidrwydd, i lwyddiant bydol, nac anghrediniaeth i anfoesoldeb a thrueni, fel y myn ef. Gwyddom hefyd yn eithaf da mai ymysg y bendefigaeth a'r cyfoethogion, prif noddwyr yr Eglwys yn Ffrainc, y mae Bourget ei hun wedi dyfod o hyd i'w oriel hir o fywydau di-werth, di-ffydd, di-amcan.

Amheuwn yn ddirfawr, ped arferid yr hen Frenhiniaeth, a estynnid cymaint rhyddid i lenorion fel Bourget a Barrès i ymosod mor ffyrnig ar lywodraeth eu gwlad ac i'w phardduo yng ngwydd y byd. Yr hen Frenhiniaeth, gyda llaw, a laddodd y bywyd taleithiol i'w dibenion ei hun. Ac nid hoffus yw gweled dynion fel Bourget, a gododd o'r werin, yn ceisio cyfyngu hawliau'r bobl, ac yn lladd ar y gyfundrefn addysg a'r manteision a fu'n achos mawr o'u llwyddiant hwy eu hunain. Ond am Brunetière a Barrès, y mae ganddynt hwy ryw fath o gyfundrefn feddyliol, a dywedyd y lleiaf, ac y mae athroniaeth Barrès yn deilwng o astudiaeth fanwl, yn enwedig i ni genedlaetholwyr. A wna un o'n hathronwyr ymchwiliad

iddi, a chymwysiad ohoni at ein problemau ni yng Nghymru? A ellir ei hufennu ac osgoi ei dilyn i'r eithafion a welir, ar rai adegau, yn helynt ei hawdur? Awgrymais o'r blaen mai diffygion personol ynddo ef sy'n cyfrif am y rhain, ac nid gwendid ei gyfundrefn. Y man gwannaf o lawer yn nysgeidiaeth Barrès yw ei olygiadau ar grefydd. Nid yw ef eto'n grediniwr, ond y mae'n bleidiwr selog i Eglwys Rufain am resymau cymdeithasol. O'm rhan i, perthyned dyn i eglwys neu beidio, fel y mynno, ond peth gwrthun yw cymeradwyo a gwthio crefydd ar bobl eraill pan na bo dyn yn ei theimlo yn ddigon da iddo ef ei hun.

Cyn terfynu, nid amhriodol fyddai cymryd golwg frysiog ar gwestiwn ehangach. Paham y bu cymaint bri ar adwaith yn Ffrainc yn ystod y blynyddoedd diwethaf? Awgrymwyd o'r blaen nad dylanwad yr awduron adweithiol yn unig a rydd gyfrif am hyn. I'r gwrthwyneb, y mae'n fwy tebyg mai effaith, ac nid achos, ydyw'r llenyddiaeth adweithiol: drych ydyw hi y gallwn ddarllen ynddo dueddiadau'r oes. Sylwer hefyd nad llenyddiaeth cenedl gyfan ydyw, ond yn hytrach llenyddiaeth dosbarth,—a hwnnw'n ddosbarth cymharol fychan, ond ei fod yn ddosbarth effro a gwybodus, ac yn gallu ei fynegi ei hun yn llawer effeithiolach na chorff mawr a mud y genedl, ac felly yn tynnu mwy o sylw y byd. Er cymaint gwrthwynebiad y llenorion hyn i dra-arglwyddiaeth dinas Paris, y mae'n deg dywedyd mai i grynhoad meddwl Ffrainc ym Mharis y maent yn ddyledus am eu poblogrwydd a'u dylanwad.

Yn y lle cyntaf,—a sôn am yr awduron eu hunain,—rhaid cofio mai pobl wylaidd ac ofnus yw llenorion fel dosbarth. Carant yr encilion, hoff ganddynt dawelwch a sefydlogrwydd, ac am hynny tueddant i arswydo rhag newid byd. Nid argyhoeddwyd hwy, lawer

ohonynt, fod gan y werin hoffter neilltuol o lenyddiaeth na diwylliant nac ysgolheictod, ac ofnant y bydd i deyrnasiad y werin ysgubo'r pethau hynny ymaith. Ac fel y mae'n digwydd, o angenrheidrwydd, yr awdurdodau a'r bendefigaeth a fu'n noddwyr i lenyddiaeth a'r celfyddydau yn yr oesau a fu : tuedda llenorion felly i gredu bod y ddwy egwyddor yn hanfodol anwahanol. Nid rhaid myned i Ffrainc i chwilio am brofion o hyn—neu, os mynnwch, gellir eu cael hyd yn oed yn yr America bell.

Yn yr ail le, anodd iawn i ni yw sylweddoli effaith digwyddiadau 1870-71 ar Ffrainc. Ar yr olwg gyntaf, gellid meddwl mai afresymol hollol yw beio gwerinlywodraeth wrth-Eglwysig am drychinebau a ddigwyddodd oblegid ffaeleddau Ymerodraeth Bapistaidd. Ond yn un peth, nid yw'r cyhoedd yn arfer ymresymu'n fanwl. Hefyd, er i Napoleon III gefnogi'r Eglwys yn Ffrainc ac anfon milwyr i amddiffyn y Pab yn Rhufain, ni faddeuodd corff mawr clerigwyr Ffrainc byth iddo am gynorthwyo'r Eidal i gyrraedd ei hannibyniaeth ar draul y Pab. Rhaid cofio hefyd mai trawsfeddiannu'r orsedd a wnaeth Napoleon, ac nad oedd wrth fodd pleidwyr yr Hen Frenhiniaeth. Effaith arall, hollol naturiol, a ddilynodd 1870 oedd dyfnhau a chulhau'r teimlad cenedlaethol. Nid yr un yw'r teimlad hwn a'r teimlad ymerodrol. Tuedda gwlad ymerodrol i fod yn ormesol y tu allan i'w therfynau ei hun, ond y mae'n aml yn hynod ryddfrydig o'u mewn. Wedi i Ffrainc golli'r rhan fwyaf o'i dylanwad ar wledydd eraill, a dechrau byw yn ofn ail-oresgyniad, ac yng ngobaith adferiad y taleithiau colledig, dechreuodd ei chenedlaetholdeb weithio'n rymusach ynddi. Gwelir hyn yn bur amlwg yn ei llenyddiaeth a'i hysgolheictod. Er enghraifft, cymharer yr haneswyr a ysgrifennodd cyn 1870 â'r rhai a ysgrifennodd wedi hynny. Yn y

dosbarth cyntaf, gwelwn Michelet yn ymffrostio yn nylanwad yr Almaen arno : yn yr ail, Fustel de Coulanges yn ceisio profi mewn chwe chyfrol drwchus na bu gan y goresgynwyr Ellmynig barbaraidd ddylanwad o gwbl ar fabandod Ffrainc—mai Lladinaidd yw Ffrainc i'r carn.

Bu gan wrthryfel y *Commune* ym Mharis yn 1871 ddylanwad mawr. Nid oes yma amser i fanylu ar y *Commune*, ond sylwer iddo atgofio'r genedl o ddyddiau gwaedlyd 1792-4, a llwyr argyhoeddi llawer Ffrancwr mai tywallt gwaed yw canlyniad naturiol rhoddi'r awenau i'r bobl. Bu mwy nag un effaith o hyn. Dyma a wnaeth y rhydd-feddyliwr, Renan, yn geidwadwr yn ei hen ddyddiau. Dyma hefyd a droes yr athronydd Taine yn hanesydd : trawyd ef gan y tebygrwydd rhwng *Commune* 1871 a " Dyddiau Dychryn " 1793, ac ymroes i ysgrifennu hanes y Chwyldro Ffrengig. Buan y daeth i'r casgliad nad oedd eisiau'r Chwyldro o gwbl ; na wnaeth ddim lles, er colli afonydd o waed ; ac iddo arwain, o angenrheidrwydd, i ormes Napoleon, peth drwg ynddo ei hun a drwg ei ganlyniadau. Prin, efallai, y mae'n rhaid rhybuddio'r darllenydd nad yw haneswyr, ar y cyfan, yn ymostwng i'r dyfarniad hwn, ond pwysig yw cofio i'r llyfr ddylanwadu'n drwm ar ei genhedlaeth y tu allan i'r cylch bychan a wyddai well pethau. Yr oedd y Chwyldro cyn hyn yn destun balchter gan y Ffrancwyr fel cenedl, ond byth er hynny y mae llawer ohonynt yn ei ffieiddio, neu ar y gorau yn siarad yn ei gylch fel y bydd Uchel-Eglwyswyr yn Lloegr yn siarad am y Diwygiad Protestannaidd—fel peth i ryw hanner ymddiheuro drosto. Cofier hefyd fod gan Taine ddylanwad mawr dros ben ar lenorion ei wlad.

Un o effeithiau eraill y *Commune* oedd cryfhau ceidwadaeth y dosbarth canol i'r fath raddau fel ag i

arwain llawer ohonynt i edrych ar yr Eglwys fel arch i lochesu ynddi, fel cwlwm cymdeithas a gallu sy'n gweithio o blaid sefydlogrwydd. Felly hefyd am nifer mawr o brif swyddogion y fyddin : yr undeb rhwng y fyddin a'r Eglwys oedd prif broblem y Llywodraeth yn adeg helynt Dreyfus. Gwrandawer ar wawdiaith Anatole France (tua dechrau *Gwrthryfel yr Angylion*) : " Mynychai'r cadfridog y moddion gyda sêl oedd yn hynod hyd yn oed mewn milwr,—er bod pawb yn gwybod mai hoff drigfan Duwioldeb ar y ddaear yw calonnau cadfridogion y Weriniaeth. Rhyfedd yw helyntion y ffydd! Dan yr Hen Frenhiniaeth, credai'r werin yn selog, ond anffyddwyr oedd y pendefigion a'r dosbarth llythrennog. Dan Napoleon y cyntaf, annuwiol o'r top i'r gwaelod oedd y fyddin. Ond heddiw, nid yw'r werin yn credu o gwbl ; am y dosbarth canol, y mae hwnnw'n ceisio credu, ac weithiau'n llwyddo i gredu." Gadawaf rhwng y darllenydd ag ysbryd y dyfyniad hwn, ond nid oes lawer o le i amau cywirdeb ei ffeithiau.

Dylid hefyd gofio nad yw'r Weriniaeth, o leiaf hyd 1914, wedi ei phrofi ei hun yn rhyw hynod o lwyddiannus. Ni pherthyn i mi yma fyned ar ôl yr achosion. Y mae'n werth darllen llyfr safonol Mr. Bodley ar Ffrainc (ond cofio'n wastad mai Ceidwadwr yw Mr. Bodley), sy'n trin yn bur helaeth ar y materion hyn. Bu mwy nag un scandal yn ei hanes, mwy nag un esiampl o lwgrwobrwy a budr-elw ac anghyfiawnder, nes myned o lawer Ffrancwr gonest i anesmwytho ac i ofyn iddo'i hun : " Ai tybed mai ar weriniaeth ei hunan y mae'r bai ? "

Gadewais hyd y diwedd elfen arall bwysig iawn yn llwyddiant yr adwaith, sef y chwyldro mewn athroniaeth. Wedi llanw mawr gwyddoniaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth trai. Canfu athronwyr (a gwyddonwyr hefyd, o ran hynny) mai

esbonio ail-achosion ac effeithiau'n unig a wnaeth gwyddoniaeth hyd yn hyn : bod iddi hithau hefyd ei rhagdybiau, a bod yn bosibl beirniadu'r rheiny. Yn Ffrainc dangosodd Boutroux a Poincaré mai pethau amodol yw deddfau gwyddoniaeth, ac aed i amau anffaeledigrwydd y deall dynol ac i chwilio am rywbeth i'w roddi yn ei le. Daeth Durkheim ymlaen â'i athroniaeth gymdeithasol, gan roddi'r pwys i gyd ar gyd-fyw mewn cymdeithas, ar hanes, ac ar draddodiad,—hawdd i'r darllenydd weled cysylltiad hyn â golygiadau Barrès a Maurras. Yn olaf, daeth athroniaeth Bergson. Ceisiwyd eisoes esbonio hon i'r Cymro gan yr Athro Miall Edwards ac eraill, ac ni pherthyn i mi yma wneuthur mwy na chyfeirio at y symbyliad mawr a roes yr athroniaeth hon (nid o fodd ei sylfaenydd, bid sicr) i'r Eglwys yn Ffrainc. Cwyna Rémy de Gourmont yn chwerw fod William James a Bergson yn gweithio dros Gristnogaeth heb yn wybod iddynt eu hunain, a dywed eu bod wedi gwneuthur mwy i agor dorau'r eglwysi nag unrhyw fudiad y tu yma i'r Oesoedd Canol. Yn yr un modd ag yr arweiniodd goruchafiaeth Kant ar resymolwyr yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed i ganlyniadau mor anisgwyliadwy â Mudiad Rhydychen a'r Adfywiad Catholig yn Ffrainc, felly hefyd ymddengys bod ymosodiad Bergson ar wyddoniaeth ddeallol ei oes wedi hwyluso'r ffordd i draddodiadaeth, mewn byd a chrefydd.

DIWEDD.

LLANELLY PUBLIC LIBRARY.
THIS BOOK MUST NOT BE TORN
WRITTEN IN ANY
WAY, AND READERS WILL BE HELD
RESPONSIBLE FOR ANY DAMAGE DONE